# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Gymraeg.

This document is also available in Welsh.

Cyfarfod

**PWYLLGOR CRAFFU GOFAL**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD MAWRTH, 13EG IONAWR, 2026**

*** NOTE**

**BYDD CYFARFOD BRIFFIO I AELODAU AM 10:00Y.B**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH**

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**https://gwynedd.public-i.tv/core/l/en_GB/portal/home**

Pwynt Cyswllt

**Courtney Leigh Jones**

**courtneyleighjones@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Mawrth, 6 Ionawr 2026)

# PWYLLGOR CRAFFU GOFAL

## AELODAETH (18)

## Plaid Cymru (12)

Cynghorwyr

Menna Baines
Linda Morgan
Meryl Roberts
Jina Gwyrfai
Sian Williams
Elin Walker Jones

Rheinallt Puw
Gwynfor Owen
Einir Wyn Williams
John Pughe
Berwyn Parry Jones
Geraint Wyn Parry

## ANNIBYNNOL (5)

Cynghorwyr

Elwyn Jones
Eryl Jones-Williams
Angela Russell

Anwen J. Davies
Beth Lawton

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor

# RHAGLEN

**1. YMDDIHEURIADAU**

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

To receive any declarations of personal interest.

**3. MATERION BRYS**

To note any items that are a matter of urgency in the view of the Chairman for consideration.

**4. CYNLLUN YMATEB I'R ADRODDIAD CYFIAWNDER TRWY EIN DEWRDER** 4 - 175

Sicrwydd o ran gweithrediad y Cynllun Ymateb.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Craffu Gofal |
| **DYDDIAD** | 13 Ionawr 2026 |
| **TEITL** | Cynllun Ymateb i'r Adroddiad Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder |
| **RHESWM DROS GRAFFU** | Sicrwydd o ran gweithrediad y Cynllun Ymateb |
| **AWDUR** | Dafydd Gibbard – Prif Weithredwr |
| **AELOD CABINET** | Cyng Nia Jeffreys – Arweinydd y Cyngor<br>Cyng Menna Trenholme -Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Plant<br>Cyng Dewi Jones – Aelod Cabinet Addysg |

**1. Pam fod angen ei graffu?**

1.1 Mabwysiadwyd y Cynllun Ymateb i droseddau gan Gabinet Cyngor Gwynedd yn Ionawr 2025, ac mae wedi bod yn gynllun byw sydd wedi esblygu dros amser ers hynny. Cydnabuwyd y byddai angen adolygu y Cynllun yn llwyr yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad Adolygiad Ymarfer Plant.

1.2 Ar y 4ydd Tachwedd 2025, cyhoeddwyd 'Cyfiawnder Trwy ein Dewrder' ac mae'r Cynllun Ymateb bellach wedi ei ddiwygio yn dilyn hynny. Hwn yw'r newid mwyaf i'r Cynllun ers ei fabwysiadu.

1.3 Gofynnir i'r Pwyllgor graffu y Cynllun Ymateb ar ei newydd wedd cyn ei gyflwyno i'r Cabinet er mwyn ei fabwysiadu yn ffurfiol.

1.4 Bydd cyfarfod arbennig o'r Cyngor yn cael ei gynnal yn yr wythnosau nesaf a bydd ymateb y pwyllgor hwn yn cael ei gyfleu i'r cyfarfod hwnnw.

**2. Beth yn union sydd angen ei graffu?**

2.1 Fod y Cynllun yn ymateb yn briodol a chyflawn i'r Adroddiad 'Cyfiawnder trwy ein Dewrder'.

2.2 Ystyried y prif flaenoriaethau ar gyfer gweithredu ar unwaith.

2.3 Cynghori ar ymdrin â dibyniaethau (e.e. aros am argymhellion rhanbarthol neu genedlaethol) a lliniaru risgiau posib.

**3. Crynodeb o'r Materion Allweddol**

**4. Cefndir / Cyd-destun**

4.1 Mabwysiadwyd Cynllun Ymateb gwreiddiol gan y Cabinet ar 21 Ionawr 2025, gyda 4 ffrwd waith allweddol:

- Ffrwd Waith A – Cefnogi'r dioddefwyr a'r goroeswyr
- Ffrwd Waith B – Sicrhau bod gennym y trefniadau diogelu gorau posib
- Ffrwd Waith C – Sefydlu, dysgu a gwella
- Ffrwd Waith Ch – Cefnogi a sefydlogi Ysgol Friars

4.2 Sefydlwyd Bwrdd Ymateb i graffu, herio a chynghori ar gyflawni cynnwys y Cynllun, wedi ei gadeirio yn annibynnol gan yr Athro Sally Holland. Mae Aelodaeth y Bwrdd yn cynnwys nifer o sefydliadau allanol fel sylwedyddion er mwyn herio a monitro cynnydd y Cynllun Ymateb, gan gynnwys Estyn, AGC, Llywodraeth Cymru, Comisiynydd Plant a'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol. Hefyd, cynrychiolaeth o Ysgol Friars (Pennaeth a Chadeirydd

Llywodraethwyr), sector Uwchradd Gwynedd, Swyddogion y Cyngor, ynghŷd ag Aelodau Cabinet o'r meysydd perthnasol i osod cyfeiriad gwleidyddol strategol y meysydd gwaith dan eu cyfrifoldeb tra hefyd yn craffu ar waith swyddogion a'u cefnogi.

4.3 Cyhoeddwyd yr adroddiad 'Cyfiawnder trwy ein Dewrder' gan Fwrdd Diogelu Gogledd Cymru ar 4 Tachwedd, 2025. Cyn, ac ers hynny, mae gwaith wedi parhau i adolygu'r hyn sydd angen ei ymgorffori yng nghynllun Gwynedd wrth symud ymlaen gan gynnwys mynd i'r afael â'r themâu a'r argymhellion a nodwyd yn yr adroddiad ac alinio â'r rhai a oedd eisoes yn rhan o'r cynllun ymateb (oedd yn cynnwys argymhellion o adroddiadau eraill hefyd).

4.4 Mae **Atodiad 1** yn cynnwys copi o'r Cynllun Ymateb diwygiedig sy'n adlewyrchu'r newidiadau hyn. Mae'r rhain wedi'u nodi o dan 7 prif thema i gyd-fynd gyda themâu adroddiad Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder:

- Llais y Plentyn a Chefnogi Dioddefwyr
- Rheoli Honiadau a Phryderon am Oedolion sy'n gweithio gyda Phlant
- Hyfforddiant a Pholisïau
- Llywodraethu Ysgolion
- Arferion Cyfyngol
- Cynllunio Argyfwng ac Ymateb i Argyfwng
- Ysgol Friars

4.5 Mae fersiwn hawdd i'w ddeall o'r Cynllun Ymateb ar y gweill ar hyn o bryd. Bydd y fersiwn hon yn cael ei chyflwyno ar yr un pryd â'r Cynllun Ymateb llawn pan fydd yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet.

4.6 Cyflwynir rhaglen waith manwl i gyfarfodydd y Bwrdd Ymateb a gan fod hwn bellach wedi tyfu mewn maint cyflwynir hefyd adroddiad trosolwg ar gyfer pob un o'r 7 thema unigol, gan gynnwys diweddariad ar yr hyn sydd wedi ei gyflawni ers cyfarfod blaenorol y Bwrdd a nodi beth fydd yn cael ei flaenoriaethu ar gyfer y cyfnod nesaf. Gweler yr adroddiadau cynnydd thema yn **Atodiad 2** er gwybodaeth.

4.7 Ynghlwm i'r adroddiadau cynnydd ar gyfer y 7 thema, mae Rhaglen Waith manwl yn cael ei gyflwyno i Aelodau y Bwrdd Ymateb i roi cyfle iddynt herio'r manylder. Mae'r rhaglen waith hwn yn cynnwys argymhellion a chamau gweithredu o'r adroddiad Cyfiawnder trwy ein Dewrder, y Cynllun Ymateb gwreiddiol a chamau ychwanegol eraill sydd wedi eu hadnabod. Rhennir gopi or rhaglen waith er gwybodaeth yn **Atodiad 3**.

4.8 Gweler yn Atodiad 3 fod y tasgau gwaith lefel uchel wedi eu rhestru (llinellau gwyn) ac mae cyfres o is-dasgau (llinellau melyn) ar gyfer pob tasg gwaith sy'n sicrhau lefel o fanylder sy'n ofynnol ar lefel weithredol. Mae'r lefel hwn o fanylder yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Ymateb ei graffu yn ogystal â rhoi ystyriaeth i'r adroddiadau thema.

4.9 Mae tasgau gwaith sydd wedi'u cwblhau a'u disodli neu gyfuno gydag argymhellion Cyfiawnder Trwy ein Dewrder hefyd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Gwaith er mwyn cyflawnder.

4.10 Er mwyn sicrhau ac olrhain cynnydd yn effeithiol, mae cyfres o fesurau perfformiad clir yn cael eu cymhwyso ar draws pob un o saith thema'r Cynllun Ymateb. Mae'r mesurau hyn yn cynnwys dangosyddion meintiol (megis derbyn hyfforddiant, a gwiriadau

cydymffurfio) ac asesiadau ansoddol (megis adborth gan fforymau ieuenctid, arolygon rhieni a staff, ac arolwg AGC ac Estyn). Bydd monitro rheolaidd yn erbyn y mesurau hyn yn caniatáu i'r Bwrdd Ymateb adnabod meysydd llwyddiant a'r rhai sydd angen ffocws ychwanegol, gan sicrhau bod gwelliannau yn cael eu cynnal ac yn cyd-fynd â blaenoriaethau diogelu.

4.11 Gan fod yr adroddiad Cyfiawnder Trwy ein Dewrder bellach wedi ei gyhoeddi bwriedir rhannu dogfennau'r Bwrdd Ymateb ar y wefan o hyn allan.

**4.12 Ymgynghori**

4.13 Ymgynghorwyd yn eang wrth ddatblygu'r Cynllun Ymateb er mwyn derbyn mewnbwn o sawl cyfeiriad gan gynnwys

- Cadeirydd yr adolygiad ymarfer plant
- Comisiynydd y Plant
- Estyn
- Arolygaeth Gofal Cymru
- RASASC
- Llywodraeth Cymru
- Aelodau Cabinet
- Swyddogion Cyngor Gwynedd

**5. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

*A ydych wedi **cynnwys** trigolion / defnyddwyr gwasanaeth? Os ddim, pryd a sut ydych yn bwriadu ymgynghori â nhw?*

5.1 Mae ystod eang o asiantaethau yn aelodau neu yn sylwedyddion annibynnol o sefydliadau statudol cenedlaethol ar y Bwrdd Ymateb sydd yn werthfawr o ran derbyn mewnbwn ac arbenigedd sectorau gwahanol.

5.2 Mae cynrychiolwyr defnyddwyr gwasanaeth wedi ymgynghori â hwy megis cynrychiolwyr sector ysgolion yng Ngwynedd.

5.3 Yn ogystal â hynny, ar gais yr Arweinydd yng nghyfarfod y Cabinet ar 11 Tachwedd 2025, mae Cadeirydd Annibynnol y Bwrdd Ymateb ar hyn o bryd yn ystyried y dull mwyaf priodol o gynnwys llais dioddefwyr yn y gwaith.

*A ydych wedi ystyried **cydweithio**?*

5.4 Mae cydweithio yn hanfodol i lwyddiant y Cynllun hwn a drwy law y Bwrdd Ymateb rydym yn cydweithio gyda'r holl asiantaethau sydd yn ran ohono. Mae'r Bwrdd yn cwrdd yn rheolaidd bob yn ail fis ac mae cyswllt cyson rhyngom. Bydd cydweithio gyda'r holl

asiantaethau hyn, yn ogystal ac eraill megis yr Heddlu, y Gwasanaeth Iechyd ac Awdurdodau Lleol eraill yn allweddol i lwyddiant ein Cynllun Ymateb

*Beth sydd wedi ei wneud neu bydd yn cael ei wneud i **atal** problemau rhag codi neu waethygu yn y dyfodol?*

5.5 Datblygwyd y Cynllun Ymateb yn y lle cyntaf er mwyn gwneud popeth o fewn ein gallu fel na fydd unrhyw un yn dioddef yn yr un modd eto. Mae'r Cynllun yn cynnwys mesurau rhagweithiol megis monitro parhaus, adolygiadau rheolaidd, hyfforddiant staff, a chydweithio â phartneriaid i nodi risgiau'n gynnar, er mwyn atal problemau rhag codi neu waethygu yn y dyfodol.

*Sut ydych wedi ystyried yr **hirdymor** a beth fydd anghenion pobl mewn blynyddoedd i ddod?*

5.6 Yn y Cynllun Ymateb newydd, rydym wedi ystyried yr hirdymor drwy sefydlu rhaglen waith aml-flwyddyn sy'n cryfhau'r saith ffrwd (e.e. llais y plentyn, hyfforddiant a pholisïau, llywodraethu ysgolion, a chynllunio ac ymateb i argyfwng) ac yn sicrhau adolygiad parhaus, fel y bydd anghenion pobl yn y blynyddoedd i ddod – megis cefnogaeth barhaus i ddioddefwyr, gwasanaethau trawma-wybodus, fersiynau 'hawdd i ddeall' i blant, a seilwaith diogelu cadarn sy'n addasu wrth i risgiau newid – yn cael eu diwallu'n gynaliadwy.

*Er mwyn sicrhau **integreiddio**, a ydych wedi ystyried yr effaith bosib ar gyrff cyhoeddus eraill?*

5.7 Mae nifer helaeth o argymhellion adroddiad 'Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder' yn argymhellion rhanbarthol a chenedlaethol, neu i bob Awdurdod Lleol. Rydym eisoes wedi datgan ein parodrwydd i fod yn gweithredu cyn unrhyw newid ar lefel rhanbarthol neu genedlaethol a'n awydd i fod yn gweithio gyda cyrff eraill megis Llywodraeth Cymru er mwyn peilota ar gynllun neu ganllaw newydd pe dymunir.

**6. Effaith ar nodweddion cydraddoldeb, y Gymraeg a'r Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol**

6.1 Mae Asesiad Effaith Cydraddoldeb wedi'i gwblhau ar ffurf drafft a bydd yn cael ei gyflwyno pan fydd y Cabinet yn ystyried y Cynllun Ymateb.

**7. Camau nesaf**

7.1 Bwriedir cyflwyno y Cynllun Ymateb newydd i'r Cabinet ei gymeradwyo yn ffurfiol ym mis Mawrth.

7.2 Bydd y Bwrdd Ymateb yn parhau i gyfarfod hyd nes bod yr holl gamau gweithredu y cynllun ymateb wedi gwreiddio neu yn cael sylw o fewn cyfundrefn herio perfformiad yr Awdurdod a bod aelodau'r Bwrdd yn fodlon bod tystiolaeth mewn perthynas â'r mesurau effaith a restrir yn dangos effeithiolrwydd y camau gweithredu hyn.

**Atodiadau:**

**Atodiad 1** – Cynllun Ymateb: Cyfiawnder trwy ein dewrder

**Atodiad 2** – Adroddiadau trosolwg y 7 ffrwd gwaith

**Atodiad 3** – Rhaglen waith y Cynllun Ymateb

**Atodiad 4** – 'Cyfiawnder trwy ein Dewrder' - www.bwrdddiogelugogleddcymru.cymru/adolygiad-ymarfer-plant-gwynedd

# Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder- Cynllun Ymateb Cyngor Gwynedd

*"Ni allwn am eiliad anghofio am y rhai pwysicaf yng nghanol hyn, sef y plant a ddylai fod wedi bod yn ddiogel yn eu hysgol. Holl bwrpas pob cam sy'n cael eu cymryd gennym yw gwneud popeth posib i sicrhau na fydd neb yn dioddef yn yr un modd fyth eto a dyna ddylai fod ar frig ein hystyriaethau pob amser."*

Rhagfyr 2024

Fersiwn 2. Tachwedd 2025

# Cynnwys


1. Crynodeb o'r cefndir
2. Datganiad o safbwynt y Cyngor
3. Adolygiad Ymarfer Plant – Tachwedd 2025
4. Amcanion y Cynllun Ymateb hwn
5. Sut ydym yn bwriadu mynd ati i gyflawni ein amcanion?
6. Ffrydiau gwaith y Cynllun Ymateb i Droseddu
    - Ffrwd Gwaith 1 – Llais y plentyn a chefnogi dioddefwyr
    - Ffrwd Gwaith 2 - Rheoli honiadau a phryderon am oedolion sy’n gweithio gyda phlant
    - Ffrwd Gwaith 3 – Hyfforddiant a Pholisïau
    - Ffrwd Gwaith 4 - Llywodraethiant Ysgolion
    - Ffrwd Gwaith 5 - Grym Rhesymol
    - Ffrwd Gwaith 6 - Cynllunio Argyfwng ac Ymateb i Argyfwng
    - Ffrwd Gwaith 7 – Cefnogi a sefydlogi Ysgol Friars
7. Perchnogaeth a threfniadau llywodraethu’r Cynllun
8. Cynllun cyfathrebu

## 1. Crynodeb o'r cefndir

Cafodd Neil Foden, cyn-brifathro Ysgol Friars ym Mangor, ei arestio ar y 6ed o Fedi, 2023, yn ei weithle yn dilyn datgeliad gan un o'r dioddefwyr. Roedd yn wynebu 19 cyhuddiad, gan gynnwys 12 cyhuddiad o weithgaredd rhywiol gyda phlentyn a dau gyhuddiad o weithgaredd rhywiol gyda phlentyn tra roedd mewn sefyllfa o ymddiriedaeth. Roedd yr achos troseddol yn ymwneud â phum merch dros gyfnod o bedair blynedd.

Ym mis Mai 2024, ar ôl gwrandawiad tair wythnos yn Llys y Goron yr Wyddgrug, cafwyd y troseddwr yn euog. Ar 1 Gorffennaf, 2024, cafodd ei ddedfrydu i 17 mlynedd yn y carchar.

Yn dilyn ei euogfarn, sefydlodd Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru Adolygiad Ymarfer Plant (Child Practice Review - CPR) o dan Gadeirydd Annibynnol, Jan Pickles, i sefydlu amgylchiadau yr holl fater, canfod gwersi ac atal achosion tebyg yn y dyfodol.

Rhwng Medi 2023 a'r achos llys, roedd yr ymchwiliadau i'r honiadau yn erbyn y troseddwr yn cymryd lle. Roedd hwn yn ymchwiliad troseddol oedd yn cael ei arwain gan yr Heddlu. Gyda nifer o honiadau hanesyddol, roedd rhai o'r dioddefwyr a goroeswyr bellach yn oedolion a felly'r ymholiadau am droseddau yn cael eu cynnal gan yr Heddlu yn unig. Ar gyfer honiadau lle roedd y dioddefwyr a goroeswyr yn blant ar hyn o bryd, roedd yr ymchwiliadau yma eu cynnal yn unol a Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2020. Roedd hyn yn cynnwys cyfweliadau a cyd-ymchwiliadau rhwng Gwasanaethau Plant a'r Heddlu.

Yn unol ag ymarfer da mewn ymchwiliadau o'r fath, roedd yn allweddol nad oedd unrhyw weithredu yn ystod yr ymchwiliad troseddol allai danseilio gallu'r Heddlu i ymchwilio i drosedd. Cynhaliwyd yr ymchwiliadau yn ystod y cyfnod yn unol â Rhan 3 a Rhan 5 o Weithdrefnau Diogelu Cymru 2020. Arweiniodd y Cyngor ar y prosesau dan Rhan 5 o'r Gweithdrefnau i reoli a cymedroli gweithgareddau'r ymchwiliad.

Yn dilyn yr euogfarn gan y Llys, yn Mehefin 2024, bu i Fwrdd Diogelu Gogledd Cymru ddatgan yn syth eu bod yn agor Adolygiad Ymarfer Plant. Mae Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru (BDPGC) yn gorff statudol o dan Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'u cyfrifoldeb yw cydgysylltu, monitro a herio ei asiantaethau partner wrth ddiogelu plant yng Ngogledd Cymru.

Amcanion BDPGC yw:

- **AMDDIFFYN** plant yn ei ardal sydd, neu sydd mewn perygl o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu brofi mathau eraill o niwed ar hyn o bryd, ac

- **ATAL** plant sydd, neu sydd mewn perygl o gael eu cam-drin, rhag cael eu hesgeuluso neu brofi math arall o niwed.

Mae'r BDPGC yn nodi mai ei swyddogaeth yw gwneud "Diogelu yn fusnes i bawb". Yr asiantaethau partner yw'r chwe awdurdod lleol ar draws y rhanbarth (Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Heddlu Gogledd Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a Chwmni Ail sefydlu Cymunedol.

Penododd y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Gadeirydd i arwain y CPR, Jan Pickles, unigolyn profiadol iawn sydd wedi bod yn arwain adolygiadau proffil uchel o'r natur hwn ac yn arbenigo ar faterion diogelu plant ers blynyddoedd (manylion pellach yn rhan 5 isod). Bu i Jan Pickles ymweld ag Aelodau'r Cyngor

ar 11eg o Orffennaf 2024 er mwyn amlinellu’r gwaith oedd o’i blaen a’r drefn o gyflawni’r gwaith hwnnw. Heb amheuaeth fe arweinir y CPR gan unigolyn profiadol, arbenigol ac angerddol yn y maes ac rydym fel Cyngor yn falch o hynny.

Rydym wedi elwa yn fawr o gyngor ac arweiniad Jan Pickles dros y misoedd diwethaf. Mae CPR o natur mor ddifrifol a chymhleth â hyn yn ddieithr i ran helaeth swyddogion ac Aelodau Cyngor Gwynedd ac rydym yn troedio tir newydd yn ddyddiol. Mae’r sefyllfa hon yn gwbl ddigynsail ac felly mae cael cyngor arbenigwraig gydnabyddedig wedi bod yn amhrisiadwy.

Y bwriad yn wreiddiol oedd i’r CPR anelu i ddod gasgliadau ymhen oddeutu 6 mis, sef yr amserlen arferol ar gyfer CPR. Fodd bynnag, bu i faint yr Adolygiad gael ei ymestyn gryn dipyn ers hynny a’i gylch gorchwyl yn ehangach a mwy trylwyr. Yn sicr, nid yw’n CPR arferol ac roedd y cylch gorchwyl yn gosod disgwyliad ar yr ymchwilwyr i ystyried digwyddiadau yn ôl hyd at 2017 (dwy flynedd cyn yr arestio fyddai’n arferol). Roedd hynny i’w groesawu ac yn naturiol bu’r amserlen ar gyfer cwblhau’r gwaith orfod cael ei hymestyn hefyd. Cyhoeddwyd yr adroddiad terfynol, Cyfiawnder Trwy ein Dewrder, ym mis Tachwedd 2025 ac yn sgil hynny adolygwyd a diweddarwyd y cynllun hwn er mwyn adlewyrchu casgliadau yr adroddiad.

Ystyriwyd ar y pryd mai’r CPR yn y lle cyntaf oedd yn y sefyllfa orau i ystyried yr holl ffeithiau a dod i gasgliadau ystyrlon. O’r herwydd, nid oeddem am gynnal adolygiad neu ymchwiliad ein hunain na fyddai'n cael ei weld cystal â CPR, neu yn taflu unrhyw gysgod ar ein hymddiriedaeth ym mhroses statudol ac annibynnol y CPR. O ganlyniad, ni fu i’r Cyngor gynnal adolygiadau ffurfiol neu ein ymchwiliadau ein hunain rhwng Mehefin a Hydref. Wedi dweud hynny, fel yr amlinellir yn y Cynllun Ymateb hwn, ni wnaeth hyn ein hatal rhag cyflawni sawl cam i sicrhau ein bod yn ymateb yn briodol i'r sefyllfa.

Yn dilyn trafodaethau gyda Cadeirydd y CPR yn ystod yr hydref 2024, daethpwyd i’r casgliad ei bod yn briodol erbyn hynny i’r Cyngor symud yn gynt gyda rhai agweddau o’n hymateb yn hytrach nag aros tan gasgliadau y CPR i wneud unrhyw ymchwiliadau ein hunain, am nifer o resymau gan gynnwys:

- y newid yn amserlen y CPR er mwyn ehangu sgôp y gwaith,
- mae'r gwaith sylweddol o gasglu a chyflwyno tystiolaeth y Cyngor i ymchwilwyr yr Adolygiad bellach wedi ei orffen,
- gwybodaeth newydd oedd yn dod i’r amlwg wrth i amser fynd rhagddo nad oeddem yn ymwybodol ohono ar y cychwyn,
- y sylw sylweddol gan y cyfryngau torfol, ar y gwefannau cymdeithasol a’r diddordeb cyhoeddus yn yr achos wedi arwain at ganfyddiadau na wyddom os ydynt yn gywir a’i peidio.

Mae’r Ymchwiliadau ac Adolygiadau hynny wedi eu cwblhau, ac mae’r amrywiol gasgliadau ac argymhellion sy’n deillio o’r ymchwiliadau ac adolygiadau hyn wedi eu hychwanegu i’n cynllun a bydd y Bwrdd Ymateb yn monitro cynnydd y gweithredu. Rydym wedi datgan yn glir o’r cychwyn y byddwn yn cofleidio’r holl argymhellion o bob ymchwiliad ac yn eu gweithredu’n llawn ac yn ddi-oed. Yn ogystal, bydd ymchwiliadau pellach yn cael eu cynnal lle bo angen, er mwyn sicrhau bod pob agwedd yn cael ei hystyried yn drylwyr.

Mae’r Cynllun Ymateb hwn yn esbonio beth fyddwn yn ei wneud er mwyn ceisio cyflawni ein amcanion yng nghyswllt hyn oll, ac yn arbennig felly yn dilyn cyhoeddi’r adroddiad ‘Cyfiawnder Trwy ein Dewrder’.

## 2. Datganiad o safbwynt y Cyngor

Cyn nodi ein amcanion, mae'n bwysig fod y Cyngor yn datgan ei safbwynt yn gwbl glir.

Mae gweithredoedd y troseddwr wedi cael effaith ddofn ac ysgytwol ar y dioddefwyr a goroeswyr, eu teuluoedd, yr ysgol, y gymuned, staff ac Aelodau'r Cyngor a'r sir gyfan.

Hanfod Cynllun Ymateb fel hwn yw ei fod yn ffurfiol ei natur, gan ei fod yn cyfeirio at nifer o faterion trefniadaethol. Ond, ni allwn am eiliad anghofio am y rhai pwysicaf yng nghanol hyn, sef y plant a phobl ifanc a ddylai fod wedi bod yn ddiogel yn eu hysgol. Holl bwrpas y Cynllun Ymateb hwn a phob cam sy'n cael eu cymryd gennym yw gwneud popeth posib i sicrhau na fydd neb yn dioddef yn yr un modd fyth eto, a dyna ddylai fod ar frig ein hystyriaethau pob amser.

Fel corff cyhoeddus cyfrifol mae'r Cyngor yn datgan a chydnabod fod y troseddau a gyflawnwyd yn atgas ac yn hunllefus i'r holl ddioddefwyr a goroeswyr. Rydym yn dymuno ymddiheuro i bob dioddefwr ac yn dymuno rhoi gwarant y byddwn yn rhoi o'n gorau i ganfod y ffeithiau i gyd ac yn cofleidio pob gwers sydd angen ei dysgu er mwyn gwella er lles cenedlaethau'r dyfodol.

Byddwn yn blaenoriaethu ein adnoddau i ymateb i gasgliadau pob ymchwiliad sydd eisoes wedi eu cwblhau gennym ni fel Cyngor a'r CPR statudol. Byddwn yn cydweithio gyda Chomisiynydd Plant Cymru ac rydym wedi ei gwahodd i gynnig mewnbwn a chyngor ar ein holl weithredu.

Yn ogystal â'r CPR, mae'r Cyngor hefyd wedi galw ar Lywodraeth Cymru i gynnal Ymchwiliad Cyhoeddus i'r holl amgylchiadau ynghlwm â'r troseddu difrifol hwn. Llywodraeth Cymru sydd â'r grym statudol i sefydlu Ymchwiliadau Cyhoeddus.

Ein dyhead yw troi pob carreg, bod yn gwbl agored a thryloyw. Fel arall, bydd yn amhosib i ni gyflawni ein amcanion yn effeithiol.

## 3. Adroddiad Adolygiad Ymarfer Plant – Tachwedd 2025

Fel nodwyd yn rhan gyntaf y Cynllun hwn, bu i Fwrdd Diogelu Gogledd Cymru sefydlu Adolygiad Ymarfer Plant (CPR) yn syth wedi dyfarniad y llys a bu i'r Cyngor ddatgan eu cefnogaeth lwyr i'r Adolygiad ac ymrwymo i wneud popeth posib i'r gefnogi yn ogystal a gweithredu'r holl argymhellion yn syth. Mae sefydlu CPR yn gam arferol ym mhob achos lle mae camdriniaeth neu esgeulustod wedi digwydd ac mae plentyn wedi marw neu goddef niwed arwyddocaol.

Roedd Cadeirydd y CPR, Jan Pickles,  yn unigolyn profiadol tu hwnt sydd wedi bod yn arwain adolygiadau proffil uchel o'r natur hwn ac yn arbenigo ar faterion diogelu plant ers blynyddoedd maith. Mae yn weithiwr cymdeithasol cofrestredig gyda phrofiad helaeth gyda'r Gwasanaeth Prawf, yr Heddlu a'r NSPCC. Mae hi'n gyn-Swyddog Diogelu Dynodedig yng Nghyngor San Steffan ac yn gyn Gomisiynydd yr Heddlu cynorthwyol yn Ne Cymru. Bu'n aelod o Fwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol Cymru am 6 mlynedd, hyd at Mai 2022.

Ymysg ei gwaith diweddar, roedd Jan Pickles wedi arwain a chymryd rhan mewn sawl ymchwiliad uchel ei broffil, gan gynnwys cadeirio CPR i achos trist Logan Mwangi ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Hi yw awdur yr adolygiad i achosion hanesyddol o gam-drin plant yng Ngholeg Winchester a bu iddi gadeirio adolygiad mewn Ysgol flaenllaw yn Llundain a gweithio fel rhan o'r adolygiad i achosion hanesyddol (o'r 1970au) o gam-drin plant yn rhywiol yng nghlwb pêl-droed Chelsea. Mae hefyd newydd gwblhau adolygiad annibynnol o achosion hanesyddol o gamdriniaeth plant ym mynachdy Ynys Bŷr.

Cefnogwyd y Cadeirydd gan ddau ymchwilydd annibynnol, Jane Foster ac Anna Henderson, sy'n brofiadol mewn gwaith o'r natur hwn. Bu i'r ymchwilwyr, gasglu tystiolaeth yn dilyn proses strwythuredig gyda'r cam cychwynnol yn canolbwyntio ar gyfarfod y dioddefwyr a goroeswyr a threulio amser yn yr Ysgol, cyfarfod gyda gweithwyr proffesiynol perthnasol ac aelodau o'r cyhoedd sydd â gwybodaeth y teimlant y bydd yn cefnogi'r broses adolygu.

Cyflwynwyd llinellau amser, cronolegau a dadansoddiadau gan 14 asiantaeth, a bu'r Arolygwyr yn yr Ysgol ym mis Gorffennaf 2024 – treuliwyd naw diwrnod ar y safle i gwrdd â dros 80 aelod staff a chyfweld 60 arall dros gyfnod yr adolygiad.

Mae'r Panel Adolygu wedi canolbwyntio ar faterion allweddol megis ymddygiad y troseddwr ac ymddygiad proffesiynol. Mae trefniadau llywodraethu a rheoli datgeliadau hefyd wedi ei gynnwys yng nghwmpas yr adolygiad.

Roedd yr asiantaethau canlynol yn rhan o'r Adolygiad

- Cyngor Gwynedd
- Cyngor Ynys Môn
- Cyngor Conwy
- Heddlu Gogledd Cymru
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Gwasanaeth Prawf Gogledd Cymru
- Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Gogledd Cymru

Bu i'r holl dystiolaeth sydd ym mherchnogaeth pob asiantaeth ei gasglu ynghyd a'i gyflwyno i'r Ymchwilwyr i greu un linell amser fanwl o'r holl ddigwyddiadau perthnasol.

Mewn ymateb i'r sefyllfa a oedd yn datblygu bu i ni ddefnyddio ymgynghorydd allanol i adnabod achosion plant a staff a oedd yn gysylltiedig â Ysgol Friars a llunio cronoleg cychwynnol gyda'r bwriad i adnabod unrhyw fater a oedd angen sylw brys. Cyflwynwyd y wybodaeth yma yn ei gyfanrwydd i'r CPR.

Adolygwyd y Cylch Gorchwyl yn rheolaidd gan y Panel Adolygiad Ymarfer Plant, er mwyn adlewyrchu unrhyw bryderon newydd yr oedd yr adolygiad yn eu canfod. Cyhoeddwyd y cylch gorchwyl terfynol ar wefan y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol (Terms-of-reference-extended-child-practice-review-21.05.25.pdf).

Yr oedd Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru yn darparu diweddariadau rheolaidd i Uned Diogelu ac Eiriolaeth Llywodraeth Cymru ynglŷn â chynnydd yr adolygiad, a cyhoeddwyd yr adolygiad yn Nhachwedd 2025.

Bu i'r Cyngor hefyd gyfarfod Cadeirydd y Panel yn rheolaidd i dderbyn diweddariadau am y broses ganddi drwy gydol cyfnod yr adolygiad ac mae rhannu gwybodaeth y ddwy ffordd wedi digwydd yn rheolaidd ac effeithiol.

## Cyhoeddi'r Adolygiad Ymarfer Plant – 'Cyfiawnder trwy ein Dewrder'

Ar y 4ydd o Dachwedd 2025, ddwy flynedd ar ôl arestio y troseddwr a ddeunaw mis ar ôl ei ddedfrydu a chychwyn yr Adolygiad, cyhoeddwyd adroddiad Adolygiad Ymarfer Plant 'Cyfiawnder Trwy ein Dewrder'. Mae'r adroddiad yn feirniadol iawn o sawl sefydliad, yn arbennig y Cyngor hwn ag Ysgol Friars. Mae'r Adolygiad wedi canfod nifer sylweddol o gyfleon a gollwyd ac roedd yn codi nifer o gwestiynau am addasrwydd penderfyniadau ar hyd y blynyddoedd. Mae'r adroddiad yn cynnig nifer o argymhellion, ar lefel lleol a rhanbarthol, ond hefyd ar lefel genedlaethol. Mae'r adroddiad yn arbennig o feirniadol nad yw argymhellion o adolygiad Clywch (2004) wedi cael eu gweithredu'n genedlaethol a bod nifer fawr o'r argymhellion hynny'n gorfod cael eu hailadrodd yn adroddiad y CPR hwn.

Rhannwyd ddatganiad ar ran y Cyngor yn gyhoeddus ar brynhawn y cyhoeddi:

> *"Mae'r cyfrifoldeb am nifer o'r methiannau sy'n cael eu rhestru yn yr adroddiad hwn yn gorwedd gyda Chyngor Gwynedd, ac rydym yn ymddiheuro'n gwbl ddidwyll am hynny.*
>
> *Er mor boenus ydi'r adroddiad i'w ddarllen, rydan ni'n ei groesawu, yn derbyn yr holl gasgliadau ac argymhellion ac yn rhoi addewid y byddwn yn parhau i roi ein holl egni i ymateb fel y byddai pobl Gwynedd yn ei ddisgwyl ohonom.*
>
> *Ddwy flynedd a rôl yr arestio, mae hefyd yn rhyddhad i allu trafod y mater hwn yn agored. Heddiw, wrth i ni weld holl ddarnau'r hanes torcalonnus hwn ynghyd am y tro cyntaf, mae'n* ***rhaid*** *i ni gofio'n bennaf am y rhai a ddioddefodd, ac a oroesodd. Plant a ddylai fod wedi bod yn ddiogel yn eu hysgol ond a gafodd eu bradychu. Rydym unwaith eto yn talu teyrnged, ac yn datgan ein hedmygedd, o'ch dewrder chi am sefyll yn erbyn bwli a phedoffeil.*
>
> *Rydym yn ymddiheuro eto o waelod calon i bob un ohonoch chi. Ddylech chi ddim fod wedi gorfod dioddef wrth law dyn yr oedd gennych hawl i ymddiried ynddo. Mae eich cryfder chi yn ein gyrru i ni i sicrhau gwelliant.*

*Mae'r adroddiad yn adnabod bod cyfleon wedi eu colli ar lawer gormod o achlysuron, a bod ein hymateb ni – fel un o'r sefydliadau ddylai fod wedi gweithredu i rhwystro troseddwr – wedi methu. Roedd ganddo ni yma, Bennaeth ysgol a ddylai fod wedi rhoi lles a diogelwch plant ar frig ei flaenoriaethau, ond fe droseddodd yn ddifrifol yn eu herbyn.*

*Dyma ddyn oedd wedi portreadu ei hun fel addysgwr cyfrifol ar lefel lleol a chenedlaethol, o fewn yr undebau a'r cyfryngau. Ond fe dwyllodd nifer o staff ei ysgol, y Cyngor a sefydliadau eraill, disgyblion a rhieni oedd wedi ymddiried ynddo.*

*Mae'r adolygiad hwn yn rhoi'r ddealltwriaeth gliriaf bosibl i ni o'r hyn a aeth o'i le, a sut mae'n rhaid i ni ei gywiro. Mae cyhoeddi'r adroddiad yn arf holl bwysig wrth fynd ati i wella.*

*Mae'r Athro Sally Holland, cyn-Gomisiynydd Plant Cymru yn cadeirio Bwrdd Ymateb y Cyngor ac mae wedi adrodd ein bod ni eisoes wedi gwneud cynnydd wrth weithredu nifer o welliannau. Ond mae gwaith mawr eto o'n blaen, a bydd yr Athro Holland a phob sefydliad arall sydd ar ein Bwrdd, yn parhau i'n herio ni'n dryloyw.*

*Mae'n rhy hwyr i ddadwneud y boen sydd wedi ei achosi, ond mae cyfrifoldeb ar nifer ohonom i weithredu i wella'n lleol. Ond mae angen gweithredu ar lefel cenedlaethol hefyd.*

*Mae cynifer o argymhellion o sawl ymchwiliad mawr drwy'r wlad wedi eu gwneud dros y blynyddoedd, ond dydyn nhw ddim wedi arwain at newid.*

*Gobeithio bydd pawb yn gweld casgliadau'r adroddiad hwn fel yr eiliad i drawsnewid gweithdrefnau diogelu plant drwy Gymru, ac i geisio sicrhau fod pob plentyn yn ddiogel – lle bynnag maen nhw'n byw, a pha bynnag ysgol mae nhw'n fynychu.*

*Mae ein diolch i Jan Pickles a'i thîm, am eu gwaith di-flino dros gyfnod o ddeuddeg mis. Maen nhw wedi llwyddo i fynd ymhell y tu hwnt i'r hyn a welir mewn adolygiadau arferol.*

*Wrth gloi, dwi ddim am ymddiheuro am fynd yn ôl at y bobl bwysicaf – y plant a ddylai fod wedi bod yn ddiogel yn eu hysgol. Holl bwrpas yr adroddiad hwn yw sicrhau bod unigolion a sefydliadau cyhoeddus yn gwneud popeth posib i geisio sicrhau na fydd* ***unrhywun*** *yn dioddef yn yr un modd fyth eto.*

*Mewn sefyllfaoedd lle mae sefydliad dan y chwyddwydr, mae tuedd weithiau i fod yn amddiffynnol. Dwi'n addo heddiw* ***na fydd*** *Cyngor Gwynedd yn gwneud hynny.*
*Fyddwn ni ddim yn cuddio o'n cyfrifoldeb i wneud popeth sydd ei angen i ddiogelu plant heddiw ac i'r dyfodol."*

Yn dilyn cyhoeddi Cyfiawnder Trwy ein Dewrder, adolygwyd y cynllun hwn i sicrhau ein bod yn ymateb yn briodol i'r argymhellion a nodwyd. Roedd y bwriad i adolygu'r Cynllun yn dilyn cyhoeddi'r CPR wedi ei ddatgan yn glir o'r chychwyn.

## 4. Amcanion y Cynllun Ymateb hwn

Mae saith prif amcan wedi eu hadnabod ar gyfer y Cynllun hwn. Ychwanegwyd yr amcan olaf gan y Bwrdd Ymateb yn ei gyfarfod cyntaf.

Rydym yn ymrwymo y byddwn yn:

1. **Cydnabod** yn agored a chyhoeddus na ddylai y fath droseddau fyth fod wedi digwydd ac na ddylai yr un plentyn oddef y fath brofiadau.

2. **Ymddiheuro** yn ddidwyll i'r dioddefwyr a goroeswyr a'u teuluoedd am yr hyn y maent wedi gorfod ei ddioddef.

3. **Cefnogi** y dioddefwyr a goroeswyr, yr ysgol a'r gymuned ehangach i geisio adfer eu sefyllfa.

4. **Sefydlu** holl ffeithiau yr achos, yr hanes o amgylch y sefyllfa a'r cyd-destun ehangach.

5. **Dysgu** yr holl wersi a gaiff eu hadnabod fel rhan o gasgliadau ac argymhellion pob ymchwiliad.

6. **Gwella** drwy ymateb yn gyflawn a chyflym i bob casgliad ac argymhelliad gyda'r nod o roi hyder i'r cyhoedd ein bod yn gwneud popeth posib i sicrhau na fydd neb yn dioddef yn yr un modd fyth eto.

7. **Atebol** drwy fod yn agored ac yn dryloyw am ein cynnydd gwelliant ac ymrwymo i fesur effaith y newidiadau rydym yn eu rhoi ar waith.

Wrth fynd ati i gyflawni'r uchod mae'n hanfodol ein bod yn ymagweddu'n agored a thryloyw bob amser. Yn hynny o beth mae'r Cynllun Cyfathrebu yn rhan 8 o'r Cynllun Ymateb hwn yn hanfodol bwysig er mwyn sicrhau ein bod yn rhannu gwybodaeth yn eglur, yn gyson ac yn amserol gyda'r holl rhanddeiliaid perthnasol.

## 5. Sut ydym yn bwriadu mynd ati i gyflawni ein amcanion?

Er mwyn cyflawni ein hamcanion yn llawn, buom yn canolbwyntio ar bedair prif ffrwd waith fel y dangosir isod. Dim ond drwy weithredu yn drwyadl, cyflawn ac amserol i gyflawni holl amcanion y Cynllun Ymateb hwn y gallwn fod yn dawel ein meddyliau ein bod wedi gwneud popeth posib i sicrhau adferiad.

| | | |
|---|---|---|
| **Ffrwd waith A** | Cefnogi'r dioddefwyr a goroeswyr | Gwneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi'r dioddefwyr a goroeswyr. Sefydlu perthynas â ofalgar gyda'r dioddefwyr a goroeswyr. |
| **Ffrwd waith B** | Sicrhau fod gennym y trefniadau diogelu gorau posib heddiw fel bod gan y cyhoedd ymddiriedaeth a hyder ynddynt. | Sicrhau fod ein trefniadau diogelu yn gadarn ac o'r safon gorau posib |
| **Ffrwd waith C** | Ymchwilio i'r hyn sydd wedi digwydd, dysgu a gwella | Gwneud popeth posib i sicrhau ein bod yn llawn ddeall popeth sydd wedi digwydd ac wedi adnabod unrhyw wendidau. Cofleidio a gweithredu argymhellion er mwyn dysgu a gwella. |
| **Ffrwd waith Ch** | Cefnogi a sefydlogi Ysgol Friars | Sicrhau fod y safonau addysg presennol yn parhau i gael eu cynnal, fod staff yn hyderus a bod arweinyddiaeth Chorff Llywodraethu yr ysgol yn sefydlog ac effeithiol. |

Mae llawer o'r tasgau cychwynnol wedi eu cwblhau ers cyhoeddi'r cynllun gwreiddiol yn Rhagfyr 2024. Felly, yn dilyn cyhoeddi Cyfiawnder Trwy ein Dewrder, adolygwyd y ffrydiau gwaith hyn i sicrhau fod argymhellion yr adroddiad yn ran o'r Cynllun Ymateb. Rydym wedi ail becynnu y ffrydiau gwaith hyn i gyd-fynd â themâu yr adroddiad, fel a ganlyn:

| | **Thema** | **Disgrifiad** |
|---|---|---|
| Ffrwd Gwaith 1 | Llais y Plentyn a Chefnogi Dioddefwyr | Gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau fod llais y plentyn yn ganolog mewn materion yn ymwneud â phlant, a hynny wedi gwreiddio drwy'n holl weithgareddau.<br>Gwneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi'r dioddefwyr a goroeswyr a sefydlu perthynas ofalgar gyda hwy. |

| | | |
|---|---|---|
| Ffrwd Gwaith 2 | Rheoli honiadau a phryderon am oedolion sy'n gweithio gyda phlant | Sicrhau fod ein trefniadau diogelu yn gadarn ac o'r safon gorau posib |
| Ffrwd Gwaith 3 | Hyfforddiant a Pholisïau | Sicrhau fod pecynnau hyfforddiant yn briodol a bod staff wedi derbyn hyfforddiant addas i'w swyddogaeth.<br><br>Gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau fod ysgolion y sir yn mabwysiadu a gweithredu polisïau |
| Ffrwd Gwaith 4 | Llywodraethiant Ysgolion | Rhoi'r gefnogaeth gorau posib i Lywodraethwyr ein hysgolion i'w harfogi i arddel eu rolau. |
| Ffrwd Gwaith 5 | Grym Rhesymol | Gwneud popeth posib i sicrhau fod holl ysgolion wedi yn gweithredu arferion defnydd o grym rhesymol yn briodol |
| Ffrwd Gwaith 6 | Cynllunio Argyfwng ac Ymateb i Argyfwng Diogelu | Sicrhau fod trefniadau cynllunio ac ymateb i argyfwng priodol a bod holl staff yn gwybod sut i ymateb mewn sefyllfa o argyfwng diogelu |
| Ffrwd Gwaith 7 | Cefnogi a Sefydlogi Ysgol Friars | Sicrhau fod y safonau addysg presennol yn parhau i gael eu cynnal, fod staff yn hyderus a bod arweinyddiaeth Chorff Llywodraethu yr ysgol yn sefydlog ac effeithiol. |

Nes ymlaen yn y Cynllun hwn byddwn yn esbonio'r drefn llywodraethiant ar gyfer monitro ein cynnydd a sicrhau ein bod yn gweithredu'n amserol. Rhaid cydnabod yn glir ac agored fod gennym daith hir a heriol o'n blaen i gyrraedd y sefyllfa lle byddwn yn fodlon ein bod wedi gweithredu yn gyflawn a phriodol.

## Ffrwd waith 1 – Llais y Plentyn a Chefnogi'r dioddefwyr a goroeswyr

### Beth sydd wedi ei gyflawni hyd yn hyn?

#### 1.1 - Cefnogaeth uniongyrchol

Yn dilyn y datgeliad cyntaf ar y 6ed o Fedi 2023, rhoddwyd cymorth i ddioddefwyr a goroeswyr y troseddwr er mwyn cyfarch eu hanghenion uniongyrchol a rhoi gobaith iddynt ar gyfer y camau nesa. Darparwyd mynediad cyflym at swyddogion cymorth a chwnselwyr arbenigol, gyda Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr a goroeswyr (Victim Liason Officers) yr Heddlu yn arwain o'r diwrnod cyntaf.

Bu i swyddogion cyswllt dioddefwyr a goroeswyr yr Heddlu eistedd ar yr Adolygiad Ymarfer Plant, (CPR) gan sicrhau bod lleisiau'r dioddefwyr a goroeswyr yn rhan greiddiol o unrhyw drafodaeth.

Mae'r gefnogaeth yn barhaus gyda'r gwaith hwn yn cael ei fonitro'n gyson gan grŵp partneriaeth rhanbarthol sy'n rhedeg Cynllun Cyswllt â Dioddefwyr Cymru lle mae'r Cyngor yn chwarae rhan allweddol. Mae'r drefn yn un genedlaethol gydnabyddedig. Mae eraill a effeithir gan hyn oll wedi cael cynnig cefnogaeth yn ogystal.

Yn naturiol, mae'r gefnogaeth yma'n digwydd yn dawel yn y cefndir ac wedi ei deilwra yn benodol ar gyfer anghenion cefnogaeth y dioddefwyr a goroeswyr unigol.

#### 1.2 – Cefnogaeth ehangach yn yr ysgol

Ehangwyd gwasanaethau cwnsela yn yr ysgol trwy gydweithio â sefydliadau fel Canolfan Gymorth Trais a Cham-drin Rhywiol(RASASC) Gogledd Cymru, gan sicrhau cefnogaeth arbenigol i ddioddefwyr a goroeswyr a disgyblion eraill a allai fod wedi'u heffeithio. Cynhelir adolygiadau rheolaidd i sicrhau bod y cymorth yn parhau'n addas ac yn effeithiol. Yn ffodus, bu i Ysgol Friars gydweithio â chwmni lleol i greu canolfan llesiant ar y safle yn 2023, ynghyd â staff cymwys, sydd wedi bod o fendith fel gofod pwrpasol ar gyfer adferiad a chefnogaeth emosiynol.

Byddwn yn parhau i adolygu'r cymorth yn rheolaidd ac mae'r gefnogaeth ar gael i ddioddefwyr a goroeswyr, disgyblion a staff. Yn ogystal, rydym yn sicrhau bod mwy o gefnogaeth ar gael ar adegau allweddol – er enghraifft, pan fo sylw cyhoeddus neu stori yn torri yn y wasg sy'n cael effaith ar unigolion, gan gynnwys dioddefwyr a chymuned yr ysgol. Ein blaenoriaeth yw gwneud yn siŵr fod y gefnogaeth briodol ar gael i bawb sydd ei angen, heb oedi.

#### 1.3 – Cydnabod ac Ymddiheuro

Rydym eisoes wedi cydnabod ac ymddiheuro'n gyhoeddus am yr hyn mae'r plant a phobl ifanc wedi ei ddioddef ac mae rhan 2 o'r Cynllun hwn yn ail-ddatgan hynny'n ffurfiol.

Fodd bynnag, datganiad cyhoeddus yn unig ydi hynny , a chyfrifoldeb a dymuniad y Cyngor oedd cynnig ymddiheuriad personol i bob un o'r dioddefwyr a goroeswyr. Gyda chymorth y Cynllun Cyswllt Dioddefwyr a chadeirydd y CPR, bu i ni sefydlu sut i gynnig yr ymddiheuriad personol hwnnw.

Mae angen cadw mewn cof fod pob un o'r dioddefwyr a goroeswyr wedi dioddef a'n dymuniad wrth gydnabod ac ymddiheuro oedd cynnig peth cymorth tuag at eu sefyllfa. Roedd yn hanfodol fod y gwaith yma yn cael ei arwain gan y dioddefwyr a goroeswyr. Bu i ni dderbyn cyngor ac arweiniad eraill sy'n fwy profiadol yn y maes hwn wrth fynd ati i wneud hyn gan fod yn llwyr wyliadwrus nad oeddem yn gwneud unrhyw beth na fyddai'n cael ei groesawu gan y genethod a merched ifanc.

Mae ymddiheuriadau personol gan Arweinydd a Phrif Weithredwr y Cyngor wedi eu gwneud yn y modd yr oedd pob dioddefwr a goroeswr am ei dderbyn.

### 1.4 – Cynllun Cefnogaeth personol

Ers mabwysiadu'r Cynllun ym mis Ionawr, rydym wedi gwneud cynnydd wrth weithredu dull personol o gefnogi dioddefwyr a goroeswyr. Mae trafodaethau unigol bellach wedi'u cynnal gyda'r mwyafrif ohonynt i sefydlu eu anghenion penodol, gan gynnwys cefnogaeth emosiynol, mynediad at wasanaethau therapiwtig a chymorth ymarferol. Nid oedd pob un o'r dioddefwr yn dymuno derbyn y cynnig. Rydym wedi sefydlu proses ffurfiol i adolygu'r gefnogaeth yn rheolaidd, gan sicrhau hyblygrwydd i ymateb i anghenion sy'n newid dros amser. Yn ogystal, mae adnoddau ychwanegol wedi'u dyrannu i ddarparu cymorth arbenigol i blant a phobl ifanc sydd wedi profi trawma, gan weithio'n agos gyda'r Comisiynydd Plant a phartneriaid allanol i sicrhau bod y ddarpariaeth yn gynhwysfawr ac yn sensitif i'w profiadau. Byddwn yn parhau i flaenoriaethu lles y dioddefwyr drwy ddarparu pob cefnogaeth briodol i'w helpu i wynebu'r camau nesaf yn eu bywydau, gan adlewyrchu'r gwersi a ddysgwyd o'r adolygiad ac ymrwymo i wella'n barhaus.

## Beth arall sydd angen ei gyflawni er mwyn cwrdd â'n hamcanion?

### 1.5 - Llais y plentyn

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod llais y plentyn yn ganolog i'n hymateb ac i'n gweithgareddau dydd i ddydd. Yn dilyn argymhellion Cyfiawnder Trwy ein Dewrder, rydym wedi ymrwymo i fabwysiadu polisi clir sy'n sicrhau bod pob plentyn sy'n destun cyfeiriad rhan 5 yn cael cyfle i fynegi ei farn drwy sgwrs uniongyrchol â gweithiwr cymdeithasol. Mae'r gwaith hwn eisoes ar y gweill, gan gynnwys datblygu dulliau ymarferol i gryfhau cyfranogiad plant mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Byddwn hefyd yn parhau i adolygu ac ehangu ein hyfforddiant i staff er mwyn sicrhau bod egwyddorion llais y plentyn wedi'u gwreiddio ar draws pob gwasanaeth, gan adlewyrchu'r gwersi a ddysgwyd o'r adolygiad ac ymateb i'r disgwyliadau cenedlaethol

### 1.6 – Gwaith ehangach i sicrhau fod hawliau plant yn ganolog ac wedi gwreiddio yng ngweithgareddau'r Cyngor

Rydym wedi ail-fframio ein ffrydiau gwaith i adlewyrchu argymhellion Cyfiawnder Trwy ein Dewrder, gan roi blaenoriaeth i sicrhau fod hawliau plant, gan gynnwys llais y plentyn, yn ganolog i bob agwedd ar ein gweithgareddau. Mae hyn yn cynnwys datblygu un polisi corfforaethol "Llais y Plentyn" ar draws yr holl wasanaethau, gweithio gyda'r Comisiynydd Plant Cymru i fabwysiadu arferion gorau, a sefydlu grŵp tasg gyda'r Adran Addysg i adolygu ac uno trefniadau presennol. Yn ogystal, rydym yn cryfhau'r fforwm ieuenctid sirol i sicrhau cynrychiolaeth o grwpiau penodol megis pobl ifanc mewn gofal, plant Derwen, a gofalwyr ifanc. Bydd y gwaith hwn yn sicrhau bod barn a phrofiadau plant yn dylanwadu'n

uniongyrchol ar bolisi, strategaeth a phenderfyniadau, gan wreiddio egwyddorion hawliau'r plentyn yn ein diwylliant sefydliadol.

Yn ogystal, rydym yn gweithio tuag at sicrhau statws "Sir Plentyn Gyfeillgar", gan gydweithio â phartneriaid cenedlaethol i greu amgylchedd lle mae hawliau a llais plant yn cael eu parchu a'u hyrwyddo ym mhob maes.

1.7 –Adnabod a gweithredu ar ymddygiadau '*grooming*'

Ers mabwysiadu'r Cynllun gwreiddiol ym mis Ionawr, rydym wedi cryfhau ein hymateb i'r risgiau sy'n gysylltiedig â "grooming" drwy weithredu nifer o gamau pendant. Mae pecynnau hyfforddiant diwygiedig wedi'u rhannu gyda'r ysgolion, gan gynnwys canllawiau penodol ar ymddygiadau "grooming" a sut i'w hadnabod yn gynnar. Rydym wedi cysoni hyfforddiant diogelu ar draws lefelau addysg gwahanol er mwyn sicrhau dull cyson a chydlynol. Yn ogystal, mae rôl Hyrwyddwr Diogelu wedi'i sefydlu i gefnogi staff rheng-flaen a chynyddu ymwybyddiaeth o'r materion hyn.

Mae gwaith pellach ar y gweill i adolygu cynnwys y pecynnau hyfforddiant yn dilyn cyhoeddi Cyfiawnder Trwy ein Dewrder, gan gynnwys ychwanegu modiwlau ar gamdriniaeth rhywiol a dulliau adnabod ymddygiadau risg. Mae gwaith pellach i'w wneud a byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid cenedlaethol i sicrhau bod ein dulliau yn adlewyrchu'r safonau gorau ac yn rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch plant.

1.8 – Adrodd ar bryderon i unigolyn neu wasanaeth tu allan i'r ysgol

Gofynnir i holl ysgolion Gwynedd arddangos manylion unigolion dynodedig diogelu yr ysgol gan gynnwys aelod allanol o'r corff llywodraethu. Nid oedd hyn yn bodoli yn yr ysgol dan sylw ar adeg arestio y troseddwr ond mae hynny bellach wedi newid. Mae hyn yn un o'r materion mae'r Swyddogion Ansawdd Diogelu yn eu gwirio pan yn cynnal ymweliadau ansawdd ac felly'n cael ei fonitro yn gyson.

Ers cyhoeddi Cyfiawnder Trwy ein Dewrder, rydym wedi dechrau ymgynghori â disgyblion ar draws ysgolion Gwynedd i ganfod y dulliau mwyaf effeithiol o'u galluogi i gysylltu â pherson neu wasanaeth y tu allan i'r ysgol i rannu pryderon. Mae'r adborth hyd yma yn pwysleisio'r angen am opsiynau hygyrch, cyfrinachol ac amlwg. O ganlyniad, rydym wedi cytuno ar egwyddorion allweddol i arddangos manylion cyswllt gwasanaethau diogelu a llinellau cymorth yn amlwg ym mhob ysgol, gan gynnwys ar wefannau a mannau cyhoeddus; i ddarparu hyfforddiant i staff er mwyn egluro'r llwybrau cyfeirio; a datblygu dull digidol diogel i alluogi disgyblion i godi pryderon yn uniongyrchol. Bydd y gwaith ymgynghori yn parhau i sicrhau bod y trefniadau hyn yn adlewyrchu anghenion disgyblion ac yn rhoi blaenoriaeth i'w llais.

1.9 – Cyngor Trawma Wybodus

Mae Cyngor Gwynedd wedi ymrwymo i ddod yn Gyngor Trawma Wybodus er mwyn sicrhau bod ein gwasanaethau'n ymateb yn sensitif i effaith trawma ar unigolion. Mae hyn yn golygu adeiladu diwylliant sy'n cydnabod ac yn ymateb i arwyddion trawma, gan osgoi ail-drawma a hyrwyddo lles. Rydym eisoes wedi dechrau ar y daith hon drwy ddarparu hyfforddiant "Trawma Ymwybodol" i dros 1,000 o staff ysgolion, ac mae bron i hanner ysgolion Gwynedd wedi hyfforddi aelodau staff i lefel diploma mewn ysgolion a chymunedau sy'n wybodus am drawma ac iechyd meddwl. Yn ogystal, rydym yn datblygu asesiad gwaelodlin ar draws adrannau'r Cyngor i nodi bylchau a blaenoriaethau, gan weithio gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i sicrhau dull cydlynol. Bydd y gwaith hwn yn gosod sylfaen ar gyfer polisïau a gweithdrefnau sy'n rhoi blaenoriaeth i gefnogaeth sensitif, gan

adlewyrchu'r risgiau uwch ymysg plant mewn gofal a sicrhau bod ein gweithlu yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth i ymateb yn briodol.

## Ffrwd waith 2 - Rheoli honiadau a phryderon am oedolion sy'n gweithio gyda phlant

### Beth sydd wedi ei gyflawni hyd yn hyn?

2.1 – Trefniadau Diogelu Corfforaethol

Adolygwyd y Polisi Diogelu yn ystod ail hanner 2023, cafodd ei fabwysiadu gan y Cabinet yn Chwefror 2024 a chyflwynwyd y fersiwn newydd i'r Cyngor Llawn ym mis Mawrth 2024. Polisi Diogelu

Canolbwyntia gweithdrefnau Diogelu Corfforaethol Cyngor Gwynedd ar sicrhau diogelwch a lles plant ac oedolion sydd mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso. Mae cyfrifoldeb ar holl weithwyr, aelodau etholedig, a phartneriaid y Cyngor i greu amgylchedd lle mae diogelu'n cael ei flaenoriaethu a lle mae cam-drin yn llai tebygol o ddigwydd.

Mae holl adrannau'r Cyngor yn cael y dasg o weithredu mesurau diogelu fel rhan o'u gweithrediadau dydd i ddydd, tra mae gan y Gwasanaethau Cymdeithasol rôl arweiniol a phenodol wrth fynd i'r afael ag achosion lle mae unigolion mewn perygl eisoes. Ar lefel gorfforaethol, mae'r Cyngor yn sicrhau bod staff ac Aelodau wedi'u hyfforddi'n drylwyr, yn darparu llwybrau clir ar gyfer adrodd am bryderon, ac yn defnyddio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) i sicrhau arferion recriwtio mwy diogel.

Cydlynir ymdrechion diogelu corfforaethol trwy'r Panel Strategol Diogelu a'r Grŵp Diogelu Gweithredol, sy'n goruchwylio ac yn monitro perfformiad, polisïau, a chydymffurfiaeth adrannol. Cyfrifoldeb y Panel yw adolygu a diweddaru'r Polisi Diogelu yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n effeithiol ac yn ymatebol i unrhyw newidiadau deddfwriaethol neu weithdrefnol, gan atgyfnerthu ymrwymiad y Cyngor i ddiogelu'r rhai sy'n agored i niwed yn y gymuned.

**2.2 – Trefniadau Diogelu Ysgolion**

Ers arestio y troseddwr, mae Polisi Diogelu Ysgolion a phecyn hyfforddiant ar gyfer ysgolion wedi eu diweddaru.

Ers Ebrill 2023 mae Swyddog Arweiniol Diogelu yr Adan Addysg wedi cynnal ymweliadau Monitro Trefniadau Diogelu ym mhob ysgol yng Ngwynedd.

Mae'r ymweliadau yma yn cynnwys:

- Gwirio polisïau Diogelu
- Gwirio dyddiadau a lefelau hyfforddiant
- Gwirio trefniadau ymarferol Diogelu
- Holi'r Person Dynodedig Diogelu, aelodau o staff a disgyblion am lefel hyder a gwybodaeth yn ymwneud â diogelu
- Gwirio cynnwys Awdit Blynyddol Trefniadau Diogelu'r ysgol
- Cynnig cefnogaeth / arweiniad cyffredinol.

Mae gan pob ysgol yng Ngwynedd Berson Diogelu Dynodedig (Designated Safeguarding Person neu DSP), sy'n chwarae rhan ganolog mewn sicrhau diogelu ac amddiffyn plant effeithiol. Uwch aelod o staff yw'r person dynodedig a ganddo ef / hi mae'r awdurdod ac arbenigedd mewn materion diogelu a'r cyfrifoldeb dros gydlynu polisïau a gweithdrefnau amddiffyn plant yr ysgol.

Gweithreda'r unigolyn yma fel y prif bwynt cyswllt ar gyfer yr holl bryderon diogelu, gan ddarparu cyngor, arweiniad a chefnogaeth i staff. Tasg y person dynodedig yw cadw cofnodion diogel o bryderon diogelu, sicrhau cyfeiriadau amserol i awdurdodau priodol a hyfforddi staff yr ysgol gan sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldebau diogelu. Mae eu rôl yn ganolog i feithrin amgylchedd diogel a chefnogol i bob disgybl.

Mae'r person dynodedig yn gweithio'n agos gyda Swyddog Arweiniol Diogelu yr Adan Addysg, sy'n darparu cyngor arbenigol, cefnogaeth, a throsolwg i sicrhau gweithrediad effeithiol polisïau diogelu ac amddiffyn plant ar draws holl ysgolion y sir.

Mae pob ysgol yn derbyn polisi enghreifftiol gan yr Awdurdod Addysg ac anogir pob ysgol i wneud man addasiadau (e.e. addasu enw'r ysgol, a pherson dynodedig diogelu i'w berthnasu i'r ysgol) a mabwysiadu y polisi hwn, sydd wedi ei lunio yn unol â gofynion chanllawiau a safonau chydnabyddedig. Cyfrifoldeb y llywodraethwyr yw sicrhau bod polisïau diogelu effeithiol wedi eu mabwysiadu ac yn cael eu hadolygu o leiaf unwaith y flwyddyn a rhoddir cefnogaeth barhaus iddynt gyflawni hynny. Rhaid i lywodraethwyr weithio gydag arweinwyr yr ysgol i greu amgylchedd diogel, monitro cydymffurfiaeth â chyfreithiau diogelu, a mynd i'r afael ag unrhyw wendidau neu ddiffygion mewn arferion diogelu yn brydlon.

Roedd yr Awdurdod Addysg eisoes yn cynnal arolygiad Diogelu ym mhob ysgol pob dwy flynedd, sydd tu hwnt i ofynion cyfredol, ond erbyn hyn rydym wedi cynyddu capasiti yn y maes ac yn cynnal arolygiad yn ein hysgolion ar gylch blwyddyn. Er nad oes unrhyw ofynion ffurfiol i ni fod yn cynnal rhaglen o'r fath, credwn ei bod yn hynod bwysig ac fe ymhelaethir ar yn 2.6 isod.

### 2.3 – Archwiliad Estyn o Adran Addysg y Cyngor

Bu i Estyn gynnal arolwg o Adran Addysg Gwynedd ym mis Mehefin 2023 ac yn ran o unrhyw arolygiad awdurdod addysg, mae'r arolygwyr yn dilyn y broses ganlynol:

> *"Ym mhob arolygiad, rhaid i arolygwyr adrodd ar b'un a yw trefniadau diogelu'r awdurdod lleol neu ddarparwr arall gwasanaethau addysg yn bodloni'r gofynion ac nad ydynt yn peri pryder neu'n peidio â bodloni'r gofynion ac yn peri pryder difrifol.*
>
> *"Bydd arolygwyr yn ystyried i ba raddau y ceir diwylliant o ddiogelu ar draws gwasanaethau addysg sy'n cefnogi lles yr holl ddysgwyr. Hefyd, bydd arolygwyr yn ystyried pa mor dda y mae'r awdurdod lleol neu ddarparwr arall gwasanaethau addysg yn hyrwyddo diwylliant o ddiogelu mewn ysgolion, UCDau a darparwyr eraill sy'n cefnogi lles pob dysgwr.*
>
> *"Bydd arolygwyr yn asesu cadernid gweithdrefnau ar gyfer gwirio addasrwydd staff a phobl eraill sydd mewn cysylltiad â phlant, gan gynnwys cynnal a chadw cofnod o'r holl staff sy'n gweithio gyda phlant a chanlyniadau gwiriadau recriwtio diogel. Bydd arolygwyr yn adolygu'r gweithdrefnau ar gyfer hyfforddi staff ac yn gwirio bod yr holl staff yn gwybod sut i ymateb i faterion amddiffyn plant.*
>
> *"Mewn arolygiadau o awdurdodau lleol, bydd arolygwyr yn gwerthuso pa mor dda y mae'r awdurdod yn cyflawni ei gyfrifoldebau statudol o ran diogelu. Yn benodol, byddant yn gwerthuso p'un a oes gan yr awdurdod drefniadau diogelu effeithiol ar waith, gan gynnwys:*

- *cynllunio strategol ar gyfer, a goruchwylio, diogelu mewn addysg, gan gynnwys adrodd yn rheolaidd i aelodau*

- *cymorth ac arweiniad priodol ar gyfer yr holl ddarparwyr gwasanaethau addysg yn ei ardal, gan gynnwys y blynyddoedd cynnar, chwarae a gwasanaethau cymorth ieuenctid*
- *mynd ar drywydd pryderon a nodwyd yn ystod arolygiadau o ddarparwyr y mae'n gyfrifol amdanynt*
- *arfer ddiogelu briodol yn ei wasanaethau addysg uniongyrchol, fel addysg heblaw yn yr ysgol, UCDau a'r gwasanaeth ieuenctid*
- *bod trefniadau priodol ar waith i sicrhau bod yr holl waith partneriaeth sy'n cael ei wneud, ei gydlynu neu ei ariannu gan yr awdurdod lleol yn cadw at safonau diogelu uchel*
- *bod polisïau, gweithdrefnau a threfniadau adrodd priodol yn gysylltiedig ag ymyriadau corfforol a thynnu allan o wersi*
- *mynd ar drywydd pryderon a godwyd gan randdeiliaid, gan gynnwys rhieni a gofalwyr, staff a disgyblion darparwyr y mae'n gyfrifol amdanynt"*

Derbyniwyd eu casgliadau ar drefniadau diogelu yr Awdurdod:

> *"Mae'r pennaeth addysg a'i uwch dim rheolaethol yn ymgymryd â'u rôl statudol i amddiffyn a diogelu plant yn rymus ac effeithiol ac mae arweinwyr perthnasol ar bob lefel yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau. Ceir trefn gadarn i gyfarfodydd a fforymau strategol a gweithredol sy'n ymwneud â materion diogelu. Mae cynrychiolaeth y gwasanaethau addysg yn y prosesau hyn ac fel rhan o'r Panel Rhiantu Corfforaethol yn gyson a dylanwadol. Mae arweinwyr ar bob lefel wedi datblygu cyd-ddealltwriaeth gyda swyddogion cyfatebol yn y gwasanaethau plant. O ganlyniad, maent yn cydweithio'n ddeallus a chynhyrchiol er budd plant yr awdurdod.*
>
> *"Mae'r polisi diogelu corfforaethol yn briodol ac mae'r adran Gwasanaethau Addysg yn darparu polisi diogelu safonol buddiol ar gyfer ysgolion ynghyd a nifer fawr o bolisïau a chanllawiau perthnasol eraill. Rhoddir arweiniad clir a chefnogaeth werthfawr a buddiol i benaethiaid ac i bersonau dynodedig ysgolion gan swyddogion perthnasol megis y swyddog dynodedig ar gyfer diogelu mewn addysg. Mae trefniadau hyfforddiant i staff ysgolion ar bob lefel, gan gynnwys i lywodraethwyr, yn gadarn. Mae penaethiaid ysgolion yn croesawu datblygiadau diweddar lle mae'r swyddog dynodedig yn ymweld i wirio ansawdd a herio trefniadau diogelu eu hysgolion. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar gryfhau y diwylliant o ddiogelu ar draws ysgolion Gwynedd.*
>
> *"Mae ansawdd gweithredu Rhan 5 o Weithdrefnau Diogelu Cymru, pan mae honiadau yn erbyn staff proffesiynol, yn hynod gadarn ac yn drylwyr iawn. Mae'r gefnogaeth a'r her a roddir i ysgolion gan adrannau eraill o'r awdurdod ar faterion diogelu a iechyd a diogelwch yn werthfawr ac effeithiol. Mae hyn yn cynnwys arweiniad clir gan yr adrannau eiddo a phersonél ar faterion penodol ac asesiadau risg. Fodd bynnag nid yw'r awdurdod wedi ystyried risg yn ddigon gofalus ar gyfer yr hybiau cynhwysiad. Mae trefniadau recriwtio diogel yn gadarn a chyson."*

Yn ychwanegol i hynny, yn dilyn arestio y troseddwr, mae cyswllt rheolaidd wedi bod gyda'r corff rheoleiddio a chynhaliwyd cyfarfod gyda hwy ym mis Rhagfyr 2023. Yn dilyn y cyfarfod , derbyniwyd y sylwadau canlynol gan yr arolygwr :

> *"Gwerthfawrogwn y manylder y bu i chwi drafod gyda ni, gan gynnwys y camau a gymerwyd i sicrhau lles a diogelwch disgyblion a staff a threfniadau arweinyddiaeth a llywodraethu dros dro. Mae'n amlwg eich bod wedi ymateb yn ddiymdroi i'r mater dyrys yma. Gwyddwn bod eich ymateb yn cynnwys camau brys dros y tymor byr, camau cynhwysfawr dros y tymor canolig a chamau mwy strategol gyda'r bwriad o gynnig sefydlogrwydd tymor hir."*

Yn dilyn cyhoeddi Cyfiawnder Trwy ein Dewrder rhoddwyd gwahoddiad i Estyn ail ymweld gyda'r Cyngor, y tro hwn i edrych ar drefniadau diogelu yn unig. Roedd Estyn ac Arolygaeth Gofal Cymru (CIW) hefyd yn awyddus i gynnal arolygiad yn y maes hwn, ac roeddem yn falch pan y bu i'r ddau gorff benderfynu cynnal archwiliad manwl Diogelu ar y cyd yn Nhachwedd eleni. Roedd hwn yn archwiliad hynod o fanwl a thrwyadl gan arbenigwyr cenedlaethol yn y maes Diogelu gan y ddau sefydliad. Rydym yn disgwyl cyhoeddi eu hadroddiad yn gynnar yn 2026.

### 2.4 – Adolygiadau Estyn mewn Ysgolion penodol

Yn unol â'r trefniadau Arolygu Cenedlaethol gan Estyn, mae pob ysgol yn derbyn archwiliad llawn ar raglen gylchol oddeutu 5 mlynedd. Dros gyfnod COVID-19 bu'n rhaid atal y drefn hon ar draws y wlad. Ers ail gychwyn y drefn, mae 51 o Ysgolion Gwynedd wedi derbyn Archwiliad llawn sy'n cynnwys edrych ar y trefniadau Diogelu gan ddilyn proses gyffelyb i'r un a amlinellir uchod.

Bu i bob un o'r ysgolion hyn gyrraedd y safonau diogelu disgwyliedig.

### 2.5– Ymchwiliad i ddigwyddiadau yn 2019 sydd wedi bod yn destun sylw gan y wasg

Yn ystod yr achos llys bu cyfeiriad at ddigwyddiadau penodol yn 2019. Cafodd y digwyddiadau hyn wedi cael cryn sylw yn y wasg hefyd. Fel sydd eisoes wedi ei nodi, bu i amserlen a chylch gorchwyl y CPR gael ei ymestyn cryn dipyn ers i Jan Pickles ddod i gyfarfod gyda Aelodau'r Cyngor cyn haf 2024. Yn sgil hynny, ac yn wyneb diddordeb cyhoeddus yn y materion penodol hyn, bu i'r Cyngor wedi gomisiynu Ymchwiliad Annibynnol i'r materion penodol hyn er mwyn gallu dod i gasgliadau yn gynt nag amserlen y CPR.

Mae'r gwaith hwn eisoes wedi ei gynnal gan Genevieve Woods, sy'n fargyfreithiwr yn Raymond Buildings, Llundain. Mae hi'n arbenigo mewn ymchwiliadau o'r fath ac wedi cydweithio gyda Jan Pickles yn y gorffennol ar faterion fel hyn. Mae ganddi arbenigedd a phrofiad helaeth o weithio ar faterion diogelu yn ogystal â gweithredu ymchwiliadau annibynnol.

Bu iddi gael ei chomisiynu i gynnal ymchwiliad cwbl annibynnol ac nid i gynrychioli y Cyngor.

Bwriad yr Ymchwiliad Annibynnol yw sefydlu holl gamau ffeithiol y digwyddiadau dan sylw, ystyried eu harwyddocâd a pherthnasedd, penderfynu a ddilynwyd gweithdrefnau cydnabyddedig, a weithredwyd yn briodol o dan yr amgylchiadau, a oedd camau pellach i'r Cyngor eu hystyried ac a oes gwersi i'w dysgu.

Cwblhawyd y gwaith a bu i gopi o'r adroddiad llawn gael ei ddarparu i'r CPR ac mae'r argymhellion a gyflwynwyd gan yr ymchwilydd wedi ei drosglwyddo i raglen waith y Bwrdd Ymateb.

## Beth arall sydd angen ei gyflawni er mwyn cwrdd â'n amcanion?

### 2.6 – Trefniadau Diogelu Ysgolion

Adeg llunio'r Cynllun hwn yn wreiddiol roedd ein hadnodd staffio presennol yn caniatáu i ni gynnal Ymweliadau Monitro Trefniadau Diogelu gan y Swyddog Diogelu Arweiniol ym mhob ysgol unigol bob yn ail flwyddyn. Nid ydym yn ymwybodol o Awdurdodau eraill sy'n gwneud hyn yn y modd yma, ond rydym yn credu fod yr ymweliadau hyn yn werthfawr, ac yn cynnig cefnogaeth i ysgolion unigol sicrhau fod eu trefniadau diogelu yn ddigonol ac i gynnig cefnogaeth gyffredinol iddynt yn y maes hanfodol hwn.

Daethpwyd i'r farn y byddai'n ychwanegu mwy o werth petai modd cynyddu amlder yr ymweliadau hyn a'u bod yn digwydd pob blwyddyn ym mhob ysgol. Rydym felly wedi buddsoddi i gynyddu'r adnodd staffio sydd gennym yn yr Adran Addysg er mwyn gallu cyflawni hyn a chryfhau ein strwythur cefnogol i ysgolion. Rydym wrthi'n buddsoddi yn y Tim Llesiant a Diogelu Addysg unwaith yn rhagor er mwyn gallu cynnig mwy fyth o gefnogaeth a her i ysgolion ar faterion Diogelu.

### 2.7 – Ymchwiliad Craffu i Drefniadau Diogelu Mewn Ysgolion

Mae gan ein trefniadau Craffu rôl hanfodol i'w chware fel rhan o drefniadau llywodraethiant ffurfiol y Cyngor ac o ystyried difrifoldeb y sefyllfa sy'n ein hwynebu mae'n gwbl briodol i ni fod yn gwneud gwaith craffu yn y maes hwn.

Ychwanegwyd yr eitem 'Trefniadau Diogelu mewn Ysgolion' fel eitem ychwanegol i raglen waith blynyddol y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar ôl y gweithdy blynyddol ar gais yr aelodau craffu a cafodd y mater ei graffu yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 18 Gorffennaf 2024. Yn dilyn hynny trafodwyd y posibilrwydd o gynnal Grŵp Tasg a Gorffen neu Ymchwiliad Craffu i'r maes. Daethpwyd i'r casgliad y dylid cynnal trafodaeth bellach ar 5 Medi 2024 lle mynegwyd dymuniad gan yr aelodau oedd yn bresennol i fod yn gwirio a chadarnhau fod trefniadau diogelu mor dynn a phosib o fewn ein ysgolion.

Bu i'r briff ar gyfer yr Ymchwiliad Craffu yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ym mis Chwefror 2025 – ( Briff - Ymchwiliad trefniadau diogelu mewn ysgolion.pdf.)

Y prif gwestiwn sy'n cael ei ystyried yw - *'A yw trefniadau diogelu yn ysgolion y sir yn briodol ac yn cael eu gweithredu'n gyson? '*

### 2.8 – Mewnbwn gan y Comisiynydd Plant

Yn dilyn trafodaethau rhwng y Comisiynydd Plant, swyddogion ac Aelodau Cabinet yng Ngorffennaf 2024 ac yn Nhachwedd 2024, ac yna cyfarfod pellach rhwng y Prif Weithredwr a'r Comisiynydd ar y 9fed o Ragfyr, gwahoddwyd y Comisiynydd i roi mewnbwn i'n Cynllun Ymateb ac i fod yn rhan o'r drefn i fonitro ein cynnydd ar y gwahanol ffrydiau gwaith.

Mae'r drafodaeth honno'n parhau ac yn drafodaeth gadarnhaol.

Rydym wedi datgan ein hawydd i gydweithio'n agored a chadarnhaol gyda'r Comisiynydd a'i swyddogion ac yn rydym yn gwerthfawrogi'r cyfleon i gael trafodaethau adeiladol gyda nhw a derbyn eu mewnbwn arbenigol a phrofiadol mewn meysydd fel hyn.

Erbyn hyn wrth gwrs mae Comisiynydd y Plant bellach yn sylwedydd ar ein Bwrdd Ymateb ac yn darparu her ac arweiniad gwerthfawr wrth i ni weithredu y Cynllun hwn.

### 2.9 Ymholiadau Adran 47 a Rhan 5 o'r Gweithdrefnau Diogelu Cymru

Mae Gweithdrefnau Diogelu Rhan 5 yng Nghymru yn cael eu hadolygu yn genedlaethol ar hyn o bryd. Argymhellir yn adroddiad Cyfiawnder Trwy ein Dewrder fod Llywodraeth Cymru yn sicrhau fod y gweithdrefnau newydd yn ei wneud yn ofynnol i lais y plentyn yn cael ei ystyried hyd yn oed os nad plentyn sydd wedi gwneud y datgeliad. Rydym eisoes yn gweithredu hyn a byddwn yn ei gynnwys yn y Polisi Llais y Plentyn sydd i'w fabwysiadu yn 2026.

Byddwn yn sicrhau fod awdurdodau lleol eraill yn mynychu cyfarfodydd ffurfiol Adran 47 a Rhan 5 os yn berthnasol i blentyn o'u hardal, a sicrhau presenoldeb Cadeirydd Llywodraethwyr neu lywodraethwr wedi ei ddirprwyo ar ei ran/ rhan pan fo'n ymwneud â disgybl neu aelod staff o ysgol.

Rydym hefyd wedi cyflwyno mesurau i sicrhau nad yw penderfyniadau ar gyfeiriadau yn disgyn ar unigolyn a byddwn hefyd yn peilota prosesau newydd ar gyfer cyfeiriadau yn ymwneud ag unigolion mewn safle ymddiriedaeth a'r cam cyntaf fydd ymestyn allan i asiantaethau eraill – Heddlu Gogledd Cymru yn benodol, i ystyried ymarferoldeb ac adnoddau sydd eu hangen i wneud hyn.

Argymhellir fod trefniadau aml-asiantaeth i drafod cyfeiriadau cyn dod i benderfyniad ar gyfer unigolion mewn rolau ymddiriedaeth. Mae'r argymhelliad yn ymwneud â hyn yn benodol i'r Llywodraeth a nes bydd newid cenedlaethol wedi ei wneud, bydd ein gwasanaethau Plant yn ei beilota ac mewn trafodaethau â'r asiantaethau eraill ar hyn o bryd.

Rydym eisoes wedi cyflwyno newidiadau i weithdrefnau trafodaethau Rhan 5 fel bod holl wybodaeth ar gofnodion plentyn yn cael ei adolygu wrth asesu eu risg a bregusrwydd.

Pan fo datgeliad neu bryderon am unigolion mewn "position of trust", rydym eisoes wedi cryfhau yr angen i asesu 'addasrwydd i weithio gyda phlant'.

### 2.10 - Pryderon lefel Isel

Mae angen cryfhau a safoni'r broses o adrodd ar bryderon lefel isel, sef pryderon nad ydynt yn cyrraedd trothwy diogelu neu amddiffyn plant, ar draws ein gwasanaethau. Mae canllawiau 'Keeping Children Safe in Education' yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion yn Lloegr ddatblygu a gweithredu Polisi Pryderon Lefel Isel ('Adult Conduct of Concerns Policy'). Un o argymhellion Adroddiad Cyfiawnder Trwy ein Dewrder yw y dylai Llywodraeth Cymru ystyried gwneud hynny'n ofynnol i ysgolion yng Nghymru hefyd.

Tra bod y mater hwn yn cael ei ystyried ar lefel genedlaethol, ac yn hytrach na disgwyl am newid, bydd y Cyngor yn datblygu system ganolog i sicrhau bod cofnodion yn cael eu cadw gan Adnoddau Dynol o unrhyw aelod o staff sydd wedi bod yn destun pryderon o dan Rhan 5. Bydd y pryderon hyn yn cael eu nodi'n glir ar gofnodion adnoddau dynol yr unigolyn, gyda mecanwaith fflagio priodol i sicrhau bod y pryderon yn cael eu hadnabod a'u hystyried. Gan fod rhai aelodau staff yn tueddu symud rhwng siroedd cyfagos, byddwn yn archwilio'r posibilrwydd o rannu'r wybodaeth hon gyda'r awdurdodau lleol hynny hyd nes y bydd canllawiau cenedlaethol ar waith.

Bydd cyfarwyddiadau clir yn cael eu datblygu i gyd-fynd â'r drefn hon, er mwyn sicrhau eglurder ynghylch cyfrifoldebau, rôl a'r trefniadau gweithredu.

### 2.11 - Dysgu o'r adroddiad Cyfiawnder Trwy ein Dewrder

Rydym wrthi yn creu fersiwn electroneg o'r ffurflen gyfeirio a fydd yn cael ei hyrwyddo. Rydym yn ceisio ei wneud yn hygyrch a hawdd i unrhyw un ei ffeindio yn ddirwystr. Rydym hefyd yn hyrwyddo diwylliant agored tra yn delio â chyfeiriadau ac yn fodlon derbyn gwybodaeth dros y ffon yn hytrach na aros am lenwi ffurflen cyn ymdrin â´r mater. Byddwn yn annog hyblygrwydd wrth drafod trothwyon.

### 2.12 - Cydweithredu / cyfathrebu

Byddwn yn gwella perthynas weithio a chyswllt y Cyngor yn ganolog gydag ysgolion, gan sicrhau gwell cyfathrebu a chydweithio rhwng gwasanaethau plant ac addysg yn ogystal. Mae'r Tim Diogelu a  Lles Addysg wedi bod yn gam sylweddol i'r cyfeiriad cywir yn hyn o beth.

## Ffrwd waith 3 – Hyfforddiant a Pholisïau

### Beth sydd wedi ei gyflawni hyd yn hyn?

#### 3.1 – Hyfforddiant a pholisïau Diogelu

Ers arestio'r troseddwr, mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud i gryfhau trefniadau diogelu. Mae'r Polisi Diogelu Corfforaethol wedi'i adolygu a'i ddiweddaru i adlewyrchu newidiadau deddfwriaethol a chanllawiau cenedlaethol, gan sicrhau bod egwyddorion diogelu yn cael eu gwreiddio ar draws pob adran. Yn ogystal, mae pecynnau hyfforddiant diwygiedig wedi'u darparu i holl staff, gan gynnwys modiwlau gorfodol ar amddiffyn plant, diogelu oedolion, camdriniaeth ddomestig ac atal caethwasiaeth fodern. Mae'r trefniadau hyn yn cael eu goruchwylio gan y Panel Strategol Diogelu a'r Grŵp Gweithredol, gan ddarparu sicrwydd bod safonau diogelu yn cael eu cynnal a'u gwella'n barhaus, ac erbyn hyn mae holl Adrannau'r Cyngor yn adrodd ar lefelau cwblhau hyfforddiant mandadol yn eu cyfarfodydd herio a chefnogi perfformiad.

Er mwyn sicrhau bod egwyddorion diogelu wedi'u gwreiddio ar draws y Cyngor, rydym wedi sefydlu proses archwilio mewnol i asesu lefel ymwybyddiaeth y gweithlu. Mae'r archwiliad hwn yn cynnwys arolygon staff, cyfweliadau sampl a gwirio cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol. Bydd y canlyniadau'n cael eu dadansoddi i nodi bylchau gwybodaeth a blaenoriaethau hyfforddiant pellach. Yn ogystal, bydd yr archwiliad yn mesur effeithiolrwydd y polisïau presennol ac yn darparu tystiolaeth o welliant parhaus. Mae'r gwaith hwn yn rhan hanfodol o'n hymrwymiad i ddiogelu, gan sicrhau bod pob aelod o'r gweithlu yn deall eu cyfrifoldebau ac yn gweithredu'n brydlon i amddiffyn plant ac oedolion.

Yn ogystal â darparu pecynnau hyfforddiant diwygiedig, rydym wedi sefydlu proses adolygu barhaus i sicrhau bod hyfforddiant diogelu mewn ysgolion yn gyfredol ac yn adlewyrchu'r arferion gorau. Mae hyn yn cynnwys monitro cydymffurfiaeth, dadansoddi data cwblhau hyfforddiant, ac adolygu cynnwys modiwlau yn rheolaidd i ymateb i newidiadau deddfwriaethol neu argymhellion cenedlaethol. Mae adborth gan ysgolion a phartneriaid yn cael ei gasglu'n systematig i wella ansawdd a pherthnasedd y hyfforddiant. Bydd y broses hon yn sicrhau bod pob aelod staff yn meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i ddiogelu plant yn effeithiol.

#### 3.2 - Ymchwiliad i drefniadau ymdrin â cheisiadau dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth

Yn sgil y nifer eithriadol o geisiadau rhyddid gwybodaeth a dderbyniwyd yn sgil yr achos eithriadol yma (yn bennaf gan y wasg) ni lwyddwyd i ateb popeth o fewn y terfynau amser arferol. Roedd angen ystyried y ceisiadau yma i gyd yn unol â'r Deddf Rhyddid Gwybodaeth. Golygai hyn adolygu y wybodaeth ac ystyried os oedd angen gweithredu eithriadau i sicrhau e.e nad oedd data personol unigolion neu faterion amddiffyn plant yn cael ei ryddhau yn amhriodol. Bu i ni ateb pob cais ac un ai rhyddhau'r wybodaeth, os oedd yn briodol gwneud hynny, neu weithredu eithriad statudol priodol.

Er mwyn sicrhau tryloywder a chydymffurfiaeth, cynhaliwyd archwiliad gwirfoddol gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) ar ein trefniadau ymateb i geisiadau FOI. Mae'r adroddiad archwiliad bellach wedi'i dderbyn a nodwyd '*lefel resymol o sicrwydd bod prosesau a gweithdrefnau ar waith ac yn sicrhau cydymffurfiad â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (FOI). Mae'r archwiliad wedi nodi rhywfaint o gyfle i wella'r trefniadau presennol i leihau'r risg o beidio â chydymffurfio â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (FOIA)*'. Mae lefel yma o sicrwydd yn sgorio ail o 4 haen o lefelau sicrwydd (Uchel, Rhesymol, Cyfyngedig, Cyfyngedig Iawn).

Rydym wedi mabwysiadu cynllun gweithredu i ymateb i'w hargymhellion, gan gynnwys:

- Cryfhau prosesau monitro i sicrhau ymatebion o fewn y terfynau amser.
- Adolygu a gloywi canllawiau mewnol ar ddefnyddio eithriadau.
- Darparu hyfforddiant ychwanegol i staff ar egwyddorion FOI a diogelu data.

Bydd cynnydd yn cael ei fonitro'n rheolaidd ac yn cael ei adrodd i'r Panel Strategol a'r Pwyllgor Craffu i sicrhau gwelliant parhaus.

## Beth sydd arall sydd angen ei wneud i gwrdd â'r amcanion?

### 3.3 - Polisïau a hyfforddiant Canu'r Gloch

Mae gwaith sylweddol wedi'i wneud i adolygu ac atgyfnerthu'r Polisi Canu'r Gloch a'r trefniadau hyfforddiant cysylltiedig. Mae fersiwn newydd o'r polisi bellach wedi'i lunio gan y grŵp tasg, gyda mewnbwn gan y Gwasanaeth Cyfreithiol, Adnoddau Dynol ac Archwilio Mewnol. Mae'r camau nesaf yn cynnwys ymgynghori â'r undebau, cyflwyno i'r Tîm Rheoli Corfforaethol, ac yna cyflwyno i'r Cyngor Llawn ar gyfer cymeradwyaeth derfynol. Ar ôl hynny, bydd rhaglen codi ymwybyddiaeth yn cael ei gweithredu, gan gynnwys hyfforddiant gorfodol i reolwyr a modiwl e-ddysgu newydd i staff. Yn ogystal, mae gwaith parhaus i asesu budd comisiynu cwmni allanol arbenigol i gefnogi'r Cyngor gyda gweithredu'r polisi. Mae'r rhaglen waith hefyd yn cynnwys cynllun i gomisiynu system gofnodi a monitro newydd ar gyfer gweithredu'r polisi, gan sicrhau tryloywder a chysondeb. Bydd y trefniadau hyn yn cryfhau diwylliant agored a diogel lle gall staff godi pryderon heb ofn, gan adlewyrchu'r argymhellion a nodwyd yn yr adroddiadau blaenorol.

Gan mai polisi y Cyngor fel cyflogwr yw hwn o dan amodau cyflogaeth staff, byddwn hefyd yn sicrhau fod ein cyfundrefnau ar gyfer adrodd am bryderon gan Aelodau yn glir a chadarn a'u bod yn cynnig llwybr diogel a chyfrinachol. Byddwn hefyd yn sicrhau fod y cyfundrefnau hyn yn cael lle blaenllaw yn ein rhaglen anwytho a hyfforddi Aelodau fel bod pawb yn deall sut a phryd i'w defnyddio.

### 3.4 – Hyfforddiant "grooming"

Ymhellach i rhan 1.7 o'r cynllun hwn sy'n nodi fod hyfforddiant Diogelu wedi ei addasu i gynnwys darn ar "grooming", byddwn yn darparu rhaglen hyfforddi "grooming" i staff Adrannau Plant ac Addysg, gan gynnwys staff gweinyddol a chyfleusterau mewn ysgolion ac Aelodau etholedig perthnasol, ar sut mae troseddwyr rhyw yn gweithredu ac yn defnyddio "grooming".

Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu pecyn priodol gan nad yw hyfforddiant sydd eisoes ar gael i'w brynu yn cyfarch gofynion Cyfiawnder Trwy ein Dewrder fel ag y mae.

### 3.4 - Goruchwyliaeth

Nododd adroddiad 'Cyfiawnder trwy ein Dewrder' y bydd angen i Lywodraeth Cymru adolygu trefniadau Llywodraethu mewn ysgolion yng Nghymru gan gynnwys sicrhau bod Swyddogion Dynodedig Diogelu (SDD)a'u dirprwyon yn derbyn goruchwyliaeth allanol gan Weithwyr Cymdeithasol cymwys. Ar hyn o bryd mae'r Tîm Diogelu a Lles yn Adran Addysg yn darparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i'r SDD mewn ysgolion ledled Gwynedd ac mae'r trefniant hwn yn unigryw i'r sir gyda'r Rheolwr Tîm mewn cysylltiad parhaus â thîm amddiffyn plant Gwynedd. Gyda bron i gant o SDD mewn ysgolion (heb gynnwys dirprwy SDDau), bydd angen sicrhau adnoddau ychwanegol i weithredu'r argymhelliad hwn yn effeithiol – bydd hyn yn cael ei drafod ymhellach ar lefel rhanbarthol a chenedlaethol yn gyntaf i sicrhau dealltwriaeth a chyd-ymateb i'r disgwyliad hwn.

## Ffrwd waith 4 – Llywodraethiant mewn Ysgolion

### Beth sydd wedi ei gyflawni hyd yn hyn?

#### 4.1 Cefnogi Llywodraethwyr Ysgolion Gwynedd

Mae'r gyfundrefn Addysg sy'n bodoli ar hyn o bryd yn rhoi'r cyfrifoldeb ar Gyrff Llywodraethol (fel endid ar wahân i Adrannau Addysg Llywodraeth leol) i fod yn gyfrifol am bob ysgol unigol. Mae'r Cyrff hyn yn gyfuniad o Lywodraethwyr sy'n cynrychioli rhanddeiliaid amrywiol mewn ysgolion ac maent yn swyddogaethau gwirfoddol.

Er mwyn cefnogi Llywodraethwyr i gyflawni eu rôl mae trefniadau mewn lle i ddarparu hyfforddiant a chefnogaeth. Mae'r trefniadau hyn yn aml yn deillio ganllawiau cenedlaethol a'r hyfforddiant wedi bod yn cael ei ddarparu ar sail rhanbarthol.

Rydym eisoes yn darparu y canlynol i gefnogi Llywodraethwyr:

- Sicrhau bod holl aelodau corff llywodraethol yn meddu ar DBS dilys.
- Hyfforddiant diogelu i lywodraethwyr yn eu hysgolion.
- Darparu hyfforddiant diogelu penodol i Gadeiryddion a PDD ar gyrff llywodraethu.
- Rhaglen hyfforddiant mandadol ar gyfer llywodraethwyr yn weithredol ar draws y sir.
- Cyngor a chefnogaeth barhaus ar gael i gyrff llywodraethu drwy'r Swyddog Cefnogi Addysg Cynorthwyol.
- Cefnogaeth ac arweiniad i glercod llywodraethwyr, gan gynnwys camu mewn yn uniongyrchol i glercio yn Ysgol Friars i sefydlogi trefniadau.
- Wedi cyhoeddi a rhannu llawlyfr newydd i lywodraethwyr, gan sicrhau cysondeb a safonau clir ar draws ysgolion

Mae'r gyfundrefn genedlaethol yn rhoi baich a chyfrifoldebau sylweddol ar y Cyrff Llywodraethol ac yn aml iawn mae cyflawni'r rôl yn hynod heriol, yn arbennig ar sail wirfoddol am ychydig oriau yma ac acw. Mae amrediad eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau yn eang a heriol gan gynnwys materion cyllid, staffio, adeiladau, safon addysg ayb. Mae Llywodraethwyr hefyd yn wynebu, ac yn cofleidio, yr her o hyrwyddo disgyblion i fod yn ddinasyddion cyflawn a iach, hyrwyddo priodoldeb a thegwch tuag at bawb, gan cynnwys cyflwyno'r Cwricwlwm Addysg Cydberthnasedd a Rhyw newydd yn llwyddiannus.

Credwn fod angen trafodaeth genedlaethol ar addasrwydd y gyfundrefn bresennol a'r baich sy'n cael ei osod ar ysgwyddau Llywodraethwyr, ac rydym wedi ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn gofyn iddynt ystyried hynny a nodi ein amrywiol rhwystredigaethau gyda'r drefn bresennol.

Ers hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi cychwyn adolygiad o drefniadau Llywodraethu mewn ysgolion.

#### 4.2 Adolygiad o'r ymateb i adroddiad gan Banel Cwynion Annibynnol yn 2019

Yn 2019 cynhaliwyd Panel Cwynion Annibynnol yn unol â'r drefn o gwynion mewn ysgolion, i ystyried cwynion yn erbyn y Corff Llywodraethol Ysgol Friars.

Mewn ymateb, cynhaliwyd Ymchwiliad Annibynnol i'r modd yr ymatebwyd i'r argymhellion yn Adroddiad y Panel Cwynion Annibynnol. Prif ddiben y comisiwn oedd asesu a ymatebodd yr Ysgol, y Corff Llywodraethu a'r Cyngor yn ddigonol ac yn briodol i ganfyddiadau Adroddiad y Panel Cwynion.

Cwblhawyd y gwaith hwn yng ngwanwyn ac mae'r argymhellion a gyflwynwyd gan yr ymchwilydd wedi ei drosglwyddo i raglen waith y Bwrdd Ymateb.

### Beth arall sydd ei angen er mwyn cwrdd â'n amcanion?

4.3 Ymateb a gweithredu unrhyw ddiwygiadau i drefniadau llywodraethu ysgolion

Rydym yn aros yn eiddgar am ganlyniad adolygiad Llywodraeth Cymru i drefniadau llywodraethu mewn ysgolion, ond yn y cyfamser mae angen i ni sicrhau ein bod yn cynnig yr hyfforddiant a chefnogaeth gorau posib i lywodraethwyr ein holl ysgolion i gyflawni eu dyletswyddau heriol ac eang, ac felly byddwn yn newid ein trefniadau presennol er mwyn ceisio sicrhau fod y gwirfoddolwyr hyn yn teimlo'n hyderus i gyflawni eu rôl ac yn derbyn y gefnogaeth briodol.

Mae'r hyn yr ydym eisoes yn fwriadu ei weithredu i'w cefnogi yn cynnwys datblygu a darparu arweiniad pellach i glercod ar flaenoriaethu materion, amserlennu a chynnwys papurau llywodraethu; adolygu'r ystod o hyfforddiant presennol a nodi ffyrdd amgen neu fwy hyblyg o'i gyflwyno i sicrhau bod pob llywodraethwr yn cael mynediad amserol; ac ystyried creu pwl o glercod llawn amser, fyddai'n gwasanaethu'r ysgolion yn ôl yr angen ac yn darparu cefnogaeth annibynnol a phroffesiynol, gan gryfhau llywodraethu ar draws y sir.

# Ffrwd Gwaith 5  - Grym Rhesymol

## Beth sydd wedi ei gyflawni hyd yn hyn?

### 5.1 Arferion a hyfforddiant grym rhesymol

Yn yr achos hwn roedd y troseddwr yn gweithredu yn groes i bolisi ysgolion ynglŷn â ffilmio digwyddiadau lle bu defnyddio arferion cyfyngol. Mae gan yr awdurdod bolisi enghreifftiol i ysgolion a disgwylir iddynt fabwysiadu'r polisi hwn. Mae'r polisi grym rhesymol ysgolion unigol yn cael eu gwirio mewn ymweliadau ansawdd gan y Tîm Diogelu ac mae hyfforddiant hefyd yn gael ei ddarparu i Ysgolion gan y gwasanaeth cynhwysiad. Penodwyd Swyddog Diogelu a Llesiant ychwanegol i'r Tîm yn ddiweddar er mwyn gallu cyflawni ymweliadau ansawdd blynyddol.

## Beth arall sydd angen ei gyflawni er mwyn cwrdd â'n amcanion?

### 5.2 Cysoni ymarferion a hyfforddiant grym rhesymol

Bydd yr awdurdod yn parhau i adolygu cynnwys y polisi i adlewyrchu yr hyn y bydd y Llywodraeth yn ei gyhoeddi fel atodiad ac yn cyfathrebu unrhyw newid perthnasol i'r ysgolion a'r cyrff llywodraethol.

Yn bresennol mae dau fath o hyfforddiant defnydd grym rhesymol yn cael ei gynnig drwy wasanaethau gwahanol ac mae gwaith yn mynd rhagddo i unioni rhain i sicrhau dulliau sy'n gyson sefydlog ar draws ein gwasanaethau. Bydd hyn yn digwydd ochr yn ochr a'r gwaith o wella dealltwriaeth staff a dysgwyr o'r defnydd o Rym Rhesymol.

Bydd yr awdurdod yn sefydlu briff a chomisiynu cwmni allanol i werthuso'r polisi presennol, trefniadau hyfforddiant, cefnogaeth ysgolion, cefnogaeth disgyblion a dulliau monitro cydymffurfiaeth. Mae Gweithgor Addysg/Diogelu/ADY wedi ei sefydlu i arwain a hwyluso'r gweithredu fydd yn deillio o'r gwerthusiad hwn.

## Ffrwd Gwaith 6 – Cynllunio ac Ymateb i Argyfwng

### Beth sydd wedi ei gyflawni hyd yn hyn?

#### 6.1 Ymateb i argyfwng mewn ysgolion

Darparwyd hyfforddiant delio a sefyllfa o argyfwng i holl Ysgol Gwynedd yn 2024, wedi ei drefnu gan Bartneriaeth Cynllunio Argyfwng Gogledd Cymru ar gyfer sefyllfaoedd o argyfwng megis tân, damwain neu drywanu

Fodd bynnag, yn yr achos hwn, roedd yn argyfwng diogelu ac yn ymwneud â Rheolwr y Safle, y Pennaeth, sef yr unigolyn a fyddai'n arferol yn cymryd rheolaeth o sefyllfa o argyfwng yn yr ysgol.

Mae canllawiau tymor byr wedi rhannu gydag ysgolion a llywodraethwyr yn eu hatgoffa o drefniadau ac i atgyfnerthu negeseuon y dylid ffonio 999 ar unwaith os oes achos o argyfwng. Fodd bynnag byddwn yn rhoi trefniadau mwy cadarn mewn lle fel bod pawb yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb mewn sefyllfa fel hyn.

### Beth arall sydd angen ei gyflawni er mwyn cwrdd â'n amcanion?

#### 6.2 Adolygu trefniadau cynllunio argyfwng yn gorfforaethol

Mae cynlluniau ymateb i argyfwng yn seiliedig ar reolwr safle yn rheoli'r sefyllfa – yn cymryd rheolaeth a chyfarwyddo eraill er mwyn diogelu plant / staff / y cyhoedd. Mae angen i ni fod yn adolygu'r gweithdrefnau hyn ar gyfer sefyllfaoedd pan fo'r rheolwr safle (neu Y Pennaeth ei hun fel yn yr achos hwn) yw'r un sydd yn achosi y perygl / argyfwng.

Er mwyn cryfhau ein gallu i ymateb yn effeithiol i argyfyngau diogelu, bydd y ffrydiau gwaith newydd yn canolbwyntio ar greu trefniadau cadarn ar gyfer cynllunio, cydlynu a gweithredu mewn sefyllfaoedd brys. Bydd hyn yn cynnwys datblygu protocolau clir i ymateb i hyn mewn argyfwng diogelu er mwyn gwarchod dioddefwyr, diogelu tystiolaeth a rheoli'r troseddwr honedig.

Gall hyn fod yn berthnasol i safleoedd yn ehangach na ysgolion wrth gwrs, megis cartrefi gofal neu ganolfan hamdden ac mae'n hanfodol fod cynlluniau argyfwng ar draws y Cyngor yn ymateb i hynny.

## Ffrwd waith 7 – Cefnogi a sefydlogi Ysgol Friars

### Beth sydd wedi ei gyflawni hyd yn hyn?

#### 7.1 - Cynllun Cefnogi'r Ysgol

Yn dilyn arestio y troseddwr ar y 6ed o Fedi rhoddwyd cefnogaeth sydyn ac ymatebol i'r ysgol, ac fe fabwysiadwyd Cynllun Cefnogi Ysgol oedd yn cynnwys arweiniad allanol beirniadol. O fis Hydref 2023 tan Mawrth 2024, penodwyd Sarah Sutton fel ffrind beirniadol i'r Pennaeth mewn Gofal, tra penodwyd Margaret Davies er mwyn cefnogi'r Dirprwy Bennaeth Lles.

Er mwyn cefnogi'r ysgol a lles y staff drwy'r cyfnod heriol hwn, mae Arweinydd Tîm Ymgynghorwyr Adnoddau Dynol a Phennaeth Cynorthwyol yr Adran Addysg sydd â chyfrifoldeb am gefnogi'r sector uwchradd, yn darparu goruchwyliaeth a chefnogaeth weithredol.

Yn ogystal, mae athro sydd phrofiad sylweddol yn maes cynhwysiad a oedd dan yn ddiweddar iawn yn gweithio mewn Ysgol Uwchradd arall o fewn y Sir yn cynnig cymorth pellach rhwng tri a phedwar diwrnod yr wythnos.

Ers Medi 2023 mae'r Adran Addysg wedi darparu cymorth ac adnodd diwyro i'r Ysgol, sy'n cynnwys cyfraniad ac arbenigedd holl staff yr Adran Addysg, gan sicrhau sefydlogrwydd a chefnogaeth cyson ar gyfer adferiad Ysgol Friars. Rhoddwyd cefnogaeth i adolygu eu polisïau diogelu ac mae polisïau newydd wedi eu mabwysiadu gan yr ysgol.

Mae swyddogion o'r Adran Addysg wedi bod yn cyfarfod cynrychiolwyr yr Undebau yn rheolaidd hefyd, gan gymryd y cyfle i wrando ar bryderon a cheisio rhannu gwybodaeth amserol gyda hwy.

#### 7.2 - Diwygio'r Corff Llywodraethol

Yn dilyn dedfrydu y troseddwr yn mis Mai 2024, bu i'r Cyngor adolygu aelodaeth yr Awdurdod ar y Corff Llywodraethol gan gynnwys penodi pedwar Aelod ar ran yr Awdurdod.

Yn ogystal, bu i aelodau eraill ymadael a bellach mae 14 allan o 19 aelod o'r Corff Llywodraethu yn newydd i'w rôl, gyda Chadeirydd newydd wedi ei phenodi.

Mae cefnogaeth barhaus yn cael ei roi gan Swyddogion yn yr Adran Addysg er mwyn hyfforddi a chynnig cefnogaeth ymarferol i lywodraethwyr newydd yr Ysgol.

Yr Awdurdod sydd yn darparu cefnogaeth clercio i'r Corff Llywodraethol bellach.

#### 7.3 - Newidiadau i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth

Mae Uwch Dîm Arweinyddiaeth yr Ysgol wedi gweld newidiadau sylweddol ers i'r troseddwr gael ei arestio. Yn ogystal â charchariad y troseddwr, mae aelodau eraill o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth wedi gadael eu rolau ac mae Tîm gwbl newydd bellach mewn lle .

Mae cyfrifoldebau y Swyddog Dynodedig Diogelu a oedd yn rhan o'r Uwch Dîm Arwain hefyd wedi ei drosglwyddo i aelod gwahanol o staff.

Bu i'r Ysgol dderbyn goruchwyliaeth gan Margaret Davies, sy'n bennaeth profiadol ac ar y pryd yn bennaeth ar ysgol mewn sir arall.

### 7.4 - Penodiad Pennaeth Dros Dro

Ar ôl heriau recriwtio sylweddol, penodwyd Lynne Hardcastle yn Bennaeth dros dro i ddarparu arweinyddiaeth yn y cyfnod rhwng Tachwedd a diwedd Rhagfyr 2024, yn y lle cyntaf.

Penodwyd Margaret Davies yn Bennaeth i'r ysgol am 4 tymor o Pasg 2025 tan Awst 2026. Bydd y cyfnod estynedig yn y rôl yn cyfle i sefydlogi'r ysgol ac adolygu y trefniadau gweithredu yn drwyadl. Bydd hefyd yn rhoi cyfle i gefnogi staff am gyfnod estynedig ac yn rhoi ffydd i'r rhieni fod yr ysgol o dan arweinyddiaeth newydd profiadol sydd â chefndir cryf hefyd yn y maes diogelu.

## Beth arall sydd angen ei gyflawni er mwyn cwrdd â'n amcanion?

### 7.5 – Penodi Pennaeth Parhaol newydd

Hyd yma nid yw'r Llywodraethwyr wedi gallu Penodi Pennaeth Parhaol newydd i'r Ysgol a dyma pam fod trefniadau dros dro wedi eu gweithredu. Bydd penodiad Margaret Davies hyd diwedd Tymor yr Haf 2026 yn rhoi cyfle i'r ysgol sefydlogi a chychwyn ar bennod newydd.

Bydd yr ysgol yn cychwyn ar broses recriwtio ar gyfer penodi Pennaeth parhaol newydd yn fuan yn 2026.

### 7.6 – Comisiwn i edrych ar drefniadau gweithredol yn yr ysgol

Wrth i'r Corff Llywodraethu newydd sefydlu eu hunain, ac wrth i'r Pennaeth dros dro gael cyfle i adolygu hol drefniadau'r ysgol, byddwn fel Cyngor yn eu cefnogi i gynnal darn o waith i gymharu trefniadau gweithredu Ysgol Friars gyda'r trefniadau gweithredol yng ngweddill ysgolion y sir gan geisio adnabod gwahaniaethau er mwyn ystyried os oes newidiadau gweithredol sydd angen eu cyflawni.

Bwriedir i'r gwaith hwn gael ei gyflawni ar y cyd rhwng y Corff Llywodraethol newydd a'r Adran Addysg.

## 7. Ymchwiliadau Pellach

*Angen cwblhau y rhan hwn wedi sefydlu pa ymchwiliadau pellach i'w comisiynu yn Ionawr 2026*.

Yn y man byddwn yn derbyn casgliadau yr ymchwiliadau uchod a byddwn angen gweithredu ar yr amrywiol gasgliadau ac argymhellion. Bydd yr hyn fydd yn ddisgwyliedig ohonom yn ddibynnol ar y casgliadau a'r argymhellion hynny ac felly byddwn angen adolygu y rhan yma o'r Cynllun Ymateb hwn yn dilyn derbyn yr adroddiadau dan sylw.

Rydym wedi datgan yn glir o'r cychwyn y byddwn yn cofleidio'r holl argymhellion o bob ymchwiliad ac yn eu gweithredu'n llawn ac yn ddi-oed, ac mae'n briodol i ni ail ddatgan hynny yma.

## 8. Perchnogaeth a threfniadau llywodraethu'r Cynllun

Cabinet y Cyngor sydd yn comisiynu'r Cynllun Ymateb hwn.

Mabwysiadwyd y Cynllun Ymateb gan y Cabinet ar 21 Ionawr 2025 ac yn dilyn hynny sefydlwyd Bwrdd Ymateb penodol i gydlynu a sicrhau cynnydd priodol ac amserol. Gwahoddwyd nifer o gyrff allanol i fod yn rhan o'r Bwrdd a phenodwyd Gadeirydd annibynnol ac chyfarfu'r Bwrdd Ymateb am y tro cyntaf mis Mawrth 2025.

Cadeirir y Bwrdd Ymateb gan yr Athro Sally Holland, cyn Gomisiynydd y Plant, sydd â´r cefndir a phrofiad perthnasol i alluogi herio'r cyflawni a'r gweithredu. Mae nifer o sylwedyddion ar y Bwrdd ymateb gan gynnwys Estyn, Arolygaeth Gofal Cymru, Llywodraeth Cymru, Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru a'r Comisiynydd Plant.

Mae Cadeirydd y Bwrdd Ymateb yn adrodd i Gabinet yn chwarterol ac i'w gadarnhau yn y Cylch Gorchwyl y cyfeirir ato uchod.

Mae rôl i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi a'r Pwyllgor Craffu Gofal hefyd i graffu'r cynnydd a'r cyflawni (yn ogystal â chyflawni'r Ymchwiliad Craffu a nodir yn rhan 2.7).

Bydd angen adolygu cynnwys y Cynllun hwn yn rheolaidd ac wrth i'r sefyllfa ddatblygu. Mae hwn yn gynllun byw, ac mae'n anorfod y bydd yn newid wrth i ni symud o'r cam ymchwilio a dysgu i'r cyfnod adfer.

Mae'n anorfod y bydd cynnydd yn anodd i'w fesur gan y bydd nifer o faterion yn agored i farn bersonol. Un ffon fesur fydd cyflawni yr holl gamau unigol a adnabuwyd yn Ffrydiau Gwaith y cynllun ac mae cynllun gweithredu cynhwysfawr a manwl i'w olrhain sydd a dros 200 o dasgau a gweithredoedd i gyflawni amcanion y cynllun hwn. Mae'r Bwrdd hefyd wedi cytuno ar gyfres o fesurau effaith, gan gynnwys monitro barn pobl ifanc, rhieni a staff ynghylch effeithiolrwydd diogelu mewn ysgolion yn rheolaidd. Fodd bynnag, mae angen cydnabod y bydd cyflawni hyn oll yn broses hirdymor a byddwn yn ymrwymo i wneud hynny, doed a ddêl.

## 9. Cynllun cyfathrebu

Cyn cyhoeddi Cyfiawnder Trwy ein Dewrder ym mis Tachwedd 2025 roedd cyfyngiadau ar allu'r Cyngor i gyfathrebu gwybodaeth yn llawn rhag amharu ar waith yr adolygwyr annibynnol. Yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad, mae modd bellach i'r Cyngor rannu llawer mwy o wybodaeth am y gwaith o addasu a chryfhau ein trefniadau mewn ymateb i'r canfyddiadau a'r argymhellion. Er hyn, mae'n bwysig nodi fod rhaid parhau i droedio'n ofalus gyda'r materion hynny sydd ynghlwm ag achosion unigol plant a/neu oedolion neu'n faterion Adnoddau Dynol.

Mae'r Cynllun Cyfathrebu gwreiddiol – a oedd yn cynnwys cyfres o is-gynlluniau i gyfathrebu gwybodaeth i ran-ddeiliaid allweddol – wedi ei gwblhau. Bellach, mae'r gwaith wedi dechrau i greu Cynllun Cyfathrebu newydd fydd yn seiliedig ar y ffrydiau gwaith yn y Cynllun Ymateb diwygiedig.

Yn ogystal, mae tudalen gwe wedi ei sefydlu fel bod unrhyw ddatganiadau a gwybodaeth berthnasol yn cael ei gadw mewn un lle - [www.gwynedd.llyw.cymru/ymatebidroseddau](http://www.gwynedd.llyw.cymru/ymatebidroseddau)

# Atodiad 2

## *Bwrdd Rhaglen – Cynllun Ymateb*

### *Adroddiad Cynnydd – 8 Rhagfyr 2025*

| **Thema 1 - Llais y Plentyn a Chefnogi Dioddefwyr**<br>***Swyddog Adrodd: Gwern ap Rhisiart*** | |
|---|---|
| **1. Nod Thema:** | • Sicrhau y gwrandewir ar blant, a'u bod yn cael eu credu a'u cymryd o ddifri.<br>• Rhoi llais i blant a phobl ifanc mewn prosesau sydd wedi'u cynllunio i'w cadw'n ddiogel.<br>• Gwneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi'r dioddefwyr a'r goroeswyr. |
| **2. Arweiniad a geisiir gan y Bwrdd:** | Gofynnwn i'r Bwrdd;<br>- Herio a chraffu ar gynnydd<br>- Cynnig unrhyw arweiniad pellach ar y camau nesaf.<br>Canllawiau penodol:<br>• A ddylem symud ymlaen ein hunain neu aros am ddeunydd LlC? (e.e. CPR-3) |
| **3. Cynnydd hyd yma:** | • Grŵp tasg a gorffen wedi'i sefydlu ar draws yr Adrannau Addysg a Phlant i ddatblygu polisi drafft (Llais y Plentyn) gyda mewnbwn y fforwm ieuenctid.<br>• Mae'r Adran Addysg wedi ymgorffori gwybodaeth am feithrin perthnasoedd amhriodol ("grooming")yn y pecyn hyfforddiant diogelu ysgolion ar gyfer dechrau'r flwyddyn academaidd (Medi 2025)<br>• Cyflogir Cydlynydd Fforwm Pobl Ifanc i helpu i ymgynghori â Fforwm Ieuenctid y Sir - gan roi cyfle i bobl ifanc leisio eu barn a chyfrannu at drafodaethau.<br>• Gweithio'n agos gyda RASAC Gogledd Cymru i sicrhau bod cynlluniau cymorth personol addas, wedi'u teilwra yn eu lle ar gyfer dioddefwyr<br>• Gwaith sgopio cychwynnol wedi'i wneud i ddeall gweithgarwch presennol ar draws y Cyngor mewn perthynas â llais, cyfranogiad a hawliau plant (bydd Cadeirydd y Bwrdd, Sally Holland, yn hwyluso gweithdy ar Hawliau Plant i'r Bwrdd ym mis Chwefror 2026). |
| **4. Heriau a wynebwyd:** | • **Adnoddau:** Cais corfforaethol wedi'i baratoi i sicrhau staff ychwanegol i gefnogi gweithredu *CPR-6* (sicrhau bod Gofal Cymdeithasol Plant bob amser yn siarad yn uniongyrchol â'r plentyn, hyd yn oed os nad yw'r plentyn wedi datgelu).<br>• **Aros am arweiniad pellach**: *CPR-3* Gwybodaeth am feithrin perthnasoedd amhriodol ("grooming") yn y pecyn diogelu ysgolion – a ddylem symud ymlaen ein hunain neu aros am ddeunydd Llywodraeth Cymru? |
| **5. Camau nesaf / cerrig milltir allweddol:** | • Datblygu polisi ar wrando ar lais y plentyn – **erbyn Ebrill 2026**<br>• Gweithredu hyfforddiant i staff i adnabod a dogfennu newidiadau ymddygiadol mewn plant a allai fod yn |

| | |
|---|---|
| | arwydd o feithrin perthnasoedd amhriodol neu gam-drin – **erbyn mis Mawrth 2026.**<br>• Cefnogi dioddefwyr trawma a theilwra cymorth i gyfateb ag anghenion yr unigolyn – **Parhaus**<br>• Cyflwyno system Bromcom newydd ar draws holl ysgolion Gwynedd, ochr yn ochr ag ymgyrch hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth – **erbyn Medi 2027**<br>• Adolygu'r adborth a gasglwyd gan Fforwm Ieuenctid y Sir a cheisio cymeradwyaeth ar gyfer unrhyw gamau gweithredu arfaethedig –**Ionawr 2026**<br>• Creu cynllun gweithredu ymarferol sy'n nodi blaenoriaethau, cyfrifoldebau ac amserlenni clir ar gyfer ymgorffori diwylliant sy'n canolbwyntio ar blant ar draws pob gwasanaeth – **erbyn Ebrill 2026** |
| **6. Risgiau / Adnoddau:** | • I'w gadarnhau – yn dibynnu ar adborth gan y Fforwm Ieuenctid |
| **7. Amserlenni:** | see table below |

| | |
|---|---|
| CPR - 1 | Ebrill 2026 |
| CPR - 2 | Ebrill 2026 |
| CPR - 3 | Mawrth 2026 |
| CPR - 4 | Medi 2027 |
| CPR - 6 | I'w gadarnhau |
| CPR - 7 | Ionawr 2026 |
| CPR - 8 | I'w gadarnhau |
| CPR - 9<br>RP - A4<br>RP - A1 | Parhaus |
| RP- A5 | Parhaus |
| NEWYDD - 1 | Mawrth 2026 |

| **Thema 2 - Rheoli Honiadau a Phryderon am Oedolion sy'n gweithio gyda Phlant**<br>***Swyddog Adrodd: Dylan Owen*** | |
|---|---|
| **1. Nod Thema:** | • Amddiffyn plant trwy sicrhau bod pryderon yn cael eu cymryd o ddifri ac yn gweithredu arnynt yn gyflym.<br>• Sicrhau bod trefniadau Adran 5 yn cefnogi ymateb aml-asiantaeth cyson a chadarn i honiadau a phryderon am oedolion sy'n gweithio gyda phlant. |
| **2. Arweiniad a geisir gan y Bwrdd:** | Gofynnwn i'r Bwrdd;<br>- Herio a chraffu ar gynnydd<br>- Cynnig unrhyw arweiniad pellach ar y camau nesaf.<br><br>Canllawiau penodol:<br>*- CPR-15, RP-C2, RP-C2a – a yw'r Bwrdd yn fodlon â'r penderfyniad i aros am ganllawiau Llywodraeth Cymru?* |
| **3. Cynnydd hyd yma:** | <u>Atgyfeiriadau Adran 5:</u> |

| | |
|---|---|
| | • Mae pob plentyn sy'n rhan o'r atgyfeiriad (mewn rhai achosion lle mae'r plentyn wedi cyfeirio plentyn arall ac nad yw'r datgeliad yn ymwneud â nhw) yn cael ymweliad gan weithiwr cymdeithasol a fydd yn gwrando arnynt.<br>• Templedi trafodaeth a chyfarfodydd strategaeth diwygiedig fel bod gwybodaeth diogelu flaenorol ar gofnodion y plentyn yn cael ei dal a'i rhannu.<br>• Mae'r ffurflen atgyfeirio wedi'i hychwanegu at y wefan o dan Cam-drin Plant, Plant a Chefnogi Teuluoedd, a Chadw Disgyblion yn Ddiogel. Mae e-bost hefyd wedi cael ei anfon at holl benaethiaid ysgolion Gwynedd gyda'r ffurflen ynghlwm fel nodyn atgoffa.<br>• Ar hyn o bryd mae atgyfeiriadau yn cael eu sgrinio gan yr IAA ac mae trafodaethau yn digwydd gyda naill ai'r LADO neu'r DOS ynghylch yr angen i gychwyn gweithdrefnau Rhan 5.<br><br><u>Polisi Pryderon Lefel Isel</u><br>• Mae ymarfer sgopio ar y Polisïau a ddefnyddir yn Lloegr wedi'i gwblhau.<br>• Ar 18.11.25, cyfarfu staff o Addysg, Diogelu (Plant ac Oedolion) ac Adnoddau Dynol i ystyried yr hyn y gallai Gwynedd ei weithredu wrth aros am eglurhad gan Lywodraeth Cymru.<br><br><u>Tîm Diogelu a Llesiant Ysgolion</u><br>• Mae'r tîm wedi hysbysebu am 4ydd aelod. 9 wedi gwneud cais, bydd penodiad cyn diwedd y tymor hwn.<br>• Mae'r Tîm Diogelu a Llesiant yn cwrdd â Thimau rheoli gweithredol (Adran Plant) i sicrhau gwell dealltwriaeth o rolau. |
| **4. Heriau a wynebwyd:** | <u>CPR-12: *Mae'n ofyniad bod trothwyon ar gyfer galw'r gweithdrefnau yn cael eu penderfynu mewn cyfarfod aml-asiantaeth ac nid gan y LADO yn unig, ac yn ystyried pryderon, cwynion a honiadau blaenorol.*</u><br><br>Gall cydlynu penderfyniadau trothwy aml-asiantaeth gymryd llawer o amser ac yn anodd eu hamserlennu, sy'n peryglu oedi camau diogelu brys. Bydd yr Adran Plant yn gweithio gyda Heddlu Gogledd Cymru ac asiantaethau partner i archwilio opsiynau fel cyfarfodydd rheolaidd. Disgwylir trafodaeth bellach ar y mater hwn a hyfywedd ar draws y rhanbarth yn NWSB mis Rhagfyr.<br><br><u>*CPR-15, RP-C2, RP-C2a - Llywodraeth Cymru yn ystyried ei gwneud yn ofynnol i ysgolion ddatblygu Polisi Ymddygiad Oedolyn sy'n Peri Pryder' (a elwir yn Lloegr yn Bolisi Pryderon Lefel Isel') gan ystyried cynhyrchu canllawiau ar arferion gweithio diogel.*</u><br><br>Oherwydd pryderon am: |

| | |
|---|---|
| | 1. Gwerth cyfyngedig ymagwedd Gwynedd yn unig pan fydd staff yn gweithio'n aml ar draws rhanbarth Gogledd a Chanolbarth Cymru,<br>2. goblygiadau rheoli data, a<br>3. Materion adnoddau dynol a gwaith teg, gan gynnwys absenoldeb diffiniad statudol o "bryderon lefel isel",<br><br>Gwnaed y penderfyniad i ohirio gweithredu Polisi Pryderon Lefel Isel nes bod canllawiau cenedlaethol yn cael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru.<br><br>Yn y cyfamser, mae'r Cyngor yn ystyried adfer cofnod canolog o staff sy'n ymwneud â phrosesau diogelu Rhan 5, ond gyda meini prawf a diffiniadau cliriach. Mae'n ymgysylltu ag awdurdodau lleol cyfagos i adolygu eu hymagweddau a nodi elfennau y gellid eu mabwysiadu yng Ngwynedd. |
| **5. Y camau nesaf/cerrig milltir allweddol:** | • Y cynllun yw recriwtio Swyddog Dynodedig ychwanegol ar gyfer Diogelu (DOS) a fydd hefyd yn datblygu cynllun archwilio ar gyfer yr Adran. Bydd y cynllun archwilio yn cynnwys adolygu pwy sy'n mynychu trafodaethau strategaeth ac ansawdd cofnodion gwneud penderfyniadau.<br>• Sefydlu cyfarfodydd rheolaidd ar y cyd (e.e., chwarterol) i gryfhau cydweithrediad rhwng yr Adrannau Addysg a Phlant a Chefnogi Teuluoedd.<br>• Mae cyfarfod pellach wedi'i gynllunio gyda Gwasanaethau Oedolion i ystyried goblygiadau ehangach ar gyfer gwneud penderfyniadau trothwy Diogelu.<br>• Gweithio gyda'r adran TG i ddatblygu fersiwn ddigidol o'r ffurflen atgyfeirio fel nad oes angen i ddefnyddwyr lawrlwytho PDF a'i anfon trwy e-bost mwyach. Nodir bod y ffurflen yn ddogfen ranbarthol ac ar hyn o bryd mae cynlluniau i fabwysiadu un ffurflen atgyfeirio ledled y wlad. |
| **6. Risgiau / Adnoddau:** | **Adnoddau:**<br>• Cyflogi DOS ychwanegol a fydd hefyd yn arwain ar y Fframwaith Archwilio ar gyfer yr Adran.<br>• Bydd yr Adran yn asesu a fydd angen adnoddau neu staff ychwanegol i gefnogi'r argymhelliad bod trafodaethau aml-asiantaeth yn cael eu cynnal i asesu trothwyon ar gyfer unrhyw bryderon sy'n ymwneud ag unigolion mewn swyddi cyfrifol.<br>**Risg:**<br>• Sicrhau bod perchnogaeth systemau yn newid gan y gweithlu. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **7. Amserlenni:** | | | |
| | CPR -11 | I'w gadarnhau | |
| | CPR - 14 | I'w gadarnhau | |
| | RP- B5 | Parhaus | |
| | CPR - 15<br>RP- C2<br>RP - C2a | Hyd 25 – Ebrill 26 | |
| | CPR - 12 | I'w gadarnhau | |
| | CPR - 5 | Medi 25 | |
| | NEW- 2 | Parhaus | |
| | NEW- 3 | Parhaus | |
| | NEW- 4 | I'w gadarnhau | |
| | NEW- 5 | Parhaus | |
| | NEW- 6 | Parhaus | |
| | NEW- 7 | Parhaus | |
| | CPR - 10 | I'w gadarnhau | |
| | CPR 16 | I'w gadarnhau | |
| | RP- B2 | Parhaus | |
| | NEW- 8 | Parhaus | |
| | NEW- 9 | Parhaus | |
| | NEW- 10 | Parhaus | |

| **Thema 3 - Hyfforddiant a Pholisïau**<br>***Swyddog Adrodd: Ian Jones*** | |
|---|---|
| **1. Nod Thema:** | • Sicrhau bod staff wedi'u hyfforddi i "feddwl yr hyn na ellir ei amgyffred" a deall "y gallai ddigwydd yma". |
| **2. Arweiniad a geisir gan y Bwrdd:** | Gofynnwn i'r Bwrdd;<br>- Herio a chraffu ar gynnydd<br>- Cynnig unrhyw arweiniad pellach ar y camau nesaf.<br>Canllawiau penodol:<br>- CPR-18, 19 - A ddylem ychwanegu sleidiau ar fodel Finklehor mewn pecynnau hyfforddi neu aros am ddatblygu hyfforddiant cydnabyddedig? |
| **3. Cynnydd hyd yma:** | • Mae'r Polisi Canu'r Gloch wedi'i ddiwygio a'i gylchredeg i'r Bwrdd am sylwadau (gweler *eitem 5 ar yr Agenda*).<br>• Mae'r Tîm Diogelu a Llesiant yn yr Adran Addysg yn darparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i'r Unigolion Diogelu Dynodedig mewn ysgolion ledled Gwynedd.<br>• Penodi rôl Hyrwyddwr Diogelu i hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth<br>• Mae dangosfwrdd perfformiad bob adran yn adrodd ar y canran o staff sydd wedi cwblhau hyfforddiant Diogelu a VAWDASV gyda monitro rheolaidd yn ei le ynghylch y defnydd o hyfforddiant gorfodol.<br>• Mae pob ysgol wedi derbyn Ymweliad Monitro yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, ac mae amserlen ymweld flynyddol yn ei lle ers mis Ionawr 2025 ymlaen (mae |

| | |
|---|---|
| | hyn yn mynd y tu hwnt i'r canllawiau cenedlaethol o ymweliad bob 2 flynedd). |
| **4. Heriau a wynebwyd:** | • Dibyniaethau ynghylch darpariaeth hyfforddiant gan gyrff eraill, e.e.<br>o Dim darpariaeth hyfforddiant gydnabyddedig ar waith ar gyfer modus operandi troseddwyr rhyw a meithrin perthnasoedd amhriodol gan droseddwyr rhyw (model Finklehor)<br>o Aros am ymateb gan Gofal Cymdeithasol Cymru i benderfynu sut y gellir addasu'r hyfforddiant a ddarperir yng Ngwynedd (hyfforddiant cadw cofnodion diogelu ychwanegol)<br>o Hyfforddiant a goruchwyliaeth rheolaidd LADO<br>• RP-B6 – *Ymchwiliad craffu ar drefniadau diogelu* - Disgwylir iddo adrodd i'r Pwyllgor Craffu ym mis Rhagfyr 2025 ond mae hyn wedi llithro i 12 Chwefror 2026 oherwydd y broses o gaffael a phenodi darparwr allanol i ymgymryd ag ymchwil ar lais y plentyn. |
| **5. Y camau nesaf/cerrig milltir allweddol:** | • Mabwysiadu polisi canu'r gloch diwygiedig – Cabinet (**Ionawr 26**), Cyngor Llawn (**Mawrth 26**) a gweithredu'r polisi (**Ebrill 26**)<br>• Cynllun cyfathrebu clir ar gyfer holl staff y Cyngor, gan sicrhau ei fod yn diwallu anghenion timau rheng flaen – **Tachwedd 2025.**<br>• Is-grŵp i ddatblygu a chynhyrchu offer ymarferol i atgyfnerthu a hyrwyddo pwysigrwydd hyfforddiant diogelu ar draws y Cyngor - **I'w gadarnhau**<br>• Ychwanegu hyfforddiant cadw cofnodion diogelu ychwanegol i'r e-fodiwl presennol gyda chytundeb SCW - **Tachwedd 2025.**<br>• Adroddiad Ymchwiliad Craffu (Trefniadau Diogelu) **- Chwefror 2026**<br>• Adolygiad pellach o'r Polisi Diogelu Corfforaethol – **Ebrill 2026** |
| **6. Risgiau / Adnoddau:** | • **Adnoddau:** CPR –24 - Gyda bron i 100 o Unigolion Diogelu Dynodedig mewn ysgolion (heb gynnwys dirprwy DSP), bydd angen adnoddau ychwanegol i weithredu'r argymhelliad hwn yn effeithiol.<br>• **Adnoddau:** RP-B2 - Gwaith i'w wneud ar gyfrifon e-bost ar gyfer staff (yn enwedig rheng flaen) i'w galluogi i gwblhau hyfforddiant gorfodol. Cyflwynwyd cais am gyllid sylweddol er mwyn gwella hyn. |
| **7. Amserlenni:** | CPR - 17: I'w gadarnhau gan LlC<br>CPR - 18: i'w gadarnhau<br>CPR - 19: I'w gadarnhau (gweler CPR-18)<br>CPR - 20: Ebrill 2026<br>CPR -13: i'w gadarnhau |

| | | |
|---|---|---|
| CPR - 24 | i'w gadarnhau | |
| RP- C2 | Rhagfyr 2025 | |
| RP- B1b | Parhaus | |
| RP- B2 | Cwblhau | |
| RP- C2d | Parhaus | |
| NEW- 11 | i'w gadarnhau | |
| RP- B1 | Ebrill 2026 | |
| RP- B2 | i'w gadarnhau | |
| RP- B1a | Mehefin 2026 | |
| RP- B1c | Cwblhau | |
| RP- B5 | Cwblhau | |
| RP- B6 | Rhagfyr 2025 | |

| **Thema 4 - Llywodraethu**<br>***Swyddog Adrodd: I'w gadarnhau*** | |
|---|---|
| **1. Nod Thema:** | • Sicrhau bod llywodraethwyr ysgolion yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau neu gadw plant yn ddiogel<br>• Sicrhau bod systemau yn eu lle sy'n mesur iechyd a diwylliant ehangach ysgolion |
| **2. Arweiniad a geisir gan y Bwrdd:** | Gofynnwn i'r Bwrdd;<br>- Herio a chraffu ar gynnydd<br>- Cynnig unrhyw arweiniad pellach ar y camau nesaf.<br>Canllawiau penodol:<br>- Mae amserlenni yn risg ar hyn o bryd – rhagwelir y bydd adolygiad Llywodraeth Cymru yn cymryd rhwng 6 a 9 mis. A allwn ni symud ymlaen yn gynt gyda rhai o'r argymhellion? Sut? |
| **3. Cynnydd hyd yma:** | • Hyfforddiant diogelu gorfodol yn ei le ar gyfer pob Cadeirydd a Llywodraethwr Dynodedig ar gyfer Diogelu mewn ysgolion.<br>• Ei gwneud hi'n orfodol i Lywodraethwyr gwblhau hyfforddiant diogelu sylfaenol<br>• Llawlyfr llywodraethwr newydd wedi'i rannu gyda'r holl lywodraethwyr<br>• Dechrau coladu gwybodaeth i asesu sefyllfa'r ysgol gan gynnwys iechyd a diwylliant ehangach |
| **4. Heriau a wynebwyd:** | • Dibyniaethau - yn aros am arweiniad pellach gan LlC yn dilyn ei adolygiad o drefniadau llywodraethu o fewn ysgolion |
Roedd Foden yn hyrwyddo ddiffyg ymddiriedaeth mewn plant, ac aeth ati i feithrin y gred bod plant yn anonest ac y byddent yn debygol o wneud honiadau ffug. Ar yr un pryd, sicrhaodd Foden aelodau staff y byddai'n *eu cefnogi* pe *bai* honiad yn cael ei wneud yn eu herbyn gan blentyn, a dosbarthodd negeseuon i staff a oedd yn enwi ac yn tanseilio’n fwriadol hygrededd plant.  Roedd hyn yn cynnwys enwi’n fwriadol ac yn agored y plant hynny y canfuwyd yn ddiweddarach eu bod wedi’u cam-drin, ac yr oedd yn eu gweld ar sail 1:1 fel rhai arbennig o anwadal.  Nid oedd staff yn cael eu hannog i gredu plant, ac ni chafodd rhieni a gododd bryderon neu gwynion am yr ysgol neu’r ffordd yr oedd eu plant yn cael eu trin fawr o drugaredd os oeddent yn ceisio mynd ar drywydd hyn (gweler Thema 5: Llywodraethu a Chwynion).

Er gwaethaf hyn ac ar ôl i CGA ei gael yn euog o gamymddwyn proffesiynol yn ystod hydref 2020, a arweiniodd at gyfnod ceryddu o ddwy flynedd, ychydig o dystiolaeth sydd yna bod gan unrhyw un yn ALl1 nac ar y Corff Llywodraethu oruchwyliaeth reoli drosto na’u bod yn monitro ei ymddygiad, na bod llawer o’r camau gweithredu a’r argymhellion a oedd wedi’u cynnwys yng nghanlyniad CGA yn cael eu gweithredu.

Ar 21 Mehefin 2022, naw mis yn unig ar ôl i CGA ei gael yn euog o gamymddwyn proffesiynol, penodwyd Foden yn Bennaeth Gweithredol/Strategol Ysgol 2. Drafftiodd Foden ei swydd-ddisgrifiad/gontract ei hun ar gyfer y rôl weithredol hon, ac yn hytrach na bod yn atebol i Gorff Llywodraethu Ysgol 2, byddai Pennaeth Addysg 1 ALl1 yn ei reoli. Manteisiodd Foden ar y cyfle i weithio ar draws dau safle i guddio ei symudiadau; nid oedd unrhyw un yn cael gweld ei ddyddiadur nac yn gwybod pryd y byddai yn y naill ysgol na’r llall nesaf, er bod un o’i ddioddefwyr wedi gallu rhannu ei bod hi’n gwybod am leoliad Foden gyda staff yr ysgol.  Nid oedd y ffaith bod gan ddisgybl y wybodaeth hon am leoliad Foden fel pe bai’n codi pryderon.

Roedd hwn yn gyfle a gollwyd

Roedd Foden yn droseddwr rhyw strategol a oedd hefyd yn fanteisgar ac yn benderfynol. Gweithredodd *yng ngolwg pawb*. Creodd Foden amgylchedd a'i galluogodd i ddatblygu systemau a chreu cyfleoedd i gael mynediad at unrhyw blentyn bron yn ôl ei ewyllys, gan gamddefnyddio'r systemau hynny wedyn i normaleiddio ei gyswllt un-i-un â disgyblion benywaidd diamddiffyn. Er bod tystiolaeth bod troseddu Foden wedi digwydd cyn marwolaeth UDD1 yn 2018, rhoddodd marwolaeth UDD1 gyfle i Foden gamu i sefyllfa lle gallai nodi a chael cyswllt â'r plant mwyaf diamddiffyn a'u cam-drin ar wedd cynnig cefnogaeth fugeiliol.

Chwaraeodd Foden ar ei golled bersonol yn dilyn marwolaeth UDD1 (yr oedd wedi'i ddisgrifio fel ei *ffrind gorau*) ar adeg pan oedd llawer o staff eraill a disgyblion hefyd yn galaru, gan ennill cydymdeimlad ei gyfoedion a'i ddioddefwyr. Cyflwynodd Foden ei hun fel dyn mewn galar dwfn a oedd yn camu i mewn pan oedd cymuned yr ysgol mewn cyflwr o sioc, ac roedd arddangosfa gyhoeddus Foden o alar am golli ei ffrind yn sicr yn ei gwneud yn fwy credadwy ei fod yn ymgymryd â'r rôl fugeiliol.

Pan adroddodd unrhyw un bryder ynghylch cyswllt Foden â disgyblion benywaidd diamddiffyn, dywedodd ef a'r gweithwyr proffesiynol a oedd yn gweithio gydag ef mai cynnig cefnogaeth gwnsela oedd y prif rheswm dros iddo gael cyswllt 1:1 â disgyblion. Pan ystyriwyd ymddygiad Foden, maes o law, mewn trafodaethau strategaeth neu'r broses Adran 5, syrthiodd gweithwyr proffesiynol eraill yn ddi-gwestiwn i'r fagl o gredu bod Foden yn cefnogi ac yn cwnsela disgyblion. Ni chymerodd unrhyw un gam yn ôl i gwestiynu a oedd Foden wedi'i hyfforddi'n briodol yn y maes hwn, a oedd yn briodol i Bennaeth ysgol fod yn cyflawni'r gwaith hwn, na pham mai dim ond i ddisgyblion benywaidd y cynigiwyd y *cwnsela*.

Am weddill 2018 hyd at benodiad UDD2 ddechrau 2019 nid oedd gan yr ysgol arweinydd diogelu hyfforddedig nac UDD. Llenwyd y bwlch gan y rheolwr swyddfa yn gweithredu fel dirprwy UDD dan oruchwyliaeth Foden. Nid oedd y rheolwr swyddfa yn weithiwr proffesiynol hyfforddedig ac roedd yn ddibrofiad yn y cyd-destun hwn, gan mai dim ond rôl yn cefnogi UDD1 fel hebryngwyr oedd ganddi; ni chafodd unrhyw hyfforddiant diogelu ffurfiol tan fis Rhagfyr 2018.

Ar ddechrau blwyddyn academaidd 2018-2019, goruchwyliodd Foden ailstrwythuro'r system fugeiliol yn Ysgol Friars, gan ddisodli staff addysg hyfforddedig a fu'n Benaethiaid Blwyddyn gyda chynorthwywyr addysgu a staff gweinyddol dibrofiad. Cyflwynwyd hyn i'r corff staff fel cynllun a grëwyd gan UDD1 (y mae'r Adolygwyr yn dadlau ei fod hefyd wedi'i benodi gan Foden oherwydd ei ddiffyg profiad a'i hydrinedd posibl) a oedd bellach yn cael ei wireddu. Rhoddodd y system newydd gyfle pellach i Foden reoli'r broses ddiogelu a rhoddodd fynediad iddo at wybodaeth a'i alluogodd i glustnodi disgyblion diamddiffyn. Yn ystod y cyfnod hwn, llwyddodd Foden hefyd i benodi Dirprwy Bennaeth dibrofiad heb hyfforddiant digonol i gymryd lle UDD1, i arwain ar waith bugeiliol fel UDD2. Ni chafodd UDD2 lefel addas o hyfforddiant diogelu tan ymhell i mewn i'w dymor cyntaf yn Ysgol Friars ac roedd wedi ymuno heb fawr o brofiad perthnasol yn y maes gwaith hwn.

Erbyn 2019, roedd yn hysbys bod Foden yn cynnal cyfarfodydd mynych â disgyblion benywaidd diamddiffyn ar ei ben ei hun yn ei swyddfa ac wedi normaleiddio'r ymddygiad hwn, gan anfon e-bost yn aml at aelodau staff i ofyn iddynt ryddhau rhai disgyblion benywaidd o'u gwersi. Cyfarwyddodd Foden staff yn agored i gamddefnyddio System Rheoli Gwybodaeth yr Ysgol (SIMS) drwy ofyn iddynt farcio disgyblion yn bresennol yn eu gwersi pan oedd y disgyblion mewn gwirionedd gyda Foden yn ei swyddfa. Drwy ddefnyddio'r dull o ofyn i'r un disgyblion gael caniatâd i fod yn absennol o amrywiaeth o wersi a phynciau, llwyddodd Foden i guddio unrhyw batrwm o absenoldeb rheolaidd neu aml unrhyw ddisgybl penodol rhag athrawon dosbarth a phenaethiaid adrannau.

Ym mis Ebrill 2019, cododd UDRh Craidd 1 bryder gyda Phennaeth Addysg 1 ALl1 ynghylch amlder cyfarfodydd unigol Foden gyda disgyblion benywaidd diamddiffyn. Pan hysbyswyd Foden am y trafodaethau hyn, ymatebodd mewn dwy ffordd; y gyntaf oedd anwybyddu UDRh Craidd 1, ei Ddirprwy Bennaeth, am gyfnod estynedig o amser, a'r ail oedd mynd ati i gyhoeddi, er enghraifft mewn briffiau staff boreol, y byddai'n cefnogi'r disgybl benywaidd o'r enw 'X' yn ei swyddfa y diwrnod hwnnw. Fel hyn, roedd Foden yn gallu parhau i weithredu yng ngolwg pawb ac yn ddi-her.

Nid dyma'r unig enghraifft o Foden yn anwybyddu ei reolau ei hun yn yr ysgol. Yn ystod cyfnodau clo Covid yn 2020, roedd Foden yn cael pennu pwy oedd yn cael dod i'r ysgol, gan wahodd dioddefwyr i gyfarfod ag ef ar eu pennau eu hunain yno, a oedd yn torri rheoliadau Covid a gweithdrefnau'r ysgol ar yr un pryd. Gwnaed sylwadau am hyn trwy negeseuon WhatsApp ymysg yr UDRh Craidd, ond ni wnaethant ei herio na cheisio cyngor ar ôl cael ymateb negyddol iawn ar achlysuron blaenorol.

Roedd Foden hefyd yn rheoli Corff Llywodraethu'r ysgol (a drafodir yn fanwl o dan Thema 5: Llywodraethu a Chwynion). Mae'r Adolygiad wedi gweld tystiolaeth bod Foden wedi drafftio ymatebion ysgrifenedig mewn perthynas â gweithdrefnau a ddygwyd yn ei erbyn, i Gadeirydd y Llywodraethwyr eu cyflwyno yn ei enw ei hun i Bennaeth Addysg 1 ALl1. Yn y llythyrau hyn, trwy Gadeirydd y Llywodraethwyr, heriodd Foden y defnydd o bolisïau a gweithdrefnau. Er enghraifft, yn seiliedig ar gyngor gan Foden ac UDD2, pan gynghorwyd Cadeirydd y Llywodraethwyr gan uwch swyddogion Cyf GPaTh ALl1, Pennaeth Addysg 1 ALl1, Pennaeth GPaTh ALl1, Cyn Gyf Cor ALl1 a Swyddog Cyfreithiol ALl1 i atal Foden o'i waith dros dro fel gweithred niwtral, gwrthododd wneud hynny, gan gyfarwyddo Foden i weithio gartref yn lle hynny. Mae'r Adolygiad wedi gweld tystiolaeth bod yr uwch aelodau staff hyn yn credu bod polisi'r ysgol yn nodi bod yn rhaid i HGC oruchwylio a chytuno ar faterion yn ymwneud ag atal y Pennaeth o'i waith dros dro. Nid yw'r Adolygiad wedi gallu gweld bod y polisi wedi newid mewn gwirionedd yn hyn o beth, fodd bynnag, mae'r Adolygiad yn dadlau, ar ôl pwyso a mesur tebygolrwydd, fod Foden wedi ffugio a hyrwyddo'r anwiredd hwn i gamarwain gweithwyr proffesiynol eraill ar adeg pan oedd yn wynebu nid yn unig ddau honiad o ddefnyddio grym afresymol wrth atal disgyblion gwrywaidd ifanc (un achos ym mhob un o'r ysgolion lle'r oedd yn Bennaeth) ond trydydd honiad yn ymwneud â'i ryngweithiadau â Phlentyn G, disgybl benywaidd, a ddisgrifir yn nes ymlaen yn yr Adolygiad hwn.

Ar ôl ei benodi yn Bennaeth Gweithredol/Strategol Ysgol 2, symudodd Foden yn gyflym i ddefnyddio ei swydd newydd i glustnodi a thargedu disgybl benywaidd diamddiffyn. Gan ddefnyddio'r un *modus operandi* ag yr oedd wedi'i ddefnyddio yn Ysgol Friars, h.y. ar wedd cefnogi disgybl, ynysodd Foden Blentyn G, gan fynnu ei bod

yn dod i'w swyddfa ar ei phen ei hun, ac yn aml yn anfon negeseuon ati i'w chyfeiriad e-bost preifat, hyd yn oed yn hwyr y nos. Sylwodd staff yr ysgol ar hyn a rhoi gwybod i GPaTh ALI1. Roedd Plentyn G wedi rhoi gwybod am ei phryderon i'r staff, gan ofyn iddynt ymyrryd, ond dywedwyd wrthi eu bod yn teimlo na allent wneud hynny *gan mai ef oedd y bos*.

Ar yr adeg hon daeth Foden hefyd i sylw GPaTh ALI1 am ei ymyriadau corfforol gyda disgyblion a'i ddefnydd llym o weithdrefnau disgyblu yn y ddwy ysgol. Ysgol Friars oedd â'r lefel uchaf o waharddiadau parhaol yn ALI1 gyda lefelau cymharol isel o waharddiadau tymor byr. Roedd yn gweithredu Polisi *tri rhybudd ac allan* a gafodd ei gymeradwyo a'i gefnogi gan y Llywodraethwyr, y staff a rhai rhieni.

Nid oedd gweithwyr proffesiynol chwaith yn gallu gweld ymddygiad Foden yn wrthrychol pan weithredodd ar wedd cynnig cefnogaeth bersonol a bugeiliol i ddisgyblion. Fel hyn, llwyddodd Foden i ymdreiddio i sefydliadau a systemau diogelu plant, dysgu sut roeddent yn gweithredu ac ynysu ei ddioddefwyr benywaidd ymhellach oddi wrth oedolion cefnogol eraill.

Tra'r oedd yn nodi a thargedu disgyblion benywaidd diamddiffyn i'w cam-drin yn rhywiol, roedd Foden yn destun cwynion ac atgyfeiriadau mewn perthynas â'i ddefnydd o arferion cyfyngol a grym amhriodol yn erbyn disgyblion gwrywaidd. Roedd disgyblion a'u rhieni'n ofni gweithredu cyflym a dial pe baent yn gwneud cwyn, ac ychydig o gwynion a arweiniodd at gamau gweithredu gan ALI1. Effeithiodd ofn gwaharddiadau a chanlyniadau eraill ar oddefgarwch teuluoedd o'r ymddygiad hwn.

Soniodd un aelod staff wrth yr Adolygiad hwn y byddai Foden yn cornelu ac yn gwawdio disgyblion gwrywaidd nes eu bod yn ymateb, a bryd hynny, byddai'n ymyrryd yn gorfforol a/neu'n sbarduno cerydd ffurfiol. Mae staff yr ysgol a rhieni wedi honni bod rhai disgyblion wedi'u targedu i'w herlid, a thrwy hyn yn cronni pwyntiau ymddygiad negyddol yn gynt nes cyrraedd y trothwy gwahardd. Soniodd aelod staff wrth yr Adolygwyr y gallai *addysg uwchradd plentyn fod drosodd o fewn diwrnod*.

Oherwydd safle canfyddedig Foden yn y gymuned ynghyd â'i enw fel dyn a fyddai'n bwlio staff, disgyblion a rhieni, roedd oedolion ofn ei herio ac yn methu â gweld ei weithredoedd yn wrthrychol. Ar yr un pryd, hysbysebodd a manteisiodd Foden ar ei bŵer dros staff a oedd yn gweithio yn yr ysgol ac yn byw yn y gymuned drwy fygwth colli swyddi neu gadw staff ar gontractau byr. Roedd disgyblion a rhieni'n wynebu'r bygythiad o gael eu gwahardd a'u tynnu oddi ar gofrestr yr ysgol. Gwrthododd Foden ymgysylltu ag achwynwyr nad oeddent yn cydymffurfio â'i reolau. Cafodd rhai o'r gweithredoedd hyn eu dilysu drwy eu cynnwys ym mholisi'r ysgol, ac mewn achosion eraill, cafodd rheolau'r polisi eu diystyru.

Casgliad llym yr Adolygiad hwn oedd nad oedd oedolion proffesiynol a oedd yn gweithio yn yr ysgol wedi oedi i ystyried pam y byddai dyn â statws a phŵer o'r fath yn ei gyflogaeth fel arweinydd ysgol gyda 1400 o ddisgyblion ar y gofrestr, yn neilltuo'r amser neu â'r awydd i gynnig cefnogaeth bersonol a bugeiliol i rai o'r disgyblion benywaidd mwyaf diamddiffyn, nac ystyried priodoldeb gwneud hynny fel aelod gwrywaidd o staff, heb hyfforddiant yn y maes hwn.

Roedd gweithwyr proffesiynol wedi dod i arfer â gweld Foden gyda disgyblion benywaidd diamddiffyn ar y safle a thu allan i'r ysgol ac wedi normaleiddio hyn, ond er

gwaethaf hyn oll, methwyd ag ystyried y byddai ei ymddygiad yn parhau drwy gydol gwyliau'r ysgol a chredwyd y byddai'r cyswllt yn dod i ben yn ystod yr amseroedd hyn. Mae'r Adolygwyr wedi gweld tystiolaeth, yn achosion Plentyn A, D ac F, y gwnaed penderfyniadau i beidio â gweithredu ar y dybiaeth anghywir na fyddai Foden yn cwrdd â nhw yn ystod gwyliau'r ysgol. Mewn un achos, awgrymwyd hyd yn oed y gallai Foden newid ei ymddygiad erbyn i'r tymor newydd ddechrau, ac na fyddai felly'n cyflwyno risg yn y dyfodol. Mae'r Adolygwyr yn ymwybodol na ddaeth y cam-drin i ben yn ystod gwyliau'r ysgol.

Roedd hwn yn gyfle a gollwyd

Roedd y ffaith mai dim ond disgyblion benywaidd diamddiffyn a welodd Foden yn ei ystafell ac nad oedd yn cynnig yr un gefnogaeth i ddisgyblion gwrywaidd hefyd wedi dod yn normal ac ni chafodd sylw ar y pryd, er bod UDD2 wedi'i nodi'n ôl-weithredol.

Mae pob un o'r enghreifftiau hyn yn dangos sgiliau Foden nid yn unig i feithrin perthynas amhriodol gyda'i ddioddefwyr, ond hefyd i ddylanwadu ar y gymuned ehangach yr oedd yn gweithio ynddi.

Pe bai gweithwyr proffesiynol o bob asiantaeth a ddaeth i gysylltiad â Foden a'r ysgol wedi cael hyfforddiant ynghylch *modus operandi* troseddwyr rhyw, mae'n debygol y byddent wedi adnabod ac ymateb i arwyddion o feithrin perthynas amhriodol a rheolaeth drwy orfodaeth yn ymddygiad Foden. Fel yr oedd pethau, fe lwyddodd Foden i ddylanwadu ar y gymuned yn fedrus i gydymffurfio â'i bolisïau a'i gamddefnydd o bŵer.

## Thema 2: Adrodd am Bryderon, Rheoli Honiadau a Gwneud Atgyfeiriadau - systemau a phrosesau

Mae'r Adolygwyr wedi gweld tystiolaeth bod GPaTh ALI1 wedi cael gwybod am nifer o bryderon am ymddygiad ac ymarweddiad Foden dros y cyfnod y mae'r Adolygiad Ymarfer Plant yn ei drafod. Roedd y pryderon hyn yn ymwneud â'i gyswllt a'i ryngweithio 1:1 parhaus â disgyblion benywaidd diamddiffyn ac fe'u cafwyd gan weithwyr proffesiynol ar draws nifer o asiantaethau gan gynnwys Ysgol Friars, Ysgol 2, Gweithwyr Cymdeithasol ALI2, Gweithwyr Cymdeithasol ALI3, Gweithwyr Cymdeithasol ALI1, y SARC, yr NSPCC, Asiantaeth Gofal Iechyd, aelodau'r UDRh, rheolwr hostel, gofalwr maeth trwy eu Gweithiwr Cymdeithasol, disgybl a theuluoedd/gofalwyr disgyblion diamddiffyn. Roedd rhai o'r atgyfeiriadau yn ymwneud â'r un disgyblion benywaidd tra bod yr atgyfeiriadau a oedd yn ymwneud ag ataliaeth yn gyfan gwbl berthnasol i ddisgyblion gwrywaidd.

Mae'r gweithdrefnau ar gyfer rheoli Honiadau/Pryderon Diogelu am Ymarferwyr a'r Rhai mewn Swyddi Cyfrifol wedi'u nodi ar hyn o bryd yn Adran 5 *Gweithdrefnau Diogelu Cymru*[5] ac fe'u rheolwyd yn flaenorol o dan *Ran 4 Gweithdrefnau Diogelu Plant Cymru Gyfan 2008.*

[5] https://diogelu.cymru/cy/

Pan ddatgelir neu adroddir am bryder neu honiad am oedolyn sy'n gweithio gyda phlant, caiff yr achos ei reoli a'i arwain fel arfer gan yr Awdurdod Lleol lle mae'r oedolyn yn cael ei gyflogi. Mae Canllawiau Adran 5 yn nodi'n glir:

'*Mae gan bob Awdurdod Lleol ddyletswydd i reoli honiadau a phryderon ynghylch y rhai sy'n gweithio gyda phlant, naill ai mewn capasiti cyflogedig neu wirfoddol, ac sy'n dod â nhw i gysylltiad (yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) â phlant neu oedolion sy'n wynebu risg, a rhaid iddynt gael swyddog dynodedig sy'n uwch reolwr dynodedig sy'n gyfrifol ac yn atebol am reoli a monitro honiadau/pryderon yn erbyn ymarferwyr a'r rhai mewn swyddi cyfrifol. Mae'n ofynnol i bob Awdurdod Lleol gael gweithiwr proffesiynol gwaith cymdeithasol sy'n ymroddedig i'r rôl hon - a elwir yn Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol (LADO).'*

Mae canllawiau Adran 5 yn parhau drwy esbonio sut i gymhwyso'r gweithdrefnau gan nodi nad dim ond lle mae amheuaeth o niwed sylweddol y maent yn berthnasol, ond eu bod hefyd yn berthnasol i ystyried '**addasrwydd**' i weithio gyda phlant.

Mae'r gweithdrefnau'n nodi hyn fel a ganlyn, gan roi enghreifftiau o ymddygiad y gellid ei ystyried o dan y pennawd hwnnw;

> *'Mae rheoli achosion o dan y gweithdrefnau hyn yn berthnasol i amrywiaeth ehangach o honiadau na'r rhai y mae achos rhesymol dros gredu bod plentyn neu oedolyn sy'n wynebu risg yn dioddef niwed, neu'n debygol o ddioddef niwed. Mae hefyd yn berthnasol i bryderon a allai awgrymu **nad yw person yn addas i barhau i weithio gyda phlant neu oedolion sy'n wynebu risg yn ei swydd bresennol neu mewn unrhyw swydd** [pwyslais gan yr Adolygwyr]. Dylid ei ddefnyddio ymhob achos lle honnir bod person sy'n gweithio gyda phlant neu oedolion sy'n wynebu risg:*

- *Wedi ymddwyn mewn ffordd sydd wedi niweidio plentyn neu oedolyn sy'n wynebu risg, neu y gallai fod wedi gwneud hynny*
- *O bosibl wedi cyflawni trosedd yn erbyn plentyn neu oedolyn sy'n wynebu risg neu sydd ag effaith uniongyrchol ar y plentyn neu'r oedolyn sy'n wynebu risg*
- *Wedi ymddwyn tuag at y plentyn, plant neu oedolion sy'n wynebu risg mewn ffordd sy'n awgrymu ei fod yn anaddas i weithio gyda phlant ac oedolion'*

Yna mae'r Canllawiau'n parhau, gan roi enghreifftiau o ymddygiad y gellid ei ystyried yn bryderus, gan nodi:

*'Mae'n gallu bod yn anodd penderfynu beth all fod yn y categori 'anaddas i weithio gyda phlant neu oedolion sy'n wynebu risg'. Dylai'r cyflogwr ystyried a yw testun yr honiad neu'r pryder:*

- *Wedi bod yn destun camau cyfreithiol sy'n awgrymu risg o niwed i blentyn neu oedolyn sy'n wynebu risg*
- *Wedi achosi niwed neu niwed posibl i blentyn neu oedolyn sy'n wynebu risg a bod risg yn yr amgylchedd gwaith, gwirfoddoli neu ofalu*
- *Wedi mynd yn groes neu'n parhau i fynd yn groes i Bolisi a Gweithdrefnau Diogelu eu hasiantaeth*

- ***<u>Heb ddeall neu gydymffurfio â'r angen am ffiniau personol a phroffesiynol eglur yn y gweithle</u>*** [pwyslais gan yr Adolygwyr]
- *Wedi ymddwyn yn eu bywyd personol mewn ffordd a allai roi <u>plant ac oedolion sy'n wynebu risg</u> mewn perygl o <u>niwed</u>*
- *Wedi ymddwyn mewn ffordd sydd wedi tanseilio'r ymddiriedaeth a roddwyd ynddynt yn rhinwedd eu swydd*
- *Plant sy'n destun Gweithdrefnau Amddiffyn Plant*
- *Yn meddu ar gyfrifoldebau gofalu am oedolyn sy'n destun Gweithdrefnau Amddiffyn Oedolion*

Mae'r Canllawiau'n nodi ymhellach:

> *'Mewn achosion lle mae modd adnabod plentyn, person ifanc neu oedolyn sy'n wynebu risg sydd efallai wedi mynegi pryder neu wedi cael ei gam-drin, bydd y gwasanaethau cymdeithasol yn gwneud asesiad cymesur yn unol â <u>Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014</u>[6].'*

Mae'r Canllawiau'n nodi'n benodol:

> *'Mewn achosion lle mae plentyn neu oedolyn sy'n wynebu risg y gellir ei adnabod sydd wedi cael ei gam-drin neu ei esgeuluso, caiff Gweithdrefnau Diogelu Cymru eu gweithredu a'u dilyn ochr yn ochr â'r broses a nodir yn y gweithdrefnau hyn.* ***Os nad oes plentyn neu oedolyn sy'n wynebu risg y gellir ei adnabod, ac os yw'r gweithiwr proffesiynol yn bodloni'r meini prawf uchod, yna caiff y gweithdrefnau hyn eu rhoi ar waith o hyd.***'[pwyslais gan yr Adolygwyr]

Ym mhob achos lle mae pryderon neu honiadau am oedolyn sy'n gweithio gyda phlentyn/plant neu mewn swydd gyfrifol, rhaid ystyried lefel y risg y gallai'r plentyn fod yn ei hwynebu. Felly, dyletswydd cyfreithiol fyddai cynnal ymchwiliad adran 47 er mwyn asesu risg a rhoi llais i'r plentyn/plant, pan fo gan yr ALl achos rhesymol i amau bod plentyn yn wynebu risg o niwed sylweddol. Dylid cydlynu'r ymchwiliad adran 47 â Chyfarfodydd Strategaeth Proffesiynol Adran 5, er mwyn sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol yn cael ei rhannu yn y fforwm priodol. Pan fo materion yn rhai trawsffiniol, rhaid gwahodd awdurdod cartref y plentyn i gyfrannu at y Cyfarfodydd Strategaeth Proffesiynol hyn bob amser a phan fo'r plentyn yn destun ymchwiliad adran 47, awdurdod cartref y plentyn fyddai'n ei gynnal.

Yn yr achos cymhleth hwn, roedd Foden yn bennaeth ysgol y mae ei dalgylch yn bennaf yn cynnwys Bangor a'i chyffiniau ac ardaloedd ehangach o'r Sir. Fodd bynnag, roedd gan Ysgol Friars hefyd ddisgyblion ar y gofrestr y mae eu cartrefi yn un o'r siroedd cyfagos yng Ngogledd Cymru, a daeth rhai o'r disgyblion hynny yn ddioddefwyr/goroeswyr cam-driniaeth gan Foden. Mae gan y siroedd cyfagos drefniadau diogelu ar wahân sy'n eistedd o fewn Adrannau Gofal Cymdeithasol Plant ac Addysg. Er mai ALl1 yw'r prif Awdurdod Lleol dan sylw yn ddiofyn, at ddibenion yr Adolygiad hwn, mae'r siroedd cyfagos wedi'u dynodi fel Awdurdod Lleol 2 (ALl2) ac Awdurdod Lleol 3 (ALl3).

[6] *Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008*

Ffactor pellach a oedd yn cymhlethu pethau oedd bod pob un o'r plant yr effeithiwyd arnynt hefyd wedi ymgysylltu i raddau mwy neu lai ag ystod o wasanaethau lleol a rhanbarthol, fel asiantaethau Gofal Iechyd, gwasanaethau iechyd (pob haen), y SARC, HGC, lles addysg, gwaith cymdeithasol, timau cefnogi teuluoedd a gwasanaethau Plant sy'n Derbyn Gofal, (nid yw hon yn rhestr gyflawn) a oedd yn gweithio yn ôl ffiniau daearyddol gwahanol. Nid yw hon yn sefyllfa anarferol i lawer o ysgolion, ond mae'n golygu bod rhaid i gyfathrebu trawsffiniol fod yn glir ac yn effeithiol, ac mae'n dangos bod cynnwys pob asiantaeth sy'n ymwneud â phlentyn, plant a theuluoedd lle mae risg o niwed o bwys hanfodol i ddiogelu plant. Ni all gwahaniaethau trawsffiniol wrth gymhwyso trothwyon diogelu a phrotocolau rhannu gwybodaeth sefyll yn ffordd cadw plant yn ddiogel. Ni chafodd Protocol Gogledd Cymru ar gyfer Datrys Anghydfodau Proffesiynol ei weithredu yn yr achos yma lle’r oedd gwahaniaethau o’r fath wedi codi.

Mae Canllawiau Adran 5 yn nodi’n glir y gweithdrefnau y mae'n rhaid i dîm diogelu'r awdurdod lleol eu defnyddio yn dilyn hysbysiad o bryder neu honiad am oedolyn sy'n gweithio gyda phlant yn eu hardal, ac mae hefyd yn nodi'n glir pwy (o ran cynrychiolaeth asiantaethau ac unigolion) ddylai fod yn rhan o drafodaethau a chyfarfodydd, a phryd y dylid eu hysbysu am y pryder.

Mae prosesau penodol a chlir i'w dilyn lle codir pryderon neu honiadau am Bennaeth. Pan fo’r Pennaeth yn destun pryder, mae Canllawiau Adran 5 a *Chanllawiau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel, 2022*[7] yn glir ynghylch rolau a chyfranogiad Cadeirydd y Llywodraethwyr a Swyddog Diogelu Dynodedig yr Awdurdod Lleol.

Yn ALl1, mae'n ymddangos bod naill ai diffyg dealltwriaeth o'r broses Adran 5 neu fethiant i'w dilyn. Yn benodol, nid oes tystiolaeth bod Cadeirydd y Llywodraethwyr, fel cyflogwr Foden, na Swyddog Diogelu Dynodedig yr Awdurdod Lleol wedi bod yn rhan o'r Trafodaethau Strategaeth cychwynnol pan adroddwyd pryderon am Foden, ac ni chawsant eu gwahodd i'r Cyfarfodydd Strategaeth Proffesiynol Adran 5 a ddilynodd mewn rhai achosion.

Roedd hyn yn groes i’r broses ac yn gyfle a gollwyd

Yn y rhan fwyaf o achosion lle codwyd pryderon am Foden, nid oedd y Trafodaethau Strategaeth cychwynnol yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Awdurdodau Lleol lle'r oedd y plant a oedd yn destun y pryderon yn byw. Roedd hyn yn golygu na ystyriwyd gwybodaeth am y plant nac unrhyw gysylltiad a allai fod ganddynt ag asiantaethau eraill wrth asesu risg a pha mor ddiamddiffyn oeddent. Nid yw'r Adolygiad wedi gweld unrhyw gofnod clir o'r Trafodaethau Strategaeth (na'r penderfyniadau a wnaed yn y cyfarfodydd hyn), ac ni aeth y rhan fwyaf ymlaen i Gyfarfod Strategaeth Proffesiynol lle gellid bod wedi rhannu gwybodaeth yn briodol. Yn aml, roedd hyn oherwydd y penderfynwyd nad oedd y pryderon yn cyrraedd y trothwy troseddol na'r trothwy ar gyfer cychwyn ymchwiliad adran 47. Ychydig o dystiolaeth y mae'r Adolygiad wedi'i gweld o ystyried y meini prawf *addasrwydd i weithio gyda phlant*.

[7] https://www.llyw.cymru/cadw-dysgwyr-yn-ddiogel

Roedd hwn yn gyfle a gollwyd

Roedd bron pob pryder a godwyd ynghylch Foden yn bryderon trydydd parti ac roedd llawer ohonynt yn ymwneud â theimlad anghysurus ac anesmwyth gweithwyr proffesiynol asiantaeth ynghylch ymddygiad Foden, fel y gwelwyd yn ei ryngweithio â disgyblion benywaidd, yr oedd nifer ohonynt yn hysbys i'r asiantaethau fel unigolion â gwendidau penodol a fyddai'n golygu eu bod yn wynebu risg. Roedd diffyg datgeliad uniongyrchol gan blentyn, neu adroddiad tyst o *dystiolaeth* o ymddygiad camdriniol, ynghyd â diffyg ystyriaeth o'r meini prawf addasrwydd a nodir uchod, yn golygu bod materion yn cael eu cyfeirio'n ôl at Bennaeth Addysg 1 ALI1 i'w rheoli fel pryder ynghylch ffiniau proffesiynol yn hytrach na mater o ddiogelu. Mewn llawer o achosion, nid oedd Pennaeth Addysg 1 ALI1 wedi mynychu'r cyfarfodydd hyn yn bersonol ac, yn absenoldeb cofnodion clir, roedd wedi dibynnu ar Uwch Reolwr Add 2 ALI1 (yn ddiweddarach Pennaeth Addysg 2) i adrodd yn ôl, neu ar Uwch Reolwr GPaTh ALI1 LADO yn trosglwyddo neges i Bennaeth Addysg 1 ALI1 dros y ffôn ar ôl y digwyddiad.

Mae methiant GPaTh ALI1 i gadw cofnodion digonol mewn perthynas â Thrafodaethau Strategaeth Adran 5 yn thema sy'n codi dro ar ôl tro yn yr Adolygiad, ac yn cynrychioli cyfleoedd a gollwyd i sylwi ar batrymau a ddaeth i'r amlwg o ymddygiad ac ymarweddiad Foden.

Roedd dod â materion i gasgliad adeg y Drafodaeth Strategaeth, lle'r oedd HGC a swyddogion o'r Adran Addysg, ond nid yr ysgol, yn aml yn bresennol, yn hytrach na symud ymlaen i Gyfarfod Strategaeth Proffesiynol Adran 5 (neu Ran 4 yn flaenorol), yn dangos diffyg dealltwriaeth ymhlith uwch aelodau staff GPaTh ALI1 o'r safonau proffesiynol sy'n ofynnol gan staff addysgu a'r rhai sy'n gweithio ym myd addysg fel y nodir nid yn unig yn Cadw Dysgwyr yn Ddiogel 2022 ond hefyd gan Gyngor y Gweithlu Adysg, y mae'n rhaid i staff addysgu yng Nghymru gofrestru ag ef. Felly, cyfeiriwyd dro ar ôl tro at bryderon fel croesi ffiniau neu faterion proffesiynol yn hytrach nag ystyried yr ymddygiad trwy lens diogelu, neu fel camfanteisio posibl ar Swydd Gyfrifol. Roedd hyn yn golygu bod trafodaethau ynghylch addasrwydd Foden i weithio gyda phlant yn cael eu hatal yn gynnar.

Yn achosion Plentyn A, Plentyn C a Phlentyn F, roedd digon o wybodaeth wedi'i rhannu mewn atgyfeiriadau i fod yn gyfystyr â thorri arferion proffesiynol. Ym mhob un o'r achosion hyn, gofynnodd Uwch Swyddogion GPaTh ALI1 dro ar ôl tro a oedd Foden wedi cael cyngor penodol i beidio â gweithredu mewn modd penodol ac, os nad oedd, a fyddai'n **gwybod** na ddylai ymddwyn mewn ffyrdd penodol, er enghraifft bod ar ei ben ei hun gyda phlentyn, cofleidio plentyn, neu roi lifft iddynt yn ei gar. Yn achos Plentyn G, gofynnwyd cwestiynau tebyg ynghylch a oedd yn dderbyniol i athro anfon negeseuon e-bost at ddisgyblion i'w cyfeiriad e-bost preifat yn hwyr y nos, ac er i Uwch Reolwr Add2 ALI1 (yn ddiweddarach Pennaeth Addysg 2) egluro mewn Cyfarfod Strategaeth Proffesiynol Adran 5 nad oedd hyn yn dderbyniol, daeth y cyfarfod i'r casgliad, er bod y pryderon wedi'u cadarnhau, nad oedd Plentyn G yn wynebu risg o niwed.

Roedd hwn yn gyfle a gollwyd, ac ni roddwyd rhesymeg am hyn

Pe bai Uwch Reolwr GPaTh ALI1 (LADO) a'i dîm wedi ymgyfarwyddo â Chod Safonau ac Ymarfer Proffesiynol CGA, byddent wedi bod yn ymwybodol o'r canlynol:

*'Mae'n gyfrifoldeb personol a phroffesiynol ar Gofrestreion i:*

- *'gydnabod eu cyfrifoldeb personol fel model rôl a ffigur cyhoeddus, i gynnal ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn y proffesiynau addysg, a hynny yn y gweithle a thu allan iddo'*

A chynnal perthnasoedd gyda dysgwyr a phobl ifanc mewn modd proffesiynol, drwy:

- *gyfathrebu gyda dysgwyr a phobl ifanc yn barchus, mewn ffordd sy'n briodol iddynt*
- *defnyddio pob math o ddull cyfathrebu mewn modd priodol a chyfrifol, yn arbennig y cyfryngau cymdeithasol*
- *sicrhau bod unrhyw gysylltiad corfforol yn angenrheidiol, yn rhesymol ac yn gymesur*
- *cyfrannu at greu amgylchedd dysgu teg a chynhwysol drwy fynd i'r afael â gwahaniaethu, ystrydebu a bwlio*
- *cynnal ffiniau proffesiynol'*

Mewn achosion lle codwyd pryderon gan neu am y dioddefwyr/goroeswyr yr ystyriwyd nad oeddent yn cyrraedd y trothwy ar gyfer Cyfarfod Strategaeth Proffesiynol, ni chafodd *llais y plentyn* ei glywed - ni siaradodd unrhyw weithiwr proffesiynol â'r plant dan sylw hyd yn oed pan adroddwyd pryderon dro ar ôl tro am yr un plant, er enghraifft yn achosion Plentyn A a Phlentyn F.   Nid yw'r Adolygiad wedi gweld tystiolaeth bod siarad â phlant wedi'i ystyried, a gwnaed y penderfyniad nad oedd materion yn haeddu ymchwiliad pellach ar y sail, mewn llawer o achosion, nad oedd y plant a oedd yn destun y pryder wedi datgelu na honni camdriniaeth yn uniongyrchol eu hunain. Ni ystyriwyd bod barn ac arsylwadau gweithwyr proffesiynol profiadol a oedd wedi gweld ymddygiad pryderus yn bwysig.

Roedd hwn yn gyfle a gollwyd

Ym mis Ebrill 2019, adroddodd UDRh1 am bryderon sylweddol i Bennaeth Addysg 1 ALI1.   Mewn ymateb, cynhaliwyd cyfarfod *ad hoc* yn cynnwys Cyfarwyddwr GPaTh ALI1, Uwch Reolwr GPaTh ALI1 (LADO), Pennaeth Addysg 1 ALI1 a'u hymgynghorydd cyfreithiol. Nid oes cofnod ffurfiol o'r cyfarfod hwnnw ond rhannwyd nodiadau a wnaed ar y pryd yn y cyfarfod gan ddau o'r rhai a fynychodd gyda'r Adolygiad.

Yn y cyfarfod hwn, dywedwyd fod UDRh Craidd 1 wedi cyflwyno'r pryderon a godwyd fel pe bai Foden yn ei roi ei hun mewn perygl o honiadau ffug trwy gyfarfod dro ar ôl tro â disgyblion benywaidd diamddiffyn ar ei ben ei hun yn ei ystafell. Derbyniodd

Uwch Swyddogion GPaTh ALl1 y modd y cyflwynwyd hyn yn y cyfarfod heb ei gwestiynu, yn yr un modd ag y gwnaeth Uwch Reolwr GPaTh ALl1 (LADO) ers i'r pryderon gael eu codi gyntaf yn 2018. Atgyfnerthodd hyn y naratif bod Foden yn ei roi ei hun mewn perygl, sef thema y nododd tîm yr AYP ei bod wedi codi gyntaf mewn ymateb i'r pryderon a godwyd yn 2018, ac a barhaodd drwy gydol cyfnod yr Adolygiad.

Er bod o leiaf rhai o'r unigolion a oedd yn bresennol yn y cyfarfod yn gwybod bod y disgyblion a enwyd gan UDRh Craidd 1 wedi bod yn destun atgyfeiriadau blaenorol gan asiantaethau eraill mewn perthynas â rhyngweithiadau Foden â nhw, ni feddyliodd unrhyw un y dylid ystyried y gallai'r disgyblion benywaidd diamddiffyn eu hunain fod yn wynebu risg oddi wrth Foden. Ni wnaeth unrhyw un gysylltu'r dotiau na gweld y darlun mawr.

Roedd hwn yn gyfle a gollwyd

Mae canlyniad y cyfarfod hwn, o ran y camau gweithredu a neilltuwyd, wedi cael ei herio. Er bod cyfeiriadau hefyd at *drafodaeth ar y grisiau* a *sgyrsiau rhybuddio* dilynol gyda Foden, nid oes tystiolaeth o'r rhain. Ni chynhaliwyd cyfarfod Strategaeth Proffesiynol Adran 5 ffurfiol mewn ymateb i bryderon yr UDRh Craidd 1, gan na ofynnwyd i UDRh 1 ALl1 wneud atgyfeiriad er gwaethaf y ffaith ei fod wedi rhannu ei bryderon difrifol, ac ni phenderfynodd wneud hynny ei hun chwaith.

Roedd yn hysbys yn yr ysgol bod Foden yn cael cyfarfodydd mynych â disgyblion benywaidd diamddiffyn y tu ôl i ddrysau caeedig yn ei swyddfa, gyda'r bleinds ar gau, a'r goleuadau i ffwrdd. Roedd disgyblion a staff yn cydnabod bod gan Foden ffefrynnau, ei fod yn cyfeirio at y disgyblion benywaidd hyn fel ei *blant amddifad*, bod disgyblion eraill ac aelodau staff yn ystyried eu bod nhw (y disgyblion benywaidd) yn cael eu trin yn wahanol ac y *gallent osgoi cosb am unrhyw beth.* Roedd Foden eisoes wedi dweud wrth ei gydweithwyr bod rhai o'r disgyblion benywaidd hyn yn debygol o wneud honiadau ffug, gan danseilio eu hygrededd.

Yn aml, roedd gweithwyr proffesiynol a oedd yn adrodd am bryderon yn gweld eu hatgyfeiriad yn cael ei *wrthwynebu* o ran ansawdd a fformat. Pan oedd gweithiwr proffesiynol wedi arsylwi ymddygiad a achosodd iddynt deimlo'n bryderus neu'n anghyfforddus, diystyrwyd hyn fel *teimlad yn unig* gan ddweud nad oedd unrhyw *dystiolaeth* o gam-drin. Defnyddiwyd y ffaith na chyrhaeddwyd y trothwy troseddol yn aml i benderfynu a oedd mater yn cael ei symud ymlaen ac ychydig o dystiolaeth oedd yna o ddefnyddio'r *Meini Prawf Addasrwydd* a nodir ym mhrotocol *Canllawiau Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru 2020* a Gweithdrefnau Adran 5. Defnyddiwyd y ffaith nad oedd plentyn, plant (neu riant) wedi gwneud cwyn benodol neu uniongyrchol fel rheswm i beidio â chynnal unrhyw ymchwiliad pellach. Ychydig iawn o achosion oedd yn cynnwys unrhyw ymgais i drafod y pryderon gyda'r plentyn neu'r plant, sef testun y pryder.

Pan drafodwyd y pryder gyda'r plant, fel ddigwyddodd gyda Phlentyn G a Phlentyn F, dywedodd y ddwy eu bod wedi cael eu cofleidio a bod hyn wedi gwneud iddynt deimlo'n anghyfforddus. Yn achos Plentyn G, cafodd y cofleidiad ei ddisgrifio fel un oedd wedi para am 10 munud, gyda'i *breichiau wrth ei hochr*. Cofnodwyd bod Plentyn F wedi dweud ei bod yn teimlo'n anghyfforddus ac nad oedd wedi rhoi caniatâd i gael

*cofleidiad*. Ar ôl i weithiwr proffesiynol ofyn i Blentyn F ddangos sut gofleidiad a gafodd, barnodd fod y *cofleidiad* a ddisgrifiwyd gan Blentyn F yn *gofleidiad priodol*.

Er gwaethaf y ffaith bod y plant yn anghyfforddus, ni wnaeth yr un o'r digwyddiadau hyn, pan gawsant eu cynnwys ochr yn ochr â phryderon eraill mewn atgyfeiriadau gan fwy nag un asiantaeth, sbarduno trafodaeth am niwed posib ac addasrwydd uwch weithiwr proffesiynol yn ymddwyn fel hyn. Mae'r math hwn o gyswllt gyda phlentyn yn torri'r safonau proffesiynol a ddisgwylir gan staff addysg. Ar ben hynny, ni ellir ystyried *cofleidiad* gan oedolyn proffesiynol, **y mae'r plentyn yn dweud yn ddiweddarach nad oedd hi ei eisiau ac a oedd yn anghyfforddus** fel rhywbeth sy'n dderbyniol nac yn briodol o dan unrhyw amgylchiadau, a dylai hyn fod wedi sbarduno ymyrraeth bellach.

Yn ogystal â'r ffordd y deliwyd â rheoli honiadau o fewn GPaTh ALI1, roedd anghytundeb rhwng GPaTh ALI1 ac asiantaethau eraill sy'n gweithio gyda phlant diamddiffyn. Roedd gwahaniaethau barn hefyd ymhlith y tri awdurdod lleol ynghylch y trothwy ar gyfer defnyddio Gweithdrefnau Adran 5. Heriwyd atgyfeiriadau a anfonwyd at GPaTh ALI1 yn seiliedig ar eu fformat, eu cynnwys a'u bwriad. Yn aml, cynhaliwyd yr heriau hyn trwy negeseuon e-bost estynedig lle gallai galwad ffôn fer fod wedi egluro'r mater. Dywedwyd wrth yr Adolygiad mewn Digwyddiadau Dysgu fod hyn wedi dod yn rhwystr i wneud atgyfeiriadau pellach. Y canlyniad oedd bod camau gweithredu mewn ymateb i atgyfeiriadau wedi'u gohirio a bod plant yn wynebu risg o niwed oddi wrth Foden.

Roedd hwn yn gyfle a gollwyd

Un enghraifft o'r fath o anghytundeb trawsffiniol oedd bod y dehongliad o'r trothwy ar gyfer cynnal Cyfarfod Strategaeth Proffesiynol Adran 5 yn wahanol rhwng ALI1, lle cyflogwyd Foden, ac ALI2, lle'r oedd disgybl benywaidd a oedd yn destun pryder yn byw. Dyma achos Plentyn A, pan adroddodd Gweithiwr Cymdeithasol ALI2 yn 2019 am eu pryderon ynghylch natur y berthynas rhwng Plentyn A a Foden i'w rheolwr, pryderon yr oedd mam Plentyn A hefyd wedi'u codi a'u rhannu,. Roedd y cofnod yn ymwneud ag ymweliad â Phlentyn A yn Ysgol Friars, gyda Foden yn bresennol.

Cofnododd Gweithiwr Cymdeithasol ALI2 yn ei nodiadau:

> *'Roedd yn amlwg i mi o'r cyfarfod fod [Plentyn A] yn ymddiried yn fawr yn [Foden] ac roedd hi'n ymddangos yn rhy ddibynnol arno. Roedd yn ymddangos bod [Foden] hefyd yn mynd gam ymhellach i gefnogi [Plentyn A] gan eu bod ill dau wedi dweud bod Foden wedi bod yn mynd â [Plentyn A] i apwyntiadau, ac roedd y rhain yn apwyntiadau nad oedd mam na dad yn ymwybodol ohonynt.' 'Teimlais ar ychydig o achlysuron yn ystod y cyfarfod fod y sefyllfa'n ymddangos yn rhy anffurfiol a lle roedd [Plentyn A] a [Foden] yn ymddangos yn rhy gyfarwydd â'i gilydd.'*

Cynhaliodd Gweithiwr Cymdeithasol ALI2 ymweliad cartref â'r fam y diwrnod canlynol er mwyn trafod *mater sensitif*. Cofnododd y gweithiwr:

*‘Yn ystod yr ymweliad cartref, dywedodd Mam ei bod hi’n teimlo’n anghyfforddus gyda’r sefyllfa lle mae’r Pennaeth [Foden] yn treulio gormod o amser gyda [Plentyn A]. Dywedodd Mam, o’r cyfarfod amlasiantaeth cychwynnol a gynhaliwyd ynghylch [Plentyn A], y penderfynwyd eisoes heb ei chytundeb / ei chydsyniad y byddai [Foden] a’r DUDD yn cefnogi ei merch i fynychu apwyntiadau.’*

*‘Dywedodd y fam y bu dau achlysur pan nad oedd [Foden] wedi dod â [Phlentyn A] adref tan ar ôl 9.30pm, oherwydd eu bod yn ôl pob sôn wedi bod mewn noson pobi cacennau, neu noson agored.*’ *Mae’r fam ‘yn teimlo’n anghyfforddus ar adegau gan fod [Foden] yn rhy garedig a chymwynasgar, a dyma sut roedd [y troseddwr blaenorol] gyda’r plant’. ‘Dywedodd y fam nad oedd hi eisiau dweud unrhyw beth o’i le nac awgrymu unrhyw beth heblaw am gefnogaeth, fodd bynnag, mae [Plentyn A] yn treulio'r rhan fwyaf o'i hamser gyda [Foden], naill ai yn yr ysgol neu ar ôl oriau ysgol.’*

*‘Dywedodd mam hefyd fod [Plentyn A] a Foden bron yn rhy gyfarwydd â’i gilydd, o ran y modd y maen nhw’n cyfarch ei gilydd neu’n gwneud jôc o’u sefyllfa.*’

Cofnododd Gweithiwr Cymdeithasol ALl2 nad oedd y fam yn gwybod sut i fynd i'r afael â'r mater hwn a, gyda chytundeb y fam, ei bod wedi cytuno i'w drafod gyda'i rheolwr atebol.

Arweiniodd y drafodaeth gyda'r rheolwr atebol yn ALl2 at Wasanaethau Plant ALl2 yn rhannu’r mater gyda GPaTh ALl1. Dilynwyd hynny gan drafodaeth hir (yn bennaf dros e-bost) rhwng Uwch Reolwr GPaTh ALl1 (LADO) ac amrywiol swyddogion am p’un a gyrhaeddwyd y trothwy ar gyfer Trafodaeth Strategaeth Broffesiynol ai peidio. Nododd Uwch Reolwr GPaTh ALl1 (LADO) yn glir nad oedd y trothwy wedi'i gyrraedd, a nododd ALl2 yn glir pe bai'r mater wedi'i godi ynglŷn â gweithiwr proffesiynol yn eu hardal nhw, y byddai cyfarfod **wedi** cael ei gynnal i drafod y pryderon.

Roedd hwn yn gyfle a gollwyd

Datblygodd y mater mewn gohebiaeth rhwng Uwch Reolwr GPaTh ALl1 (LADO) ac ALl2, gyda chais gan y cyntaf i gynnal cyfarfod i brofi trothwy Rhan 4, na wnaeth ei fodloni. Ond yn dilyn hynny, cynhaliwyd Trafodaeth Strategaeth Adran 3, lle cydnabuwyd bod yr ymddygiad yn amhriodol ac yn ‘*rhoi teimlad anghyfforddus*’, yn enwedig o ystyried adroddiadau hanesyddol tebyg eraill, ond nid oedd yn ddigon i sbarduno trafodaeth strategaeth ffurfiol na chael ei ystyried o dan Ran 4 AWCPP 2008. Mae hyn yn awgrymu goddefgarwch annerbyniol o deimladau anghyfforddus mewn perthynas ag ymddygiad amhriodol. Yn y pen draw, trafodwyd y mater ar lefel Pennaeth Gwasanaeth ar draws Adrannau Addysg a Gwasanaethau Plant y ddau awdurdod.

Er gwaethaf y drafodaeth hon, roedd Uwch Reolwr GPaTh ALl1 (LADO) yn dal i fod yn bendant nad oedd y mater yn cyrraedd y trothwy ar gyfer trafodaeth o dan weithdrefnau Rhan 4 AWCPP 2008 (er iddo nodi bod yna broblemau o ran ffiniau ac y

byddai'r achos yn debygol o fodloni'r meini prawf o dan gyfarwyddiadau Adran 5 newydd 2020 nad oeddent wedi dechrau eu defnyddio eto).

Roedd yn amlwg yng nghofnod y trafodaethau hyn fod GPaTh ALI1 yn ymwybodol bod Plentyn A wedi atgyfeirio ei phryderon ei hun am Foden y flwyddyn flaenorol (2018), a'i bod wedi'i henwi gan UDRh Craidd 1 dim ond ddau fis ynghynt fel un o'r disgyblion benywaidd yr oedd yn hysbys bod Foden yn treulio amser ar ei ben ei hun gyda hi.

Roedd hwn yn gyfle a gollwyd

Roedd yr ail enghraifft o amharodrwydd cychwynnol GPaTh ALI1 i gynnal Trafodaeth Strategaeth Broffesiynol (neu ystyried un o dan AWCPP 2020) yn ymwneud ag achos Plentyn F. Gwnaed atgyfeiriad gan ei Gweithiwr Cymdeithasol ym mis Gorffennaf 2023 ond roedd yn destun ceisiadau niferus am eglurhad. Arweiniodd y ceisiadau hyn gan GPaTh ALI1 am yr achos at oedi, gan ganiatáu iddo lithro dros wyliau haf yr ysgol. Roedd y mater yn dal i fod yn destun dadl naw wythnos yn ddiweddarach, ar ddechrau tymor yr hydref, ac ni chafodd ei ddatrys tan ar ôl i Blentyn D ddatgelu cam-drin rhywiol gan Foden ar 6 Medi. Cafodd y plentyn a oedd yn destun y trafodaethau am y trothwy ar gyfer pryderon mewn perthynas â rhyngweithiadau â Foden ei hadnabod wedi hynny fel Plentyn F. Trafodir yr achos hwn yn fanylach o dan Thema 3: Gwaith Rhyngasiantaethol.

Roedd hwn yn gyfle a gollwyd

Dangosodd y ffordd yr ymdriniodd GPaTh ALI1 â phob un o'r achosion hyn mai ychydig iawn o ddealltwriaeth oedd ganddynt o *modus operandi* troseddwyr rhyw, o feithrin perthnasoedd amhriodol â dioddefwyr a sut y gall troseddwyr soffistigedig ddylanwadu ar oedolion yn y sefydliad y maent yn gweithredu ynddo a'r gymuned y maent yn gweithio ynddi. Roedd Foden wedi normaleiddio ei ymddygiad hyd yn oed yng ngŵydd gweithwyr proffesiynol. Roedd cynnwys atgyfeiriad Gorffennaf 2023 am Blentyn F bron fel astudiaeth achos gwerslyfr o ddulliau a ddefnyddir gan droseddwyr wrth feithrin perthynas amhriodol â phlentyn. Roedd yr oedi a ddisgrifir uchod a'r gwrthwynebiad i gynnal Cyfarfod Strategaeth Proffesiynol Adran 5 wedi gadael Plentyn F yn ddiamddiffyn.

Roedd hwn yn gyfle a gollwyd

O ran atgyfeiriadau o dan Adran 5 mewn perthynas ag ataliaeth gorfforol ac ymyrraeth amhriodol (gyda disgyblion gwrywaidd ifanc), mae llawer o ddadleuon ynghylch pa lefel o ymyrraeth sy'n briodol a'r technegau a'r dulliau y gellid eu defnyddio'n rhesymol. Roedd fideos o rai o'r ymyriadau hyn ar gael a barnodd HGC eu bod yn anghymesur mewn un digwyddiad, ac yn haeddu atal Foden o’r gwaith dros dro tra bod y mater yn cael ei ymchwilio. Mewn gwirionedd, er gwaethaf cyflwyno’r pryder hwn ar yr un pryd â bod honiad arall o ataliaeth yn erbyn disgybl gwrywaidd ifanc yn cael ei ystyried, ac ymchwiliad Adran 5 yn cael ei gynnal mewn perthynas â disgybl

benywaidd, Plentyn G, nid oes unrhyw dystiolaeth bod y materion cyfochrog hyn wedi cael eu croesgyfeirio na'u cysylltu â phryderon tebyg blaenorol.

Roedd hwn yn gyfle a gollwyd

Gofynnodd Cadeirydd y Llywodraethwyr i Foden weithio gartref am gyfnod. Gwnaed hyn er gwaethaf penderfyniad Uwch Swyddogion, Cyfarwyddwr GPaTh ALl1, Pennaeth Addysg 1 ALl1, Pennaeth GPaTh ALl1, Cyn Gyf Cor ALl1 a Swyddog Cyfreithiol ALl1 y dylid argymell i Gadeirydd y Llywodraethwyr ei fod yn atal Foden o'i waith dros dro.

Ar 13 Hydref 2021, gwnaeth Plentyn G ddatgeliad ynghylch Foden i staff yn Ysgol 2. Datgelodd Plentyn G yn uniongyrchol fod rhyngweithio â Foden wedi gwneud iddi deimlo'n anghyfforddus a'i bod ofn dod i'r ysgol.

Ar 15 Hydref 2021, anfonwyd dau atgyfeiriad at GPaTh ALl1, yn ymwneud â rhyngweithio Foden gyda Phlentyn G.

Gwnaeth Ysgol 2 atgyfeiriad at GPaTh ALl1 yn dilyn datgeliad Plentyn G ei bod yn teimlo'n ofnus ac anghyfforddus yn dod i'r ysgol oherwydd Foden, bod ei ffrindiau wedi dangos erthyglau iddi ar y Cyfryngau Cymdeithasol am Foden a'u bod wedi ei hannog i weld bod beth yr oedd Foden yn ei wneud iddi yn *anghywir*.

Datgelodd Plentyn G ar 12 Hydref 2021 fod Foden wedi gofyn am ei gweld yn ei swyddfa a phan wrthododd, roedd Foden wedi dod i'w nôl o'i gwers gyntaf a mynd â hi i'w swyddfa ei hun. Rhannodd Plentyn G fod Foden wedi aros y tu allan i'r ystafell ddosbarth am 5-10 munud iddi dawelu gan ei bod wedi cynhyrfu'n lân. Cyflwynodd Ysgol 2 wybodaeth bellach bod cymhorthydd addysgu hefyd wedi rhannu ei bod wedi clywed disgybl arall yn dweud y byddai Plentyn G '*yn cwyno am Foden oherwydd ei fod wedi cyffwrdd â'i choes'*. Roedd Plentyn G hefyd wedi datgelu bod Foden wedi anfon neges e-bost ati yn hwyr y nos, unwaith mor hwyr â 00:45. Sylwodd Plentyn G fod Foden yn ei helpu ond yn gwneud hyn yn y ffordd anghywir.

Ar 15 Hydref 2021, gwnaeth asiantaeth Gofal Iechyd atgyfeiriad ar wahân ond tebyg i GPaTh ALl1 lle adroddwyd bod Plentyn G wedi datgelu i weithiwr Gofal Iechyd proffesiynol y diwrnod hwnnw fod Foden yn gwneud iddi deimlo'n anghyfforddus iawn gan ei fod yn gofyn am ei gweld yn aml yn ei swyddfa yn yr ysgol er mwyn archwilio ei breichiau am arwyddion o hunan-niweidio.

Rhannodd Plentyn G hefyd fod Foden yn aml yn anfon negeseuon e-bost ati ar ôl oriau ysgol '*yn gofyn a ydi hi'n iawn ac os na fyddai hi'n ateb, byddai'n parhau i anfon negeseuon; yn ddiweddar dywedodd ei fod wedi anfon neges e-bost ati am 00:45 yn gofyn iddi ddod i'w weld yn ei swyddfa yn y bore'.*

Datgelodd Plentyn G wrth yr ymarferydd gofal iechyd hwn ei bod ofn cael ei gwahardd. Dywedodd wrthynt ei bod wedi siarad â Dirprwy Bennaeth UDD Ysgol 2, a oedd wedi lawrlwytho rhai o'r negeseuon e-bost oddi ar ei ffôn, ac a oedd wedi gwneud atgyfeiriad hefyd.

Ar 19 Hydref 2021, dirprwywyd y dasg o gadeirio Trafodaeth Strategaeth Adran 5 i Arweinydd Tîm GPaTh ALI1, a chytunwyd y byddai ymchwiliad adran 47 yn cael ei gynnal mewn perthynas â Phlentyn G ac y byddai cadarnhad yn cael ei geisio o'r negeseuon e-bost a anfonwyd gan Foden. Nodwyd nad oedd tystiolaeth i ddangos bod trosedd wedi'i chyflawni, ond roedd problemau o ran ffiniau, ac mewn perthynas â Chyfarfod Strategaeth Proffesiynol Adran 5, nid oedd yn glir a oedd plentyn wedi'i gam-drin.

Dechreuodd yr ymchwiliad adran 47 ar 19 Hydref 2021. Yn ystod yr ymchwiliad, rhannodd Plentyn G fod Foden yn ei dychryn, a'i bod wedi gofyn i Ddirprwy Bennaeth UDD Ysgol 2 hysbysu Foden nad oedd hi eisiau ei weld, ac ymateb Dirprwy Bennaeth UDD Ysgol 2 oedd '*na allent wneud hynny oherwydd mai ef oedd y bos'*, (dyfyniad yw hwn, wedi'i aralleirio gan ALI1 yn eu cronoleg).

Pan ofynnwyd iddi am y cofleidiad a grybwyllwyd yn yr atgyfeiriad gan Ysgol 2, rhannodd Plentyn G fod Foden wedi gofyn iddi fynd i'w weld yn ei swyddfa. Ar y dechrau gwrthododd ac yna cytunodd. Datgelodd fod Foden wedi ei chofleidio a disgrifiodd eu bod yn eistedd ochr yn ochr, bod Foden wedi rhoi ei ddwy fraich o'i chwmpas, a bod breichiau Plentyn G i lawr wrth ei hochr. Eglurodd Plentyn G fod Foden yn gwneud iddi deimlo'n annifyr. Dywedodd Plentyn G fod y cofleidiad wedi para tua 5-10 munud.

Dywedwyd wrth Blentyn G fod y cofleidiad ac amseroedd y negeseuon e-bost yn amhriodol ac amhroffesiynol, ac y dylai siarad â'i nain y noson honno. Cofnodwyd

> *'canlyniad adran 47 yw bod y pryderon wedi'u cadarnhau, ond na fernir bod y plentyn yn wynebu risg parhaus o niwed sylweddol'.*

Daeth yr ymchwiliad adran 47 i ben ar 19 Hydref 2021. Ni ofynnodd unrhyw un am gael gweld negeseuon e-bost Foden i wirio cyfrif Plentyn G o'r digwyddiadau, nac yn wir i geisio cyd-destun nac eglurhad pellach o'r negeseuon.

Ar 3 Tachwedd 2021, cynhaliwyd Trafodaeth Strategaeth Broffesiynol Adran 5 yn dilyn yr ymchwiliad adran 47.

Adroddwyd yn y Drafodaeth Strategaeth Broffesiynol Adran 5 hon fod Plentyn G wedi dweud wrth weithwyr cymdeithasol yn yr ymchwiliad adran 47 ei bod wedi chwilio ar y rhyngrwyd am [Foden] a bod yr hyn a welodd wedi gwneud iddi deimlo hyd yn oed yn fwy anghyfforddus. Dywedodd nad oedd yn teimlo'n hapus am y pethau yr oedd hi wedi'i glywed amdano.

Mewn perthynas â'r cofleidiad hir, dywedodd Plentyn G ei bod wedi cynhyrfu ac wedi bod yn crio. Gofynnodd Foden iddi fynd i mewn i'w ystafell. Cofleidiodd hi am ei bod wedi cynhyrfu, ond teimlai fod y cofleidiad wedi para am 10 munud a theimlai'n anghyfforddus iawn.

Gofynnodd Cadeirydd y cyfarfod - Arweinydd Tîm GPaTh ALI1 - a oedd yn briodol i Foden fod yn anfon negeseuon e-bost y tu allan i oriau ysgol, gan ddatgan nad oedd yn gwybod a oedd hyn yn ymddygiad derbyniol, ac y byddai'n gofyn i Add ALI1 am eu barn.

Hysbysodd Uwch Reolwr Add 2 ALI1 (yn ddiweddarach Pennaeth Addysg 2) y cyfarfod [mewn perthynas â Foden yn anfon negeseuon e-bost at Blentyn G]

> *'Mae'n amhriodol. Ni ddylai Penaethiaid fod yn sgwrsio â disgyblion, yn enwedig rhai diamddiffyn, y tu allan i oriau ysgol. Gan fod y negeseuon e-bost wedi'u hanfon o'i gyfeiriad e-bost ysgol, byddant mewn cwmwl ac ni ellir eu dileu. Roedd ei weithredoedd yn bendant yn amhriodol ac nid yn beth arferol i bennaeth ei wneud; mae amseriad y peth hefyd yn broblem, dim ond ers mis yr oedd wedi bod yn yr ysgol. Mae'r Adran Addysg yn bryderus am y materion a godwyd ond o ran y drafodaeth yma, nid yw'r trothwy wedi'i gyrraedd ond mae angen mynd i'r afael â rhai materion'.*

Ailadroddodd Uwch Reolwr Add 2 ALI1 fod *anfon e-bost yn hollol amhriodol.*

Nodwyd yn y cyfarfod mai dim ond negeseuon e-bost o ffôn Plentyn G yr oedd y gweithwyr proffesiynol wedi'u gweld ond dywedodd HGC:

> *'os yw'r ddau yn cysylltu y tu allan i oriau ysgol, dydw i ddim yn siŵr pa mor bell y gallwn ni fynd â phethau, mae'n ymateb i'w neges, nid ef yw'r un sydd wedi cychwyn y sgwrs, ac os nad yw'n mynd i fynd ymhellach does dim angen cael gweld y negeseuon e-bost'.*

Er bod HGC yn cydnabod *pe bai ef yn cychwyn y sgwrs yna byddai'n stori wahanol*, gwnaed y penderfyniad i beidio â mynd â'r ymholiad ymhellach ac ni adolygwyd negeseuon e-bost Foden.

> Roedd y penderfyniad i beidio ag adolygu gohebiaeth e-bost Foden yn gyfle a gollwyd

Mae'r Adolygwyr wedi cael gweld rhai o'r negeseuon e-bost rhwng Foden a Phlentyn G, ac roedd yn amlwg bod Foden wedi cysylltu â Phlentyn G yn aml dros gyfnod sylweddol o amser, weithiau yn y nos, ac ef oedd yn cychwyn y cyswllt weithiau.

Nodwyd yn y cyfarfod Adran 5 fod Foden yn newydd i Ysgol 2 ac efallai na chafodd ei gynghori i beidio ag ymateb i Blentyn G a oedd yn hysbys am anfon negeseuon e-bost at staff eraill. Mewn gwirionedd, roedd Foden wedi neilltuo Plentyn G, gan ei chlustnodi fel unigolyn diamddiffyn, ac wedi gofyn i staff diogelu amdani. Dywedwyd wrth Foden fod staff yn ei chael hi'n anodd rheoli rhyngweithiadau Plentyn G â gweithwyr proffesiynol ac roedd Foden wedi cynnig ymyrryd ar unwaith. Pe bai UDD Ysgol 2 wedi cael ei wahodd i'r Cyfarfod Proffesiynol Adran 5, neu pe bai Add ALI1 wedi cysylltu ag Ysgol 2 am y mater cyn y cyfarfod hwn, byddai hyn wedi cael ei egluro.

> Roedd hwn yn gyfle a gollwyd

Canlyniad y Drafodaeth Strategaeth Broffesiynol Adran 5 oedd bod materion pryderus wedi'u codi '*ond o ran y drafodaeth yma, ni chyrhaeddwyd y trothwy ond mae angen*

*mynd i'r afael â rhai materion'.* Cytunwyd y byddai angen i Addysg fynd i'r afael â'r materion gyda'r ysgol. Nid yw'n glir a gymerwyd unrhyw gamau, na sut a phwy yn yr ysgol oedd i gael gwybod am hyn er bod Uwch Reolwr Add2 ALl1, yn ddiweddarach Pennaeth Addysg 2, yn bresennol. Ni chadwyd cofnod clir o'r broses wneud penderfyniadau na'r canlyniad, ac mae'n debyg i hynny arwain at annog Foden wrth symud ymlaen.

Roedd hwn yn gyfle a gollwyd

Yn y Gronoleg, adroddodd Uwch Reolwr GPaTh ALl1 (LADO):

> *'Trafodwyd rhai materion ymarfer proffesiynol yn ystod y drafodaeth. Roedd y rhain yn cynnwys y rôl fugeiliol a chefnogol a p'un a ddylai ef [Foden] fod mewn sefyllfa 1:1 gyda phlentyn diamddiffyn, y cwestiwn o gyffwrdd a chofleidio plentyn a'r negeseuon y tu allan i oriau ysgol. Roedd cynrychiolydd o'r Gwasanaeth Addysg yn bwriadu codi'r materion hyn gyda Foden'.*

Nid oes unrhyw gofnod bod unrhyw gamau dilynol wedi'u cymryd nac o bwy a allai fod wedi siarad â Foden a phryd.

Roedd hwn yn gyfle a gollwyd

Ar 14 Ionawr 2022 cysylltodd Ysgol 2 ag Add3 ALl1 yn gofyn am gyngor ar ganlyniad atgyfeiriad cynharach yr ysgol yn ymwneud â Phlentyn G, dyddiedig 15 Hydref 2021. Roedd Ysgol 2 yn bryderus bod Foden wedi bod mewn cysylltiad â hi eto yn gofyn am ei gweld wythnos yn unig i mewn i'r tymor newydd.

Wedi hynny, cysylltodd Add3 ALl1 ag Arweinydd Tîm GPaTh ALl1 yn gofyn am adborth yn dilyn atgyfeiriad cynharach Ysgol 2 am Blentyn G a dywedwyd wrthynt gan Arweinydd Tîm GPaTh ALl1 fod y mater wedi dod i ben a'i fod ar gau i GPaTh ALl1 (gweler isod am adborth pellach). Mae hyn yn gyson â neges e-bost a welwyd gan yr Adolygiad (dyddiedig 10 Tachwedd 2021) wedi'i gyfeirio at Gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol 1 (gweler y troedyn ar dudalen 25), a nododd y canlynol fel rhan o'r Drafodaeth Strategaeth Adran 5

> *'…dim trosedd nac unrhyw faterion amddiffyn plant. Mae'r achos wedi'i gau ac nid oes angen unrhyw gamau pellach.' 'Trafodwyd materion ymarfer proffesiynol'*

a bod

> *'cynrychiolydd o'r Gwasanaeth Addysg yn bwriadu codi'r materion hyn gyda Mr Foden'.*

Mae'r Adolygiad wedi gweld tystiolaeth bod Foden wedi cael llythyr dyddiedig 15 Tachwedd 2021 gan Uwch Reolwr 2 GPaTh ALl1 (LADO)

*'yn unol â chamau Trafodaeth Strategaeth Adran 5 (03/11/2021) …. ynghylch canlyniad ymchwiliad i'r honiadau a wnaed yn ei erbyn yn ddiweddar.'*

Mewn ymateb, roedd Foden wedi rhoi sicrwydd ysgrifenedig dros e-bost ar 15 Tachwedd 2021 na fyddai'n

*'ateb negeseuon e-bost na chyfarfod â [Plentyn G] ar ôl yr honiad hwn'.*

Roedd y ffaith nad oedd hyn wedi cael ei gyfleu i'r ysgol yn gyfle a gollwyd

Pe bai'r ysgol wedi cael gwybod am y canlyniad hwn, byddent wedi bod mewn sefyllfa i ymateb yn wahanol iawn pan ddywedodd Plentyn G wrthynt ym mis Ionawr 2022 fod Foden wedi cysylltu â hi, gan ofyn am ei gweld.

Ar 14 Ionawr, ceisiodd Add3 ALI1 gyngor gan GPaTh ALI1, gan ofyn yn benodol a oedd unrhyw beth i atal Foden rhag siarad â Phlentyn G. Nododd Add3 ALI1 mewn neges e-bost a anfonwyd at Bennaeth Addysg 1 ALI1 *(er gwybodaeth)*, ei bod wedi cael gwybod gan Arweinydd Tîm GPaTh ALI1, yn seiliedig ar gofnodion Trafodaeth Strategaeth Broffesiynol Adran 5,

*'fod angen i Pennaeth blwyddyn Plentyn G wybod am y cyfarfod a fod Plentyn G yn hapus i gyfarfod a Mr Foden'*.

Efallai bod y gramadeg gwael yn y neges e-bost hon wedi cymylu'r ystyr arfaethedig, ac nid oedd unrhyw beth yn nodiadau'r Drafodaeth Strategaeth Broffesiynol Adran 5 yn cyfateb i'r angen i hysbysu'r pennaeth blwyddyn. Nid yw'n amlwg pwy wnaeth y pwynt hwn yn wreiddiol ac yn seiliedig ar ba wybodaeth.

Er gwaethaf yr amwysedd hwn, ymddengys nad oedd ymateb Foden i Uwch Reolwr GPaTh ALI1 (LADO), sef na fyddai'n *'ateb negeseuon e-bost na chyfarfod â [Plentyn G]',* yn hysbys i Arweinydd Tîm GPaTh ALI1 ac felly ni chafodd ei gyfleu i Ysgol 2.

Roedd hwn yn gyfle a gollwyd

Nid yw'r Adolygiad wedi gweld unrhyw dystiolaeth bod y ddau ddarn allweddol hyn o wybodaeth wedi'u rhannu â staff diogelu'r ysgol yn dilyn ymchwiliad Tachwedd 2021. Dywedodd Dirprwy Bennaeth UDD Ysgol 2, yn ystod cyfweliad â'r Adolygwyr, nad oeddent yn ymwybodol o'r wybodaeth hon ar y pryd, gan ddweud **nad oedd** Plentyn G wedi bod yn hapus i gyfarfod â Foden. Anesmwythder Plentyn G ar ôl iddi gael cais i gyfarfod â Foden oedd y rheswm pam y gofynnodd Ysgol 2 am gyngor gan Add3 ALI1. Nid oedd Ysgol 2 yn ymwybodol chwaith fod Foden wedi datgan y byddai'n ymatal rhag gweld na chysylltu â Phlentyn G eto.

Ar 10 Ionawr 2022, bedwar diwrnod cyn yr ohebiaeth uchod, cyfnewidiwyd negeseuon e-bost rhwng Pennaeth Addysg 1 ALI1 a Foden yn trafod a ddylai Ysgol 2 wneud

atgyfeiriad newydd ynghylch Plentyn G ai peidio. Mae'r Adolygiad wedi gweld negeseuon e-bost sy'n dangos bod Add3 ALl1 yn gadarn o'r farn y **dylid** gwneud atgyfeiriad ac **na ddylid** dweud wrth Foden am yr atgyfeiriad hwn. Mae'r negeseuon e-bost hyn yn dangos bod Foden **wedi cael gwybod**. Mae tystiolaeth bod Uwch Reolwr GPaTh ALl1 (LADO) a Dirprwy Bennaeth Ysgol 2 wedi cael eu henwi fel rhai â fu'n rhan o'r drafodaeth, ond ymddengys nad oes unrhyw gofnodion pellach yn bodoli ac nid yw'r Adolygwyr wedi gallu canfod natur y pryder, cynnwys y drafodaeth na'r amgylchiadau a arweiniodd at y drafodaeth. Mae GPaTh ALl1 wedi datgan na wnaed unrhyw atgyfeiriad.

Roedd hwn yn gyfle a gollwyd

Yn ddiamau, llwyddodd yr ymateb negyddol a dderbyniwyd i gyflwyno pryderon am Foden i atal adrodd pellach. Mae hyn yn amlwg mewn gohebiaeth rhwng UDRh Craidd 1 ac UDRh Craidd 3 ym mis Ebrill / Mai 2020 sy'n cyfeirio'n ôl at yr adroddiad a wnaed gan UDRh Craidd 1 ym mis Ebrill 2019, ac mewn negeseuon e-bost a anfonwyd yn 2023 rhwng tri aelod o UDRh Craidd Ysgol Friars (gweler digwyddiadau allweddol) ac a welwyd gan yr Adolygiad, pan ofynnodd UDRh Craidd 1 a 3 i UDD2 wneud atgyfeiriad a gwrthododd wneud hynny.

Yn yr un modd, mewn achosion eraill yn ymwneud â dioddefwyr/goroeswyr pan wnaeth ymarferwyr rheng flaen atgyfeiriadau at GPaTh ALl1, roedd gofyn iddynt droi at eu Huwch Reolwyr am gymorth pellach. Mewn rhai achosion, mae tystiolaeth bod defnyddio trothwyon wedi dod yn destun dadl hirfaith rhwng GPaTh ALl1 ac Uwch Arweinwyr ALl2 ac ALl3, yn hytrach na chyfarwyddo camau gweithredu i gadw plant yn ddiogel. Archwilir hyn o dan Thema 3 Gwaith Rhyngasiantaethol.

Ni welodd yr Adolygwyr unrhyw dystiolaeth bod prosesau uwchgyfeirio ffurfiol trwy Brotocol Gogledd Cymru ar gyfer Datrys Anghydfodau Proffesiynol wedi cael eu dilyn i ddatrys yr anghydfodau hyn, dim ond negeseuon e-bost hirfaith rhwng gweithwyr proffesiynol mewn Awdurdodau Lleol cyfagos.

Mae'n bwysig bod gweithwyr proffesiynol sy'n codi pryderon am oedolyn sy'n gweithio gyda phlant yn gallu gwneud hynny gyda'r hyder y byddant yn cael eu clywed. Ar y cyfan, ni siaradwyd â'r plant a oedd yn destun pryder y gweithiwr proffesiynol, a phan wnaed hynny, ni ystyriwyd eu barn a'u profiadau neu ni roddwyd digon o hygrededd iddynt i effeithio ar ganlyniadau.

Roedd y rhain yn gyfleoedd a gollwyd ac roedd plant yn parhau i fod yn wynebu risg

## Thema 3: Gwaith Rhyngasiantaethol

Mae'r trefniadau ffurfiol ar gyfer gweithio'n rhyngasiantaethol i ddiogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg wedi'u nodi yn *Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), 2014*[8] a'r Canllawiau cysylltiedig, *Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cod Ymddygiad Diogelu ar gyfer unigolion, grwpiau a sefydliadau sy'n cynnig gweithgareddau neu wasanaethau i blant ac oedolion yng Nghymru Ionawr 2022*[9].

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i bob unigolyn, grŵp a sefydliad sy'n cynnig gweithgareddau neu wasanaethau i blant ac oedolion yng Nghymru ddilyn y cyngor a ddarperir yn y Cod Ymarfer Diogelu hwn.

Pan fo pryder ynghylch oedolyn sy'n gweithio gyda phlant, mae gan weithwyr proffesiynol ym mhob asiantaeth gyfrifoldeb i weithio ar y cyd ac i weithredu heb oedi i ddiogelu'r plentyn a phlant eraill y gallai'r oedolyn hwnnw ddod i gysylltiad â nhw. Mae nifer o adolygiadau diogelu wedi nodi bod gwaith rhyngasiantaethol effeithiol yn hanfodol i gadw plant yn ddiogel. Dylai fod protocolau ysgrifenedig clir ar gyfer rheoli pryderon a rhannu gwybodaeth sy'n effeithiol ac yn gymesur. Mae angen i weithwyr proffesiynol fod yn hyderus yn eu gwaith eu hunain a'u gallu i asesu risgiau, ond hefyd i gydnabod y rolau, y systemau a'r cyfyngiadau y mae gweithwyr proffesiynol mewn asiantaethau eraill yn gweithio oddi tanynt. Er bod dyletswydd gofal ar gyflogwr i'r oedolyn, diogelwch y plentyn sy'n cael blaenoriaeth. Rhaid i bob asiantaeth sicrhau bod eu staff yn gymwys, wedi'u hyfforddi'n dda ac yn gallu uwchgyfeirio risgiau o fewn asiantaethau a rhwng asiantaethau yn gyflym.

Mae ymddiriedaeth a dealltwriaeth yn elfennau hanfodol o bob gwaith partneriaeth a dylai ffocws ar les y plentyn/plant drechu unrhyw wahaniaethau personol a phroffesiynol.

Mae angen i weithwyr proffesiynol o bob asiantaeth fod yn ymwybodol y gall asiantaethau eraill weithredu o dan strwythurau gwahanol, y gall protocolau ar gyfer rhannu pryderon fod yn wahanol ac efallai na fydd y derminoleg a ddefnyddir yn gyffredin gan un asiantaeth yr un fath ar draws pob asiantaeth. Felly mae'n hanfodol bod hyfforddiant amlasiantaeth yn ystyried hyn. Yn yr un modd, gall trothwyon ar gyfer ymyrryd fod yn wahanol rhwng asiantaethau ac ymhellach rhwng siroedd a rhanbarthau. Dangoswyd rhwystrau i waith rhyngasiantaethol i'r Adolygiad hwn yn y dadansoddiad IMR a ddarparwyd gan GPaTh ALl1, lle nodir '*bod Gwasanaethau Plant ALl1 yn parhau i fod yn aneglur ynghylch dyraniad cyfrifoldebau rhwng yr AALl a Bwrdd y Llywodraethwyr mewn meysydd o'r fath'.*

Mae tystiolaeth a gyflwynwyd i'r Adolygiad hwn wedi dangos rhai rhwystrau sylweddol i waith rhyngasiantaethol effeithiol ar draws y tri Awdurdod Lleol ac asiantaethau sy'n ymwneud â'r achos hwn. Mae hyn wedi'i drafod yn fanwl yn Thema 2 uchod mewn perthynas â rheoli honiadau ond mae hefyd yn berthnasol i agweddau eraill ar waith rhyngasiantaethol.

Mae fformat a chynnwys atgyfeiriadau i GPaTh ALl1 yn enghraifft dda (er bod fformat cyffredin yn cael ei ddefnyddio ar draws ALl2 ac ALl3). Disgwylir y bydd pob atgyfeiriad diogelu ac amddiffyn plant yn cael eu gwneud i un pwynt cyswllt ar gyfer brysbennu, gan ddefnyddio ffurflen atgyfeirio safonol. Mae'r ffurflen atgyfeirio y mae

[8] *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*
[9] https:/www.llyw.cymru/gweithio-gydan-gilydd-i-ddiogelu-pobl-cod-ymarfer-diogelu

GPaTh ALI1 yn ei defnyddio yn gyffredin ar draws y rhanbarth ac wedi'i chynllunio i gasglu manylion pryderon am blant a theuluoedd. Pryder yr Adolygiad yw, os gwneir atgyfeiriadau ac ymholiadau dros y ffôn, na weithredir arnynt nes bod y ffurflen wedi'i llenwi i foddhad GPaTh ALI1.

Pan wneir pryder neu honiad yn erbyn oedolyn sy'n gweithio gyda phlant, mae GPaTh ALI1 yn gofyn i'r un ffurflen gael ei llenwi, er gwaethaf y ffaith mai ychydig o wybodaeth sy'n hysbys am y plentyn a'r teulu o bosibl (yn enwedig pan fydd y plentyn hwnnw'n byw mewn sir arall) a bod y pryder yn ymwneud ag ymddygiad oedolyn. Nid oes unrhyw le ar y ffurflen i fynd i'r afael yn briodol â phryderon ynghylch yr oedolyn y gwneir yr honiad yn ei erbyn, gan wneud y ffurflen yn anymarferol i'w defnyddio yn y sefyllfa. Mae'r pwyslais ar ddefnyddio'r ffurflen yn gadarn, fel a welwyd gan dîm yr AYP, er enghraifft, hyd yn oed pan ffoniodd y DUDD i roi gwybod am y datgeliad gan Blentyn D ar 6 Medi 2023, pan ddylid bod wedi gweithredu ymateb brys fel cam cyntaf, roedd GPaTh ALI1 yn gofyn i'r wybodaeth gael ei chyflwyno'n ysgrifenedig, ar y ffurflen. Mae hefyd yn werth nodi nad yw'r ffurflen yn hawdd i'w chael ar-lein mewn fformat y gellir ei olygu'n hawdd ac nad yw'n cynnig arweiniad i'r sawl sy'n atgyfeirio o ran cynnwys.

Soniodd gweithwyr proffesiynol o nifer o asiantaethau a gyfrannodd at yr Adolygiad hwn pa mor anodd oedd cael GPaTh ALI1 i dderbyn atgyfeiriad am oedolyn sy'n gweithio gyda phlant, gan adrodd bod y ffurflen yn cael ei dychwelyd iddynt yn gofyn am eglurhad pellach ac yn cwestiynu eu defnydd o derminoleg neu'n anghytuno â pherthnasedd trothwyon. Mewn rhai achosion, arweiniodd hyn at orfod adolygu ac ailgyflwyno'r ffurflen sawl gwaith, gan achosi oedi wrth weithredu ar y cynnwys. Mewn sawl achos, gallai galwad ffôn rhwng gweithwyr proffesiynol fod wedi egluro materion yn llawer cyflymach, gan ddilyn ymlaen o hynny gyda ffurflen ysgrifenedig.

Adroddwyd gan swyddogion Add ALI1 fod hyn wedi golygu bod ysgolion, dan arweiniad Uwch Swyddogion Diogelu Addysg, wedi gorfod mabwysiadu dull strategol o lenwi ffurflenni er mwyn i GPaTh ALI1 dderbyn pryder i weithredu arno. Roedd hyn yn anochel yn rhwystredig i'r atgyfeiriwr, ac yn risg amlwg i'r plentyn neu'r plant, gan y byddai gorfod ymgynghori ar sut i lenwi ffurflen atgyfeirio yn llwyddiannus yn anochel yn achosi oedi wrth wneud yr atgyfeiriad ei hun.

O ran perthnasedd trothwyon, roedd amharodrwydd i roi ystyriaeth briodol i bryderon a godwyd gan weithwyr proffesiynol profiadol mewn asiantaethau eraill pan ystyriwyd bod diffyg tystiolaeth gadarn, hyd yn oed mewn achosion lle derbyniwyd nifer o atgyfeiriadau bron ar yr un pryd, yn annibynnol ar ei gilydd, gan weithwyr proffesiynol gwybodus a gyfeiriodd at yr un pryder. Yng nghyd-destun Plentyn A, roedd gweithwyr proffesiynol o'r SARC a'r NSPCC wedi atgyfeirio eu pryderon ar wahân ynghylch natur y rhyngweithiadau a welwyd rhwng Foden a Phlentyn A, a oedd yn dangos anghydbwysedd pŵer, gor-agosatrwydd a chroesi ffiniau. Adroddodd atgyfeiriwr yr NSPCC i'r Adolygiad hwn *na allent ddeall* sut y gallai'r Uwch Swyddog, Uwch Reolwr GPaTh ALI1 (LADO), fod wedi dehongli'r hyn a ysgrifennwyd ganddynt yn yr atgyfeiriad fel y gwnaethant, gan fod datgysylltiad llwyr i bob golwg rhwng y cynnwys a'r ymateb a dderbyniwyd. Achosodd hyn i weithiwr yr NSPCC adolygu'r atgyfeiriad a thrafod gyda'u goruchwyliwr. Adroddwyd gan GPaTh ALI1 i'r Adolygiad fod yr atgyfeiriad wedi'i *dynnu'n ôl*, ond mewn gwirionedd roedd Uwch Reolwr GPaTh ALI1 LADO wedi barnu nad oedd wedi cyrraedd y trothwy ar gyfer Cyfarfod Strategaeth

Proffesiynol Adran 5, ac ni chymerwyd unrhyw gamau pellach. Gwadodd yr NSPCC yn gryf eu bod wedi tynnu eu hatgyfeiriad yn ôl.

Yn yr un modd, ym mis Gorffennaf 2023 cyflwynodd Gweithiwr Cymdeithasol o awdurdod cyfagos adroddiad ynghylch rhyngweithiadau Foden â Phlentyn F a oedd yn cynnwys disgrifiad o ymddygiad a awgrymodd yn glir fod perthynas amhriodol yn cael ei meithrin â Phlentyn F, a bod Foden wedi ei chofleidio mewn ffordd a oedd yn gwneud iddi deimlo'n anghyfforddus. Ystyriwyd bod yr atgyfeiriad yn annigonol ar y sail bod angen rhagor o wybodaeth er mwyn parhau a bod yr atgyfeiriad wedi'i gyflwyno'n wael.

Yn y drafodaeth ddilynol a gynhaliwyd yn bennaf dros e-bost, mae Uwch Reolwr GPaTh ALI1 (LADO) yn cwestiynu'r atgyfeiriad, gan ddatgan:

> *‘Rwy'n credu y gallwch ddeall bod gwneud atgyfeiriad amddiffyn plant am Foden yn fater difrifol iawn. Mae'n awgrymu ei fod yn gwneud rhywbeth na ddylai ei wneud yn uniongyrchol yn erbyn y cyfarwyddiadau a'r cytundebau sydd ar waith gydag ef. Mae wir angen i ni ddeall y dystiolaeth.* Mae’n cyfeirio ar yr un pryd at y frawddeg, ‘*Nid dyma’r tro cyntaf y gofynnwyd i Mr Foden beidio â chael unrhyw amser heb oruchwyliaeth gyda Phlentyn F oherwydd pryderon ynghylch y berthynas broffesiynol (Nid yw’n glir pwy sydd wedi gofyn i bwy beidio â gwneud hyn, na phryd. A ofynnwyd i Foden beidio â gwneud hynny? Os felly, wnaeth o gytuno? Pwy ddywedodd wrtho a phryd? A yw’n rhan o Gynllun Addysg plentyn nad yw’n gwneud hynny? Os nad yw i fod i wneud hyn, a yw wedi cael gwybod pam?’*

Mae hyn yn dangos diffyg dealltwriaeth ryngasiantaethol o safonau a phrosesau proffesiynol fel y cyfeirir atynt o dan Thema 2: Rheoli Honiadau. Ni ystyriodd Uwch Reolwr GPaTh ALI1 (LADO) fod y mater yn cyrraedd y trothwy ar gyfer Cyfarfod Strategaeth Proffesiynol o dan Adran 5 ac er bod yr awdurdod arall yn glir *ei fod* yn cyrraedd eu trothwy *nhw*. Ni chafodd y mater ei ddatrys am 9 wythnos arall – mewn gwirionedd tan ar ôl i Blentyn D ddatgelu camdriniaeth yn yr ysgol ar 6 Medi 2023.

Roedd hwn yn gyfle a gollwyd

Mae’r modd y rheolwyd pryderon ynghylch oedolion sy'n gweithio gyda phlant gan ALI1 yn dangos datgysylltiad clir rhwng Add ALI1 a GPaTh ALI1 o ran disgwyliadau o ymarfer proffesiynol, a diffyg parch at asesiad proffesiynol asiantaethau eraill o bryderon a risgiau nad ydynt yn cyrraedd y trothwy troseddol.

Yn achos Plentyn A a Phlentyn F, roedd anghydfod rhwng yr awdurdodau cartref, yn eu tro, ac ALI1 ynghylch y trothwy ar gyfer cynnal Cyfarfod Strategaeth Proffesiynol Adran 5, gyda’r awdurdodau hynny yn cadarnhau pe bai'r gweithiwr proffesiynol wedi bod yn gweithio yn eu hardal nhw y byddai'r trothwy wedi'i gyrraedd a byddai cyfarfod wedi'i alw.

Roedd diffyg dealltwriaeth o weithdrefnau asiantaethau hefyd yn rhwystr i drin pryderon yn effeithiol ac effeithlon mewn argyfwng. Pan adroddwyd am ddatgeliad Plentyn D ar 6 Medi 2023, ni wnaed hynny yn unol â pholisi'r ysgol, sy'n nodi'n glir y

dylid hysbysu Cadeirydd y Llywodraethwyr a'r Swyddog Diogelu Addysg pan godir pryder neu honiad am y Pennaeth. Clywodd yr Adolygiad na fu posib i'r DUDD gael gafael ar Gadeirydd y Llywodraethwyr na'i Ddirprwy tan yn gynnar yn y prynhawn, er ei fod wedi ceisio cael gafael arnynt sawl tro. Ni welwyd unrhyw dystiolaeth bod y DUDD nac Arweinydd Tîm GPaTh ALI1 wedi ceisio cysylltu â'r Swyddog Diogelu Addysg o gwbl, fel y disgwylir pe bai gweithdrefnau adrodd wedi cael eu dilyn. Ni wnaeth y DUDD na GPaTh ALI1 chwaith ffonio HGC ar unwaith, er bod tystiolaeth ar lafar o gam-drin rhywiol o blentyn gan y Pennaeth. Er ei fod wedi cael gwybod cyn HGC, ni welodd yr Adolygiad unrhyw dystiolaeth bod Uwch Reolwr Add2 ALI1, yn ddiweddarach Pennaeth Addysg 2, wedi rhoi gwybod i'r Swyddog Diogelu Addysg, Cadeirydd y Llywodraethwyr, Pennaeth Addysg 1 ALI1 na HGC.

Canlyniad hyn oedd bod Plentyn D yn parhau i wynebu risg, wedi'i chuddio ar dir yr ysgol tra bod Foden, a oedd wedi ceisio, a methu, mynd ati, yn gallu dileu tystiolaeth ar ei ffôn symudol a pharhau i ddefnyddio ei ddyfeisiau eraill.

## Thema 4: Arferion Cyfyngol

Dywedwyd wrth yr Adolygiad fod gan Foden enw ers degawdau am ddefnyddio grym corfforol i atal disgyblion gwrywaidd. Mae'r adolygwyr wedi gweld tystiolaeth o bedwar achos a gofnodwyd o Foden yn defnyddio arferion cyfyngol yn erbyn disgyblion gwrywaidd ifanc rhwng 2021 a 2022, yn y ddwy ysgol, a hefyd o ddigwyddiadau a gyflawnwyd gan aelodau gwrywaidd eraill UDRh Craidd Ysgol Friars. Atgyfeiriwyd tri o'r pedwar achos hyn dan weithdrefnau Adran 5, ond ni atgyfeiriwyd y llall. Ni wnaed yr un o'r atgyfeiriadau gan yr ysgol. Ni chanfuwyd cofnod clir, llawn o gwynion am y defnydd o arferion cyfyngol yn Ysgol Friars, fel y byddai Add ALI1 wedi ei ddisgwyl.

Nid yn unig yr oedd defnydd Foden o arferion cyfyngol yn erbyn disgyblion gwrywaidd ifanc yn gamddefnydd o'i awdurdod a'i reolaeth, roedd hefyd yn debygol o fod yn ymddygiad a fwriadwyd i feithrin ymdeimlad o ofn ymysg y disgyblion. Roedd Foden yn defnyddio'r dulliau atal hyn yng ngolwg pawb, yn aml gydag aelodau ei UDRh gerllaw, yn cael eu hannog ganddo i ffilmio'r digwyddiadau ar eu ffonau symudol personol. Roedd Foden wedi cyfiawnhau ei weithredoedd yn llawn iddynt ac yn mynnu bod ganddo hawl i ymddwyn fel hyn, fel yr amlinellir ym mholisi Ysgol Friars ac yn ei ddehongliad ef o amrywiol ddogfennau polisi a chanllawiau sirol a chenedlaethol (y cyfeirir atynt yn fanwl isod). Defnyddiodd yr un safbwynt yn ei ddatganiad amddiffyn a gyflwynwyd ar 16 Rhagfyr 2021 i'w ystyried mewn Cyfarfod Strategaeth Proffesiynol Adran 5. Mae'r ffaith nad yw'n ymddangos i unrhyw un herio ei safbwynt am yr ymddygiad hwn yn achos cryn bryder. Roedd hefyd yn paratoi'r ffordd i aelodau gwrywaidd eraill UDRh Ysgol Friars fabwysiadu'r un safbwynt ac ymddygiad.

Mae Llywodraeth Cymru'n nodi'n glir y dylai polisïau ac arferion ganolbwyntio ar leihau arferion cyfyngol. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Fframwaith ar gyfer *Lleihau Arferion Cyfyngol, 2021*[10] sy'n ceisio lleihau'r galw am ddefnyddio arferion cyfyngol ac yn nodi mai fel dewis olaf yn unig y bydd arferion cyfyngol yn cael eu defnyddio, i atal niwed i'r unigolyn neu i eraill, a'i fod yn seiliedig ar gynllunio sy'n canolbwyntio ar yr

[10] *Fframwaith ar gyfer Lleihau Arferion Cyfyngol, 2021*

unigolyn.  Bu i'r Fframwaith hwn ddisodli'r *Fframwaith ar gyfer Polisi ac Arferion o ran Ymyriad Corfforol Cyfyngol 2005*[11], a oedd wedi'i seilio ar yr un egwyddorion craidd.

Fodd bynnag, cynnig arweiniad anstatudol mae Fframwaith 2021, yn nodi disgwyliadau Llywodraeth Cymru ar gyfer polisi ac arferion. Gan hynny, mae disgwyl i Estyn ystyried cydymffurfiaeth â'r dull a nodir yn y Fframwaith wrth gyflawni arolygiadau. Mae dibynnu ar Estyn fel hyn yn risg o feddwl nad yw'n anghyffredin i dros 6 mlynedd fynd heibio rhwng arolygiadau ysgol. Cynhaliwyd arolygiad diwethaf Estyn o Ysgol Friars yn 2017, sydd 8 mlynedd yn ôl. Mae'r Fframwaith hefyd yn nodi, os oes unrhyw arwydd bod arferion cyfyngol yn cael eu defnyddio'n amhriodol, bod rhaid rhoi gwybod am hyn fel pryder diogelu. Gyda'r dull hwn, mae'n llai tebygol y bydd angen gofyn a oedd graddau'r grym a ddefnyddiwyd yn rhesymol neu'n gyfystyr ag ymosodiad troseddol os bydd pob cam ataliol yn cael ei roi ar waith yn gyntaf.

Os defnyddir arferion cyfyngol, fel dewis olaf, rhaid iddynt ddod o fewn y fframwaith a'r egwyddorion sy'n cefnogi hawliau dynol (*Fframwaith Hawliau Dynol ar gyfer Ataliaeth a gynhyrchwyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, EHRC, 2019*[12]*).* Rhaid i unrhyw arfer cyfyngol a ddefnyddir ddilyn yr opsiwn lleiaf cyfyngol sydd ar gael. Yn yr achosion y mae'r Adolygiad hwn yn eu hystyried, nid yw'n ymddangos mai dyma'r achos.

Yn ystadegol, plant ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n wynebu'r risg fwyaf o gael eu cam-drin. Dylid bod yn arbennig o sensitif felly wrth arfer y pŵer i ddefnyddio grym yn erbyn plant ag anghenion addysgol arbennig (AAA) a phroblemau emosiynol ac ymddygiadol, fel y nodir yn *Fframwaith ar gyfer Lleihau Arferion Cyfyngol: asesiad o'r effaith ar hawliau plant, 2021*[13] Llywodraeth Cymru. Ni chydymffurfiodd Foden â'r disgwyliad hwn mewn perthynas â Phlentyn I, ac ni ddefnyddiodd ddarpariaeth, meini prawf nac arferion a oedd yn briodol i gyflwr hysbys y plentyn.

Mae Canllawiau Cenedlaethol ar ataliaeth a oedd mewn grym yn ystod y cyfnod dan ystyriaeth yn yr Adolygiad hwn (*Ymyriad Diogel ac Effeithiol – defnyddio grym rhesymol a chwilio am arfau, 2013*[14]) hefyd yn nodi'n glir mai fel dewis olaf yn unig y dylai athrawon ddefnyddio grym, ac y dylai cynllun rheoli ymddygiad fod ar waith ar gyfer disgyblion ag anghenion ychwanegol yn ôl yr angen. Roedd y canllawiau hyn yn nodi rôl yr Awdurdod Addysg o ran casglu gwybodaeth i ganfod tueddiadau a gwerthuso agweddau ysgolion tuag at y defnydd o ymyriad corfforol.

Mae polisi enghreifftiol ALI1 ei hun ar Ymyriad Diogel, a gyhoeddwyd yn 2018, yn adlewyrchu'r canllawiau cenedlaethol, ac yn nodi bod angen darparu cyngor ar leihau'r angen i ddefnyddio grym rhesymol a thalu sylw penodol i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). O ran rhoi gwybod am ddigwyddiadau, nodir y dylid gwneud cofnod o'r digwyddiad cyn gynted ag y bo modd (pan fo'n hawdd dwyn y digwyddiad i gof o hyd) yn defnyddio'r ffurflen *Defnyddio Grym Rhesymol - HS11*, gan anfon copi i'r Awdurdod Lleol a chadw copi'n ddiogel yn yr ysgol. Mae'r polisi diogelu hwn yn gosod dyletswydd ar ysgolion i gysylltu â'r Swyddog Arweiniol Dynodedig ar gyfer Diogelu Plant mewn Addysg ar unwaith pan fo pryder neu honiad yn cael ei

[11] *Fframwaith ar gyfer Polisi ac Arferion o ran Ymyriad Corfforol Cyfyngol, 2005*

[12] *Fframwaith Hawliau Dynol ar gyfer Ataliaeth a gynhyrchwyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, EHRC, 2019*

[13] https://www.llyw.cymru/fframwaith-lleihau-arferion-cyfyngol-asesiad-or-effaith-ar-hawliau-plant

[14] *Ymyriad Diogel ac Effeithiol – defnyddio grym rhesymol a chwilio am arfau, 2013*

wneud yn erbyn aelod staff. Ni wnaed hyn er bod polisi Ysgol Friars yn cynnwys yr un wybodaeth, ond heb y manylion cyswllt cyfredol. Ni ddilynodd yr ysgol ei pholisi ei hun. Roedd Foden wedi perswadio ei staff mai ef oedd yn cael penderfynu a ddefnyddiwyd grym afresymol ai peidio. Nid oes gan yr Adolygiad unrhyw gofnod ei fod wedi dod i'r penderfyniad hwn erioed, sydd felly'n dileu unrhyw ffordd amlwg i'r Awdurdod Lleol allu monitro amlder a graddau'r grym a ddefnyddiwyd i atal gan staff Ysgol Friars.

Yn hyn o beth, aeth Foden i gryn drafferth i danseilio'r egwyddorion a nodir yng nghanllawiau cenedlaethol 2022 a'r ddeddfwriaeth gysylltiedig drwy ddethol dyfyniadau, dehongli unrhyw amwyseddau ynddynt yn ei ffordd ei hun, a chyfarwyddo ei UDRh - mewn negeseuon e-bost a welwyd gan yr Adolygwyr - mai ganddo ef oedd yr awdurdod i wneud penderfyniadau ynglŷn â gwneud atgyfeiriad pan fo aelodau staff wedi defnyddio dulliau atal a'r hyn y gellid ei ystyried yn rym afresymol wrth ddelio ag achosion o'r fath. Llwyddodd i fwrw amheuaeth ddigonol ar y ddealltwriaeth roeddent wedi'i chael o'r gweithdrefnau drwy hyfforddiant ffurfiol yr Awdurdod Lleol. Wrth wneud hynny, cynyddodd Foden oddefiad ei UDRh o'r arfer hwn pan oeddent yn ei weld, yn ogystal â'r risg gysylltiedig o niwed i ddisgyblion yn Ysgol Friars.

Ar ddefnyddio grym afresymol, mae Polisi Amddiffyn Plant yr ysgol yn gyson â'r canllawiau cenedlaethol wrth nodi y dylid cynnal asesiad - nid ymchwiliad - cychwynnol i asesu'r amgylchiadau, ond **dim ond** ar ôl ymgynghori â'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Awdurdod Lleol. Y Pennaeth ddylai wneud hyn mewn achosion o honiadau yn erbyn eu staff, neu Gadeirydd y Llywodraethwyr pan fo'n ymwneud â'r Pennaeth. Nid yw'r Adolygiad wedi gweld unrhyw dystiolaeth y rhoddwyd gwybod i Gadeirydd y Llywodraethwyr am unrhyw achosion o ataliaeth, fel y dylai fod wedi digwydd, ac ni roddwyd gwybod i'r Awdurdod Lleol am unrhyw achosion gan staff yr ysgol na Chadeirydd y Llywodraethwyr.

Mae Polisi Ysgol 2 ar Ymyriad Diogel yn dilyn polisi enghreifftiol ALI1 yn fras, ac mae'n sôn am y defnydd o ffurflenni HS11 yn y cyd-destun hwn yn un o'r achosion y maent wedi'i gofnodi ar ataliaeth.

Heddiw, mae *Canllawiau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel, 2022* yn pwysleisio, os yw'r pryder yn ymwneud ag aelod staff, ni chaiff ysgolion wneud eu penderfyniadau mewnol eu hunain o ran p'un ai mater disgyblu neu fater amddiffyn plant ydyw.

Dim ond drwy ddull sefydliad cyfan y gellir gweithredu a chynnal ymrwymiad sefydliadol clir i hawliau dynol gyda lleihad yn y defnydd o arferion cyfyngol yn briodol. Roedd hyn yn sylfaenol ddiffygiol yn Ysgol Friars. Teimlai unigolion â phryderon nad oeddent yn gallu codi eu pryder gydag UDD2 gan mai ef oedd testun eu pryder neu am ei fod wedi bod yn bresennol yn cefnogi digwyddiadau lle defnyddiodd Foden y dulliau hyn yn erbyn disgyblion gwrywaidd.

Rhaid i staff deimlo eu bod yn gallu defnyddio prosesau Chwythu'r Chwiban er mwyn uwchgyfeirio pryderon mewn achosion o bryder, gan gynnwys pan ystyrir bod graddau'r grym a ddefnyddiwyd wrth atal yn ormodol, neu fod yr arfer yn cael ei ddefnyddio'n rhy aml. Mae'r Adolygiad wedi clywed gan aelodau staff nad oeddent yn

teimlo eu bod yn gallu Chwythu'r Chwiban, nac yn gwybod sut i fynd ati i rannu pryderon am ymddygiad a oedd yn peri pryder iddynt.

Mae crynodeb o'r pedwar digwyddiad a gofnodwyd i'w weld yn llinell amser y digwyddiadau allweddol, wedi'u rhestru yn ôl dyddiad y digwyddiad.

## Achosion na chawsant eu hatgyfeirio:

Plentyn M Ysgol Friars, 18 Mai 2021, disgybl ar ddechrau CA3.
Yn y digwyddiad dan sylw, cafodd disgybl gwrywaidd ei geryddu am ddefnyddio ei ffôn ac am regi. Roedd cwyn ddilynol y rhiant yn nodi bod tri oedolyn gwrywaidd (Foden, UDRh Craidd 1 ac UDD2) wedi defnyddio arferion cyfyngol yn erbyn Plentyn M a defnyddio'u ffonau i ffilmio'r anghydfodau hyn, mewn ymgais i ysgogi ymateb yn ôl pob tebyg. Clywodd yr Adolygiad fod hwn yn arfer a ddefnyddiwyd yn gyffredin gan aelodau'r UDRh, a'i fod yn cael ei ddefnyddio i sbarduno ymddygiad mewn disgybl a fyddai'n arwain at gronni pwyntiau ymddygiad negyddol hyd nes cyrraedd y trothwy ar gyfer gwaharddiad parhaol.

Yn yr achos hwn, Foden a ddefnyddiodd y dulliau atal mwyaf eithafol, ar ôl i Blentyn M fynd ato i geisio amddiffyniad rhag UDRh Craidd 1 ac UDD2. Honnir i Foden afael ynddo'n dynn am ei wddf wrth ymrafael, ac yna am ei frest, gan gyfyngu ar ei anadlu, er bod Plentyn M eisoes mewn gofid a bod hyn yn mynd yn groes i bolisi'r ysgol ei hun[15]. Anwybyddwyd cwyn anffurfiol gychwynnol gan riant Plentyn M. Yna gwnaed y gŵyn yn ffurfiol mewn llythyr a anfonwyd gan y rhieni at Gadeirydd y Llywodraethwyr. Honnwyd bod Foden wedi cyfaddef bod y dull a ddefnyddiwyd wedi cyfyngu ar anadlu'r plentyn, ond mewn llythyr a anfonwyd gan Foden at riant Plentyn M, dywedodd bod HGC wedi *arsylwi fod ei dechneg yn berffaith*, sy'n honiad y mae HGC wedi'i wadu.

Daliwyd y digwyddiad ar TCC, a dengys y cofnodion nad oedd HGC yn ystyried bod y dull atal yn ymosodiad troseddol, sy'n golygu na chafodd UDRh Craidd 1 na Foden eu cofnodi'n ffurfiol fel unigolion dan amheuaeth ar systemau HGC. Gellir dadlau y dylai'r digwyddiad fod wedi cael ei ystyried am CID16 o hyd (gweler atodiad 1) neu am asesiad o '*addasrwydd i weithio gyda phlant'* dan Weithdrefnau Adran 5. Ni ddilynwyd yr un o'r llwybrau hyn, felly ni fyddai unrhyw gofnod o'r digwyddiad yn cael ei gadw ar gofnodion HGC na GPaTh ALI1.

Cafodd ceisiadau gan y rhiant i weld y fideo TCC hwn a'r ffurflen *HS11 Defnyddio Grym Rhesymol* gysylltiedig eu hanwybyddu gan Foden. Adroddwyd am anghysondebau yn y dystiolaeth a roddwyd i'r rhiant gan yr ysgol.

Nid oes unrhyw gofnod bod Plentyn M wedi cael ei archwilio am anaf yn dilyn defnyddio'r dulliau atal hyn, fel y cynghorir yn y canllawiau cenedlaethol, sy'n nodi y dylid archwilio'r plentyn ar unwaith ac yn y tymor hwy, gan gynnig cefnogaeth i'r plentyn hefyd. Nid yw polisi Ysgol Friars yn cynnwys disgwyliad o'r fath ac ni ddangosir bod hyn wedi cael ei gynnig na'i ddarparu.

[15] *Polisi Ymddygiad Disgyblion, Adran 6: Ataliaeth Gorfforol*

Nododd yr ysgol eu bod wedi dilyn eu polisïau eu hunain wrth fynd i'r afael â'r digwyddiad a'r gŵyn. Ni ddilynwyd polisi'r ysgol, ac mae polisïau'r ysgol yn gwyro oddi wrth y canllawiau cenedlaethol a rhanbarthol p'un bynnag, fel y manylir uchod.

Nid oedd y rhiant yn teimlo y deallwyd natur ei chwyn, h.y. nad oedd y dull atal yn gymesur â'r drosedd, a'i fod wedi'i ddefnyddio fel man cychwyn yn hytrach nag fel dewis olaf. Yn ei dyfalbarhad i gael ei chlywed, cafodd ei disgrifio yn y pen draw fel achwynwr blinderus, a dywedwyd wrthi na fyddai unrhyw gwynion ganddi yn y dyfodol yn cael eu derbyn. Mewn llythyr a anfonodd Foden at y rhiant yn rhoi gwybod am y penderfyniad hwn, nododd fod ganddo gefnogaeth lawn Cadeirydd y Llywodraethwyr a Llyw2. Nid yw'r Adolygwyr wedi gweld unrhyw dystiolaeth eu bod wedi bod yn rhan o'r mater.

## Achosion a Atgyfeiriwyd:

<u>Plentyn J</u> Ysgol 2, 12 Tachwedd 2021, disgybl CA4.
Unwaith eto, ffilmiwyd y digwyddiad hwn gan aelodau staff. Defnyddiodd Foden arferion cyfyngol yn erbyn Plentyn J a oedd yn eistedd yn y dosbarth anghywir ac yn gwrthod symud. Wrth ystyried yr atgyfeiriad hwn, nid yw'n ymddangos bod cymesuredd wedi cael ei ystyried, gydag Uwch Reolwr GPaTh ALI1 (LADO) yn nodi eu bod yn *deall fod [Foden] wedi gwneud hyn dan y Gweithdrefnau Grym Rhesymol*, heb roi fawr o argraff eu bod wedi craffu'r safbwynt hwnnw nag egwyddorion cyffredinol y gweithdrefnau hyn. Bu iddynt ychwanegu bod *yr arferion a welir yn y fideo yn gyffredin o fewn ysgolion dan amgylchiadau o'r fath*. Mae'r Adolygwyr yn dadlau nad yw hyn yn unol ag egwyddorion y polisi hwn, ac yn wir, na ddylid ei dderbyn fel bod yn *gyffredin o fewn ysgolion*.

Mynegodd Uwch Reolwr GPaTh ALI1 (LADO) bryder bod staff yn arfer ffilmio digwyddiadau o'r fath, ond teimlwyd mai mater i'r Corff Llywodraethu oedd eu bodloni eu hunain gyda'u polisïau a'r modd y mae'r rhain yn cael eu gweithredu, ac nad oedd angen adolygu'r polisi grym rhesymol *sy'n bodoli o fewn systemau'r Adran Addysg sy'n rhoi awdurdod i athrawon mewn rhai amgylchiadau i ymyrryd yn y modd hwn*. Ni chafodd yr atgyfeiriad hwn ei uwchgyfeirio i Adran 3 nac Adran 5.

<u>Plentyn H</u> Ysgol 2, 1 Chwefror 2022, disgybl CA4.
Roedd Plentyn H yn dangos ymddygiad heriol gyda'i gyfoedion. Mae cyfeiriad at ffurflen HS11 mewn neges e-bost yn dynodi y defnyddiwyd technegau atal yn ystod y digwyddiad hwn. Cysylltodd Foden â'r rhiant i roi gwybod iddynt am y digwyddiad a bod y disgybl wedi cael ei ddiarddel yn dilyn hyn. Gan fod y rhiant yn bryderus bod Foden yn cael enw am ymddygiad fel hyn ar draws y ddwy ysgol, rhoddodd wybod am y mater i HGC, Llyw3, Pennaeth Addysg 1 ALI1 a GPaTh ALI1. O ystyried dicter y rhiant a lefel y diddordeb a gynhyrchwyd ar draws yr asiantaethau ac ar y cyfryngau cymdeithasol mewn ymateb i rannu fideo o'r digwyddiad, penderfynodd Pennaeth Addysg 1 ALI1 a Llyw3 Ysgol 2 y byddai ymchwiliad i'r mater yn cael ei gynnal gan yr ysgol, gan fod ei henw da dan fygythiad. Ymddengys eu bod wedi gwneud hyn cyn gwneud atgyfeiriad i GPaTh ALI1. Nodir mewn neges e-bost a anfonwyd gan Arweinydd Tîm GPaTh ALI1 nad oedd gweithdrefnau diogelu i'w gweld wedi'u dilyn ar unwaith. Yn dilyn hyn, ystyriwyd y mater dan Weithdrefnau Amddiffyn Plant, gan

ysgogi trafodaeth adran 47 ac Adran 5, ond nid oedd yn cyrraedd y trothwy i fynd â'r mater ymhellach.

Ymddengys mai prif bwyslais y trafodaethau helaeth rhwng Add ALI1 a GPaTh ALI1 oedd rheoli prosesau yn hytrach na'r risgiau, ac ni roddwyd ystyriaeth i'r ffaith mai dyma'r pedwerydd digwyddiad *a gofnodwyd* lle'r oedd Foden wedi defnyddio dulliau atal yn erbyn plentyn yn yr un nifer o fisoedd.

Plentyn I Ysgol Friars, 27 Medi 2021.
Defnyddiwyd dulliau atal ar ddisgybl eiddil ar ddechrau CA3 gydag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) a Chynllun Datblygu Unigol (CDU). Roedd y plentyn wedi cael negeseuon cymysg am gyfarwyddyd yn y dosbarth ac wedi cynhyrfu. Galwyd Foden i'r digwyddiad, er bod camau cyfryngu eraill wedi'u hamlinellu ym Mholisi Ymddygiad yr Ysgol ac nad oedd y sefyllfa i'w gweld yn un beryglus. Defnyddiodd Foden yr hyn y gellir dadlau eu bod yn ddulliau afresymol o atal y bachgen, heb roi unrhyw ystyriaeth i'w AAA. Roedd pedwar aelod o'r UDRh ac aelodau staff eraill yn dystion i'r digwyddiad, a ffilmiwyd y digwyddiad gan rai ohonynt. Cyrhaeddodd y SCHGC i Ysgolion ar ôl i Foden fod wedi troi'r plentyn oddi ar ei gadair i'r llawr, a gweld Foden yn penlinio dros ben y bachgen, gyda'i *afl yn wyneb y plentyn*, ac yn pwyso i lawr ar ei frest. Mae hyn yn groes i'r polisïau ysgol, rhanbarthol a chenedlaethol ar ataliaeth.

Ni chafodd Plentyn I unrhyw archwiliad meddygol na chorfforol yn dilyn y digwyddiad, ac ni chynghorwyd gwneud hynny, a chafodd ceisiadau'r rhiant i'r ysgol am gwnsela eu hanwybyddu, yn groes i'r canllawiau cenedlaethol a amlinellir uchod. Rhoddodd y fam wybod ddiwedd mis Rhagfyr 2021 nad oedd Addysg wedi ateb ei chais ffurfiol am wybodaeth o hyd.

Adeg y digwyddiad, ni atgyfeiriodd yr ysgol y mater at GPaTh ALI1, ni chafodd y plentyn ei archwilio am anafiadau ac ni chymerwyd unrhyw gamau diogelu. Aeth dros fis heibio cyn i Swyddog Diogelu Data'r ysgol wneud atgyfeiriad, ar ôl adolygu'r fideo TCC y gwnaeth y rhiant gais amdano, a ysgogodd brosesau Rhan 3, adran 47 ac Adran 5. Roedd yr oedi hwn yn allweddol yn ystyriaeth HGC yn y Drafodaeth Adran 5 ac yn rhesymeg ddiweddarach Cadeirydd y Llywodraethwyr am benderfynu peidio ag atal Foden o'i waith dros dro.

Wrth ddod â'r broses adran 47 ar y cyd i ben, nodwyd nad oedd unrhyw dystiolaeth bod Plentyn I wedi dioddef unrhyw niwed sylweddol na pharhaol, ond roedd pryderon sylweddol am ymddygiad Foden a'i staff o hyd. Nid oedd HGC o'r farn bod yr ataliaeth yn gyfystyr ag ymosodiad troseddol, gan adael dim ond y pryderon am drothwy swydd gyfrifol i'w trafod, ynghyd â'r cwestiwn cysylltiedig o ran '*addasrwydd i weithio gyda phlant'*.

Cafwyd Cyfarfod Strategaeth Proffesiynol Adran 5 yn dilyn hyn, ar 11 Ionawr 2022 - Pwyntiau allweddol: Cyflwynodd Foden ddatganiad yn amddiffyn ei hun i'w ddefnyddio yn y Cyfarfod Strategaeth ar ddefnyddio dulliau atal ar Blentyn I. Ynddo, mae'n dewis dyfyniadau dethol o *Adran 93 Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006*[16]*, dogfen*

[16] https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2006/40/section/93

*ganllawiau Llywodraeth Cymru 097/2013*[17] a pholisi ei ysgol ei hun fel cyfiawnhad dros ei ddefnydd o arferion cyfyngol yn yr achos hwn o atal disgybl, gan nodi bod yr UDRh yn cefnogi ei weithredoedd.

Mewn perthynas â'r trothwy swydd gyfrifol, myfyriodd Uwch Reolwr GPaTh ALI1 (LADO), sef Cadeirydd y Cyfarfod Strategaeth Adran 5, ar ddatganiad Foden, gan nodi eu bod o'r farn ei bod yn

> *'anodd iawn dadlau y byddai ymddygiad Foden yn ei gwneud yn amhriodol iddo weithio gyda phlant, gan fod Foden wedi nodi'n glir ei fod wedi dilyn polisi adeg y digwyddiad'*.

Mae hyn yn dangos lefel gwbl annigonol o graffu ar y safbwynt gwyrdroëdig a gyflwynodd Foden o'r polisi a'r canllawiau cenedlaethol yn ei ddatganiad ei hun. Mae nodi bod y '*Polisi Grym Rhesymol yn dod o fewn systemau Addysg'* ac egluro'n amwys ei fod yn '*rhoi awdurdod i athrawon mewn rhai amgylchiadau i ymyrryd yn y modd hwn'*, yn awgrymu nad oedd gan Uwch Reolwr GPaTh ALI1 (LADO) amgyffrediad digonol o'r mater. Cafwyd anghytundeb ymysg y rhai a oedd yn bresennol ynglŷn â'r pwynt hwn - a wnaed gan Uwch Reolwr GPaTh ALI1 (LADO) - yn enwedig o ystyried bod ymchwiliad yn cael ei gynnal ar yr un pryd mewn perthynas â defnydd Foden o ddulliau atal tebyg ar Blentyn J, Ysgol 2, ac atgyfeiriad dan Adran 5 yn ystyried pryderon am Blentyn G, y byddai Uwch Reolwr GPaTh ALI1 (LADO) ac Arweinydd Tîm GPaTh ALI1 yn ymwybodol ohonynt i gyd ar y pryd. Nid oedd pawb a oedd yn bresennol wedi gweld y fideo o'r digwyddiad, a gellid dadlau nad oedd ganddynt y wybodaeth angenrheidiol i fynegi barn.

Cododd Arweinydd Tîm GPaTh ALI1 gwestiynau am y ffaith na wnaed unrhyw ymdrech i ddilyn camau mwy pwyllog i ddatrys y mater cyn defnyddio grym. Cwestiynodd HGC yr angen i Foden droi'r plentyn oddi ar ei gadair i'r llawr. Roedd Gweithiwr Cymdeithasol o'r farn nad oedd y dull yn briodol nac yn ddiogel. Roed Add2 wedi mynegi anfodlonrwydd cryf tuag at ymddygiad Foden, gan nodi bod y gyfraith yn annelwig o ran diffinio grym rhesymol a phryd y gellir ei ddefnyddio. Fodd bynnag, nododd Add2 y dylid adolygu polisi enghreifftiol y sir o ystyried y pryderon a godwyd yn yr achos hwn. Nodwyd hefyd nad oedd Ysgol Friars yn dilyn polisi ALI1 ar Ymyriad Diogel o ran rhoi gwybod am y defnydd o rym rhesymol, drwy beidio â chyflwyno ffurflenni HS11 i'r AALI. Mae polisi enghreifftiol ALI1 hefyd yn cynnwys ffurflen adrodd am ddigwyddiadau i'w defnyddio ochr yn ochr â'r ffurflen HS11, y gallai'r UDRh fod wedi'i defnyddio, ond na wnaethant hynny. Mae'n cynnwys rhestr wirio gynhwysfawr:

- *A gymerwyd camau lliniaru digonol/priodol?*
- *A oedd yr ymyriadau corfforol yn gwbl angenrheidiol?*
- *A oedd sail ar gyfer defnyddio ymyriad corfforol?*
- *A ddefnyddiwyd ymyriad corfforol yn rhesymol?*
- *A ddefnyddiwyd ymyriadau corfforol a gymeradwywyd?*
- *A oedd yr ymyriad corfforol a ddefnyddiwyd yn gymesur â'r digwyddiad?*
- *A gymerwyd camau priodol/digonol ar ôl y digwyddiad?*

[17] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/ymyriad-diogel-ac-effeithiol-defnyddio-grym-rhesymol-a-chwilio-am-arfau.pdf

- *A yw'r broses adrodd wedi'i chwblhau ac yn gynhwysfawr?*

Mae barn broffesiynol am y pwyntiau hyn yn allweddol mewn achos o gŵyn neu honiad o gam-drin. Nid oedd y wybodaeth hon ar gael i GPaTh ALI1 wrth asesu hyn na'r atgyfeiriadau eraill a oedd yn ymwneud â defnyddio prosesau cyfyngol gan staff yn Ysgol Friars.

Wrth grynhoi, rhoddwyd pwyslais cadarn ar ddatganiad Foden a'r amwysedd cyfreithiol o ran yr hyn a ystyrir yn rym rhesymol a'i ddefnydd derbyniol. Mae ystyriaeth ar y lefel hon o fanylder i ddehongli deddfwriaeth yn tynnu sylw oddi wrth yr egwyddor gyffredinol o atal, cymesuredd, a defnyddio dull sy'n ystyriol o drawma ac yn canolbwyntio ar y plentyn wrth ddelio â materion amddiffyn plant. Mae *Cadw Dysgwyr yn Ddiogel, 2022* yn nodi'r canlynol:

> '*Er mwyn ei ystyried yn gyfreithlon, byddai'n rhaid i'r grym fod yn gymesur â'r canlyniadau y bwriedir iddo eu hatal. Maint y grym a ddefnyddir fydd y lleiaf sydd ei angen i sicrhau'r canlyniad a fwriedir*.'

Mae'r *Fframwaith ar gyfer Lleihau Arferion Cyfyngol, 2022*[18] yn ceisio sicrhau mai fel dewis olaf yn unig y mae unrhyw arferion cyfyngol yn cael eu defnyddio. Mae'r Adolygwyr yn dadlau y dylid bod wedi rhoi mwy o ystyriaeth i asesu'r angen am y math hwn o ymyriad.

Roedd hwn yn gyfle a gollwyd

Yn y pen draw, mater i'r llysoedd yw dehongli deddfwriaeth, a chydnabyddir hyn mewn nodyn a atodwyd i gofnodion y cyfarfod. Fodd bynnag, mae'r Adolygwyr o'r farn bod y canllawiau cenedlaethol y cyfeirir atynt uchod ar ba bryd y dylid defnyddio arferion cyfyngol, ac i ba raddau, yn eglur.

Wrth gasglu na ddylid cymryd unrhyw gamau pellach, nododd Uwch Reolwr GPaTh ALI1 (LADO), sef y Cadeirydd, mai '*dyma'r oll y gallwn ni ei wneud…cyfrifoldeb y corff llywodraethu fydd…delio â materion yn drylwyr'.* Ychwanegodd y byddai methiant ar eu rhan nhw yn tynnu sylw Estyn yn ystod eu harolygiadau. Yn benodol, argymhellwyd bod Cadeirydd y Llywodraethwyr yn adolygu'r digwyddiad, eu trefn lywodraethu a'u cydymffurfiad mewn perthynas â Pholisi Grym Rhesymol yr ysgol, a'r galw am hyfforddiant staff. Dylai hyn gynnwys hyfforddiant pellach ar gyfer Foden.

Roedd argymhelliad pellach yn gofyn i Add ALI1 ystyried defnydd staff o ffonau i ffilmio digwyddiadau o'r fath, a'r angen am adolygiad cenedlaethol o'r defnydd o rym rhesymol. Roedd hyn yn groes i argymhelliad Uwch Reolwr GPaTh ALI1 (LADO) fis ynghynt wrth ddod i gasgliad ar y mater yn ymwneud â Phlentyn J, ac mae'n dangos cydnabyddiaeth o ddiffyg eglurder a fyddai wedi effeithio ar y penderfyniad a wnaed, ac o bosib ar yr asesiad o'r risg barhaol i blant gan Foden ac aelodau gwrywaidd ei UDRh Craidd.

[18] https://www.llyw.cymru/fframwaith-ar-gyfer-lleihau-arferion-cyfyngol-html

Gwnaeth y Cadeirydd, sef Uwch Reolwr GPaTh ALI1 (LADO), argymhelliad ehangach, sef bod angen rhoi ystyriaeth ofalus i eiriad y gweithdrefnau sy'n ymwneud â'r trothwy ar gyfer ystyried rhywun yn anaddas i weithio gyda phlant, er na ddyrannodd y cam gweithredu hwn i unrhyw unigolyn nac asiantaeth benodol.

Anfonodd Uwch Reolwr GPaTh ALI1 (LADO) lythyr at Foden a Chadeirydd y Llywodraethwyr yn nodi eu canfyddiadau. Yn ei ymateb, nid oedd Foden yn cytuno bod cyfiawnhad i unrhyw rai o'r pryderon. Dylai hyn fod wedi codi pryderon a dwysau'r ffocws ar yr angen i fonitro ymddygiad Foden o hyn ymlaen, ond ni ddigwyddodd hynny.

Ni thrafodwyd unrhyw broses ddisgyblu amgen er cryfder y teimladau am anghymesuredd ymateb Foden i'r digwyddiad, ac er nad oedd yn cyrraedd trothwyon Adran 5. Gallai cyngor cyfreithiol fod wedi helpu yn y broses hon, yn enwedig o ystyried ADY Plentyn I.

Roedd hwn yn gyfle a gollwyd

Nid oes unrhyw gofnod o ymateb gan Gadeirydd y Llywodraethwyr nac o unrhyw gamau pellach a gymerwyd mewn ymateb i'r argymhellion a wnaed i'r Corff Llywodraethu, nac o unrhyw waith monitro dilynol. Dengys cofnodion y Cyfarfod Strategaeth Proffesiynol Adran 5 nad oedd Cadeirydd y Llywodraethwyr yn bresennol, felly ni fyddai wedi bod yn ymwybodol o'r ymchwiliad hwn ar y pryd, nac am drafodion a chwynion am ddigwyddiadau eraill tebyg yn ymwneud â Foden ar yr un pryd. Gan mai Foden oedd y Pennaeth, dylai Cadeirydd y Llywodraethwyr fod wedi cael gwybod am, a bod yn rhan o bob cyfarfod o'r fath.

Dylid nodi hefyd bod Cadeirydd y Llywodraethwyr, ar yr adeg hon a gyda'r diffyg gwybodaeth hwn, wedi gweithredu ar ei ben ei hun gydag awdurdod amheus i wneud hynny (gweler Thema 5: Llywodraethu a Chwynion), wrth wrthdroi argymhelliad gan Gyfarwyddwr GPaTh ALI1, Pennaeth Addysg 1 ALI1, Pennaeth GPaTh ALI1, Cyn Gyf Cor ALI1 a Swyddog Cyfreithiol ALI1 y dylai Foden gael ei atal o'i waith dros dro tra'r oeddent yn aros am ganlyniad yr ymchwiliad cyfredol. Gweithredodd Cadeirydd y Llywodraethwyr ar ei farn bersonol '*nad oedd y digwyddiad yn unrhyw beth o bwys go iawn'*, a thrafodaethau gyda Phennaeth Addysg 1 ALI1, nad oedd ond wedi *gweld clip* o'r fideo, a Foden. Yn ei dro, drafftiodd Foden lythyr i Gadeirydd y Llywodraethwyr ei anfon i Bennaeth Addysg 1 ALI1 yn ei enw ei hun, yn nodi'r dewis o ddull disgyblu roedd y Corff Llywodraethu'n ei ffafrio.

Yn ogystal â'r achosion a gofnodwyd o ddefnyddio dulliau atal a rannwyd gyda'r Adolygwyr, mae'r Adolygiad wedi gweld gohebiaeth e-bost a chlywed gan rieni ar ôl hynny am achosion eraill o ddefnyddio dulliau atal yn Ysgol Friars. Mae un achos yn arbennig yn peri pryder sylweddol yn y ffaith ei fod yn dangos diwylliant yr ysgol a'r UDRh tuag at ddigwyddiadau o'r fath, effaith y rheiny ar aelodau staff eraill yn yr ysgol, y diffyg gweithdrefnau Chwythu'r Chwiban, neu'r diffyg gwybodaeth amdanynt, yn ogystal â'r diffyg craffu gan ALI1. Mae'r dystiolaeth wedi'i seilio ar negeseuon e-bost a rannwyd ym mis Rhagfyr 2021 rhwng Foden, UDRh Craidd 1 ac UDD2, eu

cynrychiolwyr undeb priodol a Phennaeth Addysg 1 ALl1 ac Add3 ALl1, gyda GPaTh ALl1 yn rhan o'r trafodaethau hyn.

Mae'r Adolygiad wedi gweld tystiolaeth o ddealltwriaeth ar y cyd ymysg yr UDRh mai Foden, fel Pennaeth, oedd yn gyfrifol am benderfynu a ddylid gwneud atgyfeiriadau i GPaTh ALl1 pan fo staff wedi defnyddio arferion cyfyngol ar ddisgyblion. Roedd y ddealltwriaeth hon wedi'i seilio ar y cam-ddehongliad roedd Foden wedi'i rannu o amwyseddau yn y canllawiau a'r polisi. Mabwysiadwyd y polisïau *de facto* gan yr UDRh Craidd, a aeth ati yn eu tro i ddefnyddio eu dulliau atal eu hunain ar ddisgyblion (UDRh Craidd 1 ac UDD2). Mae'r Adolygiad wedi gweld tystiolaeth o anfodlonrwydd ymysg yr unigolion hyn pan ganfuwyd bod materion o'r fath wedi cael eu trafod rhwng Pennaeth Addysg 1 ALl1 ac Add3 ALl1 heb eu cynnwys nhw.

Dyma'r achos pan ddefnyddiodd UDRh Craidd 1 ac UDD2 ddulliau atal ar ddisgybl gan beri braw i aelodau staff eraill yr ysgol, nad oeddent yn teimlo y gallent godi eu pryderon drwy lwybrau diogelu Ysgol Friars, fel y nodir ym mholisi'r ysgol, oherwydd bod yr unigolion hynny a oedd yn gyfrifol am ddiogelu yn Ysgol Friars yn cyflawni ac yn cefnogi'r ymddygiad dan sylw. Yn hytrach, cododd yr aelod staff y pryder gyda'u rheolwr atebol a roddodd wybod i Add3 ALl1 amdanynt. Cynghorwyd yr aelod staff a fynegodd bryder i wneud atgyfeiriad i dîm Diogelu'r ysgol, er mai UDD yr ysgol a gyflawnodd yr ymddygiad a oedd yn destun y pryder. Roedd y pryder gwreiddiol yn *brin o fanylion ac yn rhoi cyfrif ail law*, gan arwain Add3 ALl1 i geisio mwy o eglurder. Yn y pen draw, penderfynodd Add3 nad oedd y pryder yn cyfiawnhau atgyfeiriad at GPaTh ALl1, a chyfeiriodd yr achos yn ôl at Foden i'w ddatrys yn fewnol, gan nodi bod hyn yn unol â pholisi'r ysgol.

Mae'r Adolygwyr wedi gweld gohebiaeth helaeth rhwng Pennaeth Addysg 1 ALl1, Foden, yr unigolion a gyhuddwyd o'r defnydd amhriodol o ddulliau atal a'u cynrychiolwyr undeb llafur, yn ceisio cadarnhau pa aelod staff a gododd y pryder yn y lle cyntaf. Yn y negeseuon e-bost hyn, cafodd yr athrawon a leisiodd y pryder y tu allan i brosesau Ysgol Friars eu henwi. Nid yw'n ymddangos bod unrhyw ystyriaeth wedi'i rhoi i'r angen i drin y mater hwn gyda chyfrinachedd y broses Chwythu'r Chwiban. Nododd cynrychiolydd undeb llafur un o'r aelodau staff a gyhuddwyd mewn llythyr i'w haelod, UDRh Craidd 1, mewn perthynas â'r honiad o ddefnyddio dulliau atal, eu bod yn *cymryd nad yw hyn yn cael ei godi fel pryder disgyblu [gan Foden]*.

Mae'r Adolygiad wedi gweld neges e-bost a ysgrifennwyd gan Foden yn nodi

> *'Nid yw'n fwriad gen i gymryd unrhyw gamau mewnol gan fy mod yn gweld, ar ôl darllen yr adroddiadau atal, nad yw'r staff wedi ymddwyn yn amhriodol'*.

Byddai'r penderfyniad hwn wedi dwysau ymdeimlad cyffredinol o ddrwgdybiaeth ymysg staff, ac roedd yn galluogi ac yn *cyfiawnhau* ymhellach, yn eu golwg nhw, y defnydd o ataliaeth gan Foden a'i gydweithwyr agos gwrywaidd ar yr UDRh, ac yn tynnu grym oddi ar yr aelodau staff eraill a oedd eisiau ymyrryd neu leisio eu pryder. Mae hyn hefyd yn dangos methiant amlwg i gydnabod yr angen i roi gweithdrefnau Chwythu'r Chwiban ar waith.

Ni soniwyd am y disgybl o gwbl yn unrhyw ran o'r ohebiaeth hon, na mynegi pryder am eu lles, gan ddangos tystiolaeth glir bod polisi Ysgol Friars a'i weithrediad yn rhoi

blaenoriaeth i amddiffyn ei staff ei hun dros les y disgyblion. Ym Mholisi Ymddygiad Disgyblion Ysgol Friars, anogir staff i roi gwybod i'w cynrychiolydd undeb llafur am fanylion achosion o ddefnyddio dulliau atal, yn hytrach na llenwi ffurflen HS11 a'i chyflwyno i'r Awdurdod Lleol, sef disgwyliad a nodir ym mholisi enghreifftiol ALI1.

Yn 2015, nodwyd bod angen rhoi sylw i lywodraethu'r defnydd o rym rhesymol a rhyngweithio â gweithdrefnau amddiffyn plant yn Add ALI1. Comisiynwyd adroddiad mewnol i'r diben hwnnw, a wnaeth argymhellion a dderbyniwyd gan y Panel Diogelu Corfforaethol fel rhan o'i gynllun gwaith. Derbyniwyd camau gweithredu mewn perthynas â'r Gwasanaeth Addysg gan Bennaeth Addysg ALI1 ar y pryd. Gan nad yw'n dod o fewn Cylch Gorchwyl yr Adolygiad hwn, nid yw'r Adolygwyr wedi gweld yr adroddiad hwn, ond maent yn sicr bod angen mynd i'r afael â bylchau o ran llywodraethu arferion cyfyngol o hyd.

Dylai cydymffurfio â chanllawiau sirol a chenedlaethol ar y materion hyn fod yn fater o sicrhau ansawdd ar gyfer trefniadau diogelu corfforaethol. Mae'n anodd deall pam y byddai Corff Llywodraethu'n dewis awdurdodi gwyriad o'r fath oddi wrth ganllawiau mor llym, a pham nad aeth yr Awdurdod Lleol i'r afael â hyn.

## Thema 5: Llywodraethu a Chwynion

